

ECO'R WYDDFA

RHIF 339

RHAGFYR 2006

PRIS 40c

Dim twrci, dim tinsel, dim 'Dolig

Mae'n siŵr eich bod wedi clywed ar y newyddion yn ystod y mis fod cwmni cynilion Nadolig Fairpak wedi mynd i'r wal. Credir fod 300,000 o deuluoedd ledled Prydain ar eu colled ac mae'r newyddion wedi ein taro ni yma ym Mro'r Eco hefyd. Er i'r cwmni, 'Farepak and Gifts Ltd', fynd i ddwylo'r gweinyddwyr ar Hydref 13eg, roedd eu cwsmeriaid yn y niwl nes y daeth i'r amlwg nad oedd y Nadolig yma yn mynd i fod yr un fath eleni i nifer o deuluoedd y fro.

Mynegodd un asiant i'r cwmni ym mro'r Eco, Mrs Lynne Parri, o Ddeiniolen, pa mor siomedig oedd hi o glywed y newyddion. Roedd Mrs Parri yn asiant i'r cwmni ac yn gyfrifol am 26 o gwsmeriaid - rhyngddynt collwyd bron i £11,000.

'Fel arfer,' meddai Mrs Parri, 'rhaid dilyn y cynllun dros gyfnod o 40 wythnos ac roedd y cynllun i fod i orffen ar Hydref 6ed.' Daeth Mrs Parri i wybod am y ffawd drwy un o'i chwsmeriaid! Ni chafodd lythyr, yn hytrach gorfu iddi ffonio'r cwmni a'r unig ymateb oedd peiriant ateb yn ei hysbysu fod y cwmni wedi cau ac nad oedd neb ar gael i ateb yr alwad.

'Ro'n i'n teimlo'n drist dros y bobl, yn enwedig wrth guro ar ddrws fy nghwsmeriaid a gorfod

holl gynilion. A nwtha wedi dod ata i bob wythnos efo'r pres.'

Un teulu yn Neiniolen sydd wedi colli swm sylweddol o arian yw'r teulu Thomas. Mae'r teulu ifanc wedi colli £3,800 ac yn gorfod aildrefnu eu 'Dolig eleni.

'Mae nifer o bobl wedi colli swm rhwng £100 a miloedd o bunnoedd,' meddai Mrs Parri. 'Pobl a fu'n talu'n ffyddlon yw'r rhain.'

Braf gweld nad yw ysbryd y Nadolig wedi cilio, er y golled. Hoffai Mrs Parri ddiolch i'w chwsmeriaid am eu dealltwriaeth.

'Mae pawb wedi bod yn gefnogol iawn,' meddai.

Yn y rhifyn hwn y mae cyfarchion Nadolig busnesau Llanberis, Cwm y Glo, Brynrefail a Deiniolen yn ymddangos.

Yn y rhifyn nesaf, rhifyn y Nadolig, y bydd cyfarchion busnesau Llanrug, Bethel, Waunfawr, Penisarwaun a Chaeathro.

Cofiwch gefnogi'n Hysbysebwy'r y Nadolig hwn.

Y Post Cyntaf yn Llanrug

Mae tîm golygyddol Eco'r Wyddfa wedi hen arfer chwilio am stori, sgrifennu, casglu a golygu a hynny yn erbyn dedleins tynn bob mis. A dyma'r dewis perffaith wrth i raglen newyddion fore BBC Radio Cymru Post Cynta fynd ar daith led led Cymru a gwahodd golygyddion gwadd i'r rhaglen.

Yn ystod wythnos Rhagfyr 11-15 bydd Post Cynta yn cael ei olygu gan olygyddion amrywiol bapurau bro yng Nghymru, ac ar Ragfyr 14eg, tîm Eco'r Wyddfa sydd wrthi.

Golyga hyn mai nhw fydd yn dewis storïau ar gyfer y rhaglen, dod o hyd i gyfrannwyr i ymateb i storïau newyddion y dydd ac yn wir cadw trefn ar y cyflwynwyr! Y bwriad yw cael persbectif ffres ar y rhaglen, clywed sut yr hoffai'r gwrandawyr i'r rhaglen swnio, pa faterion ac eitemau yr hoffon nhw i'r rhaglen eu trafod a chyflwyno lleisiau lleol.

Mae tîm Post Cynta ei hun yn hynod o gyffrous am y fenter hon.

'Er mor gysurus a chynnes yw stiwdio y Post Cynta ben bore yn BBC Cymru yn Llandaf yr adeg yma o'r flwyddyn, mae'r cyfle i fynd ar daith yn apelio yn fawr,' meddai Garry Owen. 'Dyma sut y byddwn ni'n cwrdd â ffrindiau hen a newydd. Mae hefyd yn ffordd wych i ni'r newyddiadurwyr ar dîm y Post Cynta ddod o hyd i ambell stori a chyflwyno lleisiau lleol i'r rhaglen.'

'Fe fyddwn ni'n ymweld ag ardaloedd ym mhob rhan o Gymru yn ystod yr wythnos - ac rydyn ni yn edrch ymlaen yn fawr i ymweld ag ardal Eco'r Wyddfa - yn y stiwdio yn Llanrug ar y 14eg. Os y gwelwch chi ni felly, dewch draw.'

Os oes syniadau am stori neu eitem gennych chi'r darllenwyr, cysylltwch â thîm Eco'r Wyddfa a chofiwch wrando ym mis Rhagfyr!

Post Cynta, Llun-Gwener, BBC Radio Cymru, 7am.

RHIAN JONES
Dirprwy Olygydd
Newyddion

Tîm Pêl-droed Genod Blwyddyn 7



Mae Tîm Pêl-droed Genod Blwyddyn 7 wedi blasu cryn lwyddiant yn ystod yr wythnosau diwethaf ac wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan Eryri ar ôl curo Ysgol David Hughes yn y rownd go-gyn-derfynol ac Ysgol Uwchradd Caergybi yn y rownd cyn-derfynol. Yn y rownd derfynol byddant gartref yn erbyn Ysgol...

ECO'R WYDDFA

**RHIF 339
RHAGFYR 2006**
*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.*

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

**Erthyglau a newyddion
at ohebwy pentref neu
Penarth**
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
LL55 4BA

Ymholiadau Golygyddol
Llinos Jones
01248 374 962
llynoshaf@hotmail.com
07733211332

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

**Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, 8/9 RHAGFYR**

**Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 20/21 Rhagfyr**

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Nadolig/Ionawr	8/9 Rhag	20/21 Rhag	Ysgol Brynrefail	Eifion Jones	672 381

Llythyrau

Annwyl Olygydd,
'Llandyrnog a Llangwyfan - Trem
yn Ôl'

Tybed a oes gan unrhyw un o'ch darllenwyr gysylltiad â Llandyrnog neu Llangwyfan yn Sir Ddinbych? Os oes, mae'n siŵr y bydd ganddyn nhw ddi-ddordeb yn *Llandyrnog a Llangwyfan - Trem yn Ôl*, cyfrol ddiweddaraf Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog. Mae hi'n gyfrol o dros 100 tudalen, yn cronicleo hanes y ddau blwyf mewn llun a gair, gan gynnwys hanes y Sanatoriwm enwog, y ffatri laeth, addysg, amaethyddiaeth, gweithgareddau hamdden a chymdeithasau, tai o bob math, a'r eglwysi a'r capeli.


Am ragor o fanylion, neu i archebu'ch copi am £10.80 (yn cynnwys costau postio) - anrheg Nadolig delfrydol! - cysylltwch â mi ar y ffôn: (01824) 790411; neu yn Y Gilfach, Llandyrnog, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 4LA; neu ar ebost: idris.jones1@btinternet.com.

Yn gywir

NORA JONES

Ysgrifennydd Cymdeithas Hanes
Lleol Llandyrnog

**Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun**



Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261

Cewch groeso cynnes
gan y perchnogion newydd,
CLED A SUSAN

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor,
yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â
gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

**Diolch i bobol Bethel am eu croeso a'u
cefnogaeth yn ystod ein misoedd cyntaf.**



NOS SADWRN

RHAGFYR 2ail. 5-7pm.

**Goleuadau NADOLIG
STRYD FAWR LLANBERIS**

- **CANU CAROLAU**
- **YMWELIAD SION CORN**
- **SIOPAU AR AGOR**
- **Stondinau mudiadau lleol**

RHAN O'R STRYD FAWR AR GAU I DRAFNIADAETH

PRYNHAWN SUL RHAGFYR 10ed.

CYNGERDD CAROLAU

BLYNYDDOL

MYNYDD GWEFRU

am 2 o'r gloch

Gyda Côr Meibion Dyffryn Peris a
Seindorf Arian Deiniolen

NOS FERCHER RHAGFYR 20ed. am 7 o'r gloch

"ffordd Tangnefedd"

YN EGLWYS SANT PADARN

Drama gerdd Nadolig gan gantorion ac actorion lleol

TOCYNNAU AR GAEL YN SIOP FORMAG, GAN AELODAU, NEU AR Y DRWS

Mae Glyn Williams, 18 Maes
Padarn, Llanberis, yn dymuno
Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i'w deulu,
cymdogion a ffrindiau. Fydd o
ddim yn anfon cardiau
Nadolig y flwyddyn yma.

**Dymuna Pwyllgor Llanberis
o'r Lleng Brydeinig ddiolch
o galon i'r gwerthwyr,
busnesau a'r prynwyr a
gefnogodd Apêl Popi 2006.**

**Cefnogwch
ein Hysbysebwy**

**Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?**

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda CDH

**Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)**

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG · WELSH
LANGUAGE BOARD**

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Ffilm Fawr Dydd Nadolig ar S4C




Ellis Williams.

Llythrau Ellis Williams

Ychydig a feddyliai Ellis Williams, mab fferm Gors ym Mhenisarwaun, y byddai hanes ei fywyd yn cael ei droi yn ffilm ryw ddydd.

Darlledir *Llythrau Ellis Williams*, dogfen awr a hanner o hyd â llinyn gerddorol gref yn rhedeg drwyddi ar Ddydd Nadolig ar S4C eleni. Mae'r ffilm a gynhyrchir gan Alun 'Sbardun' Huws a Siân Teifi, o gwmni Sianco, yn seiliedig ar gyfres o lythrau go-iawn a anfonodd Ellis i'w deulu pan orfodwyd ef i adael Cymru am Batagonia ac Awstralia.

Pan oedd yn 28 mlwydd oed



Dyfrig Evans.

cyhuddwyd Ellis Williams o botsio ffesant ar dir stad y Faenol ac, yn ôl traddodiad, fe'i gorfodwyd i adael Cymru neu wynebu gweld ei deulu yn colli eu fferm, oedd yn eiddo i'r stad.

Felly yn 1908 aeth i Batagonia i weithio fel *gaucho*. Mae ei lythrau yn ôl at ei deulu yn sôn am ei fywyd caled gyda'r *gauchos*, yn marchogaeth hyd at 70 milltir y dydd ac yn byw am fisoedd o dan y sêr, a hynny mewn gwlad a oedd ar y pryd yn llawn dihirod. Yna pan aeth pethau'n fain ar ffermwyr Y Wladfa, penderfynodd hel ei bac am Awstralia. Ond 'doedd pethau ddim yn hawdd iddo yno 'chwaith fel y tystia ei lythrau cyson.

Daeth cysgod y Rhyfel Mawr yn 1914 ac anfonwyd Ellis i Ffrainc. Parhaodd i lythru adref hyd y dydd hwnnw pan gafodd ei ladd ym mrwydr y Somme, ac yntau'n ddim ond 38 mlwydd oed.

Darllen yr hanes anhygoel yma mewn erthygl yn *Eco'r Wyddfa* ychydig flynyddoedd yn ôl a ysbrydolodd y ffilm.

'Fe ges i fy nghyfareddu gan y stori ac fe es ati wedyn i wneud mwy o ymchwil i hanes Ellis yn Archifdy Caernarfon,' eglura'r cynhyrchydd, Alun 'Sbardun' Huws, a ddaw'n wreiddiol o Benrhyndeudraeth.

Cafodd y criw cynhyrchu gymorth parod gan nai uniongyrchol Ellis hefyd yn ystod y cyfnod ffilmio, sef yr awdur a'r hanesydd lleol, John Ellis Williams o Lanrug. Roedd Ellis Williams yn ewythr cyfan iddo gan fod ei dad, Joseff, yn frawd ieuengaf i Ellis a'r ddau ohonynt wedi eu magu yn Gors.

Bryn Fôn yw'r storiwr a fydd yn dilyn llwybrau Ellis Williams ar gefn motor-beic er mwyn ceisio dod i adnabod awdur rhyfeddol y llythrau yn well, a phortreadir Ellis gan yr actor a'r canwr, Dyfrig Evans.

Mae'r ffilm hefyd wedi ailuno Alun Huws ac Emyr Huws Jones, sy'n cydweithio am y tro cyntaf ers 35 mlynedd ers dyddiau'r grŵp, Tebot Piws. Nhw sy'n gyfrifol am sript y ffilm a hefyd am gyfansoddi'r gerddoriaeth wreiddiol, yn ogystal â chwe chân newydd a berfformir gan Heather Jones, Gwyneth Glyn, Gai Toms, Gwilym Morus, Sioned Mair a brodor arall o Benisarwaun, Ynyr Roberts. Roedd Ynyr, sy'n un hanner o'r grŵp 'Brigyn' gyda'i frawd Eirug, yn falch iawn o gael bod yn rhan o'r prosiect:

'Mae'n fraint cael canu cân er cof am rywun o Benisarwaun, yn enwedig a finnau wedi fy magu dafliaid carreg o'r Gors, lle y bu Ellis yn byw, a hefyd yn gymydog i'w nai, John Ellis Williams, sy'n byw i lawr y lôn. Ro'n i'n ymwybodol o stori Ellis pan yn blentyn ac mae hi'n stori anhygoel a dwi'n falch iawn ei bod yn cael ei rhannu efo cynulleidfa ehangach drwy gyfrwng y ffilm yma,' meddai Ynyr.

Bydd Ynyr a'r artistiaid eraill i'w gweld yn rhan weladwy o'r ffilm ac yn canu ar gyfnodau tyngedfennol ym mywyd Ellis, gyda thirluniau dramatig Patagonia ac Awstralia yn gefnlen iddynt.

Mae'r gerddoriaeth, sy'n gyfuniad o'r offerynnol a chaneuon, er mwyn adlewyrchu naws hanes Ellis, ar gael i'w brynu ar CD - *Llythrau Ellis Williams* ac yn anrheg Nadolig delfrydol!

Ond dyma gyfle i ddarllenwyd lwcus o *Eco'r Wyddfa* ennill copi am ddim, a roddir drwy garedigrwydd Recordia Bos, label recordio Siân James a'i gŵr, Gwyn, sydd wedi



cynhyrchu'r CD. Y cyfan sy'n rhaid ei wneud yw ateb y cwestiwn syml yma:

Beth yw enw'r fferm y magwyd Ellis ynddi?

Anfonwch eich atebion at: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon, Nant Peris LL55 4UG.



Ynyr Roberts.




3 Rhagfyr 2006 11am - 4pm

- * Sion Côrn yn cyrraedd ar drên am 11am!
- * Postiwch eich llythyr at Siôn Corn!
- * Gweithdai crefftau i blant
- * Sioe hud
- * Seindorf Arian Deiniolen

MYNEDIAD AM DDIM ond cost ychwanegol i weld Siôn Corn a chrefftau

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis
Ffôn: (01286) 870630

www.amgueddfalechi.cymru



Alun Huws ac Emyr Huws Jones.

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

Bistro
LLANBERIS
Ffôn: 871278

www.ybistro.co.uk

PERCHNOGION : DANNY A NERYS ROBERTS

*Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i holl ddarllenwyr
yr Eco*

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

WILLIAM SELWYN :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Siop Bysgod a Sglodion

Seafresh

56 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: 872686



Mae Siân a'r criw yn diolch i'n holl gwsmeriaid, hen a newydd, am eu cefnogaeth ers cymryd drosodd y busnes yn gynharach yn y flwyddyn.

*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd*

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth



E. W. Pritchard
62 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Am anrhegion y Nadolig dowch i
Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG



41A Stryd Fawr
Llanberis 872501

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i
chwi oll oddi wrth

Ifor a Margaret

Diolch am eich cefnogaeth
trwy gydol y flwyddyn



NWYDDAU GROSER
LLYSIAU • FFRWYTHAU • BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis



Ffôn: 870840



*Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth Jill a Peter*

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

NADOLIG 2006

Dymuna Dilys Baylis Nadolig Lawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS
Cynhelir pnawn difyr yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen dydd Sul, 10 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch. Bydd y mynediad am ddim ond fe wneir casgliad at Gronfa yr Ambiwllans Awyr. Dowch yn llu i fwynhau. Cewch baned a mins pei ar y diwedd.

CYMDEITHAS YR EGLWYS.

Cynhaliwyd y cyfarfod ar nos Iau, 3ydd a chymerwyd y rhan dechreuol gan Anne a hi a gyflwynodd y noson i ofal Ralph a Gwynfor oedd wedi paratoi cwis gwybodaeth cyffredinol ar ein cyfer. Rhannwyd yr aelodau yn ddau dîm a thîm B a enillodd.

Diolchwyd i'r ddau ac i Audrey a Buddug am y baned a'r raffl gan Dilys. Cydymdeimlwyd â theulu y diweddar Betty Arfon Owen yn eu profedigaeth ac anfonwyd cyfarchion at Olwena a Hilda Wyn oedd yn St. Tysilio. Y mis nesaf bydd Cinio Nadolig yng Ngwesty'r Dol Peris.

CYMDEITHAS LENYDDOL

UNDEBOL. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar nos Fawrth, 7 Tachwedd yn festri Capel Coch. Cafwyd noson ddifyr a hwyliog yng nghwmni Mr Gwilym Lewis, Bae Trearddur, sef 'Sgwrs a Chân'. Soniodd am ei fagwraeth yng Nghaerdybi a'i yrfa fel athro Cerdd ac yna am ei newid cyfeiriad a mynd i ganu'r piano ar longau pleser a'r troeon trwstan a ddaeth i'w ran yn ystod y cyfnod hwn. Cafwyd datganiad ganddo ar y piano a chydganodd y gynulleidfa emyn i ddechrau ac i ddiwedu'r noson.

Llywyddwyd gan Mr Gareth Jones a rhoddwyd y diolchiadau gan Miss Dilys Mai Roberts. Cyflwynwyd blodau i Mr Lewis i fynd i'w chwaer, Miss Olwen Lewis, sydd bellach yn trigo mewn cartref preswyl ym Mangor.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 5 Rhagfyr, yn y festri am 7 o'r gloch. Cawn Wasanaeth Nadolig 'Tua Bethlehem Dref' yn cael ei drefnu gan y Parchedig John Pritchard. Mae hon yn noson agored i bawb. Dowch i ganu carolau a

dathlu genedigaeth Iesu Grist. Cewch baned a mins pei a bydd casgliad ar y noson a gaiff ei roi at achos da.

DYMUNA Moreen Lennon, Plas Tirion, ddatgan ei gwerthfawrogiad i bawb a fu mor garedig tuag ati ar ôl y ddamwain a gafodd ym mis Medi. **PARRY (ERIC) DANRIC.** Dymuna Brenda, Stephen, Lyn a theulu y diweddar Eric Parry, Plas Eilian, Llanberis, ddiolch i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid arbennig. Diolch am y llu cardiau, ymweliadau a galwadau ffôn a'r rhoddion hawl tuag at Tŷ Gobaith.

Diolch i'r Parchedig Robert Townsend, Eglwys Sant Padarn, Llanberis a Mr Gwynfor Jones, E.W. Pritchard, Llanberis, am eu gwasanaeth proffesiynol a thrylwyr. **DYMUNA** Twm John Roberts, 83 Maes Padarn, ddiolch i'r plant, teulu, ffrindiau a chyfeillion am y llu cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 80. Hefyd diolch



Elin Tomos, Cadeirydd y Cyngor Ysgol, yn cyflwyno blodau i Mrs Helen Sharp.

o galon i Sioned am y wled.

YSGOL DOLBADARN.

Ystafell Gyfrifiadurol. Dydd Llun 23 Hydref, fe agorwyd yr Ystafell Gyfrifiadurol newydd gan Mrs Helen Sharp, Cadeirydd y Cyngor Cymuned ac un o lywodraethwyr yr ysgol. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r mudiadau a noddodd yr ystafell i'r achlysur a chynrychiolwyd y disgyblion gan y Cyngor Ysgol.

Rydym yn hynod o ddiolchgar i bawb am eu haelioni a braf yw nodi ein bod wedi gallu talu am bob dim erbyn hyn. Mae'r adnodd newydd yn un sy'n mynd i hwyluso cyflwyno

technoleg gwybodaeth yn yr ysgol yn fawr.

Noddwyr

Cyngor Cymuned Llanberis; Pwyllgor Canolfan Gymunedol Llanberis; Cymdeithas Rhieni a Chyfeillion Ysgol Dolbadarn; Cronfa Gwella Gwynedd; Côr Merched Lleisiau Lliwedd; Pwyllgor Ffair Nantperis; Pwyllgor Carnifal Nantperis; Teulu Ty'n Llan, Nantperis; Casglaid Staff Euro DPC.

Derbyniwyd rhoddion hefyd gan fusnesau lleol at y gweithgareddau codi arian.



Plant y Dosbarth Meithrin eleni sydd wedi hen setlo yn yr ysgol erbyn hyn.



DIOLCHGARWCH. Yn dilyn y Gwasanaeth Diolchgarwch aeth Sioned a Robat, y ddau ddisgybl hynaf, â ffrwythau i Gartrefi Plas Pengwaith a Phlas Garnedd. Anfonwyd sic am £50 i'r RSPCA a £50 i ymchwil canser plant, sef arian y casglaid, yn unol â phenderfyniad y Cyngor Ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn casglu hen ffonau symudol a chetris inc gwag at waith ymchwil Cymdeithas Macmillan.




KERBCRAFT. Bob p'nawn Gwener mae nifer o rieni a chyfeillion, dan arweiniad Swyddogion Diogelwch y Ffyrdd, yn mynd â disgyblion Blwyddyn 1 i lawr i'r Stryd Fawr i gael gwersi diogelwch y ffordd dan y Cynllun Kerbcraft. Diolch i'r rhieni a chyfeillion sy'n cynorthwyo efo hyn.

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walïau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop




HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb
yn Rheilffordd yr Wyddfa



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Dylan**
Stryd Fawr Llanberis
Ffôn: 870777

- Galwch i mewn am anrhegion Nadolig chwaethus ac anghyffredin yn cynnwys Crefftau Cymreig a lluniau lleol.
- Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

- Papurau Newydd
- Bwyd a Diod
- 'Off Licence'
- Roliau a brechdanau poeth *Bake'n Bite*
- DVD's a Fideo
- Ar agor Llun – Sadwrn
6.30am – 10pm
Sul 7am – 10pm

Stryd Fawr Llanberis
(01286) 870434

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
berchnogion a phawb yn Siop*

Costcutter

LLANBERIS

Edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu drwy gydol 2007

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Noson cyn y Nadolig
Noson ola'r flwyddyn } Gwasanaeth Sul arferol

Manylion llawn ein hamserlenni ar gael ar ein gwefan:

www.kmpbus.com

Dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan – Dim bysus

Dydd Calan, 1 Ionawr 2006 – Dim bysus

K.M.P.
(LLANBERIS) LTD

Y GLYN, LLANBERIS, GWYNEDD LL55 4HN

01286 870880

www.kmpbus.com



Ar Ben Arall y Lein

Adroddiad Blynyddol

Fel arfer pleser yw dechrau'r adroddiad blynyddol gyda gweithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, ond cleni wrth ddechrau ysgrifennu'r adroddiad yma ar ddiwedd wythnos gyntaf Mis Hydref, rwyf rhywsut yn ceisio gohirio ei osod ar bapur gan obeithio efallai y daw hanes bod pysgod o'r diwedd wedi rhedeg i'r afonydd. Rhyw dymor digon rhwystredig fu hwn hyd yma i'r aelodau sydd yn mwynhau pysgota am y pysgod mudol.

Ar ddiwrnod cyntaf y tymor roedd mantell wen dros ein hardal; oer ac araf oedd hi wrth chwilio am frithyll ar y cychwyn - ar yr afonydd a'r llynnoedd. Fel y cofiwch, cynhesu wnaeth y tywydd ac yn ystod y gwanwyn cafwyd pysgota gwell ar y llynnoedd; braidd yn araf ar Padarn ond bu dipyn o ddal ar Lyn Cwellyn a Nantlle.

Yn dilyn canmoliaeth i'r polisi stocio newydd i Lyn Dywarchen y llynedd, eleni fe gawsom y cyfyngiad ar ddaliad dyddiol i aelodau. Doedd hwn ddim yn plesio pawb, sydd efallai yn ddealladwy, ac eto ceir yr argraff bod pobl wedi cael siâr deg o'r pysgod yn ystod yr haf. Roedd llwyddiant wedi dod i aelodau yn rheolaidd ac hefyd i ymwelwyr, llawer ohonynt yn prynu tocyn o'r Cwellyn Arms, Rhyd Ddu.

Wedi'r gwanwyn per, ymestyn wnaeth hirddydd haf a chafwyd tri mis crasboeth heb gwmwl na glaw. Mae llawer o'r aelodau yn amau mai'r sychdwr mawr yma a ddrysodd y tymor o'r haf ymlaen. Roedd y tymor i'r pysgotwyr torgoch ar Lyn Padarn yn siomedig iawn. Ar yr Afon Llyfni bu dŵr isel am wythnosau ac ychydig o bysgod oedd i'w gweld cyn ddiwedd Awst. Fe ddaliwyd pysgod yn y nos ond llai ohonynt a llai eu maint nac arfer, er bod ambell eithriad wedi codi calon pysgotwyr oedd wedi dyfalbarhau.

Ychydig iawn oedd i'w glywed yn digwydd ar lannau'r Afon Gwyrfa, hyd yn oed pan gafwyd dŵr. Ond yn ei flaen aeth y tywydd sych yn ddi-baid - hynny yw nes i rai o'r aelodau fynd i gryn drafferth i drefnu diwrnod hyfforddi agored - ond am yr awr gyntaf i ferched yn unig ar Lyn Dywarchen. Yn anffodus roedd yn rhaid rhoi'r gorau i'r gweithgareddau yn fuan ar ôl dechrau oherwydd bod y tywydd wedi troi mor stormus a gwlyb fel nad oedd posib cario 'mlaen! Rydym yn ddiolchgar iawn i'r aelodau a fu'n paratoi at y diwrnod ac a ymdrechodd ar y dydd.

Ar yr Afon Seiont ni chafwyd dŵr gwerth sôn amdano cyn dechrau Medi, ac ychydig iawn gododd yr afon wedi'r glaw cyntaf. Daeth pysgod i mewn o'r môr ond yma ac acw braidd oedd y llwyddiant i'r genweirwyr. Mae

dŵr gwell ers ychydig ddyddiau wrth i mi ysgrifennu, ac eogiaid wedi eu dal. Gobeithiaf y daw dipyn mwy i'r lan yn yr amser sydd ar ôl.

Mae problemau wedi bod ar wahân i safon y pysgota a'r tywydd. Wedi niferoedd gwell o aelodau y llynedd yn dilyn tymor llwyddiannus, rhywfaint yn llai oedd nifer yr aelodau eleni. Tâl aelodaeth yw ein prif incwm. Mae rhai wedi gwneud sylwadau bod ambell bysgotwr, yn arbennig ar lannau'r Seiont, nad ydynt yn aelodau - cofiwch bod gan pob aelod yr hawl i ofyn am gael gweld tocyn aelodaeth gan bysgotwr arall. Drwy wneud hyn ar bob cyfle, bydd hi'n anos i rai 'sgota am ddim tra eich bod chi yn talu.

Mae perygl hefyd y bydd rhenti yn codi ar rai o'r dyfroedd sydd ar les at y tymor sydd i ddod.

Ac eto mae yna rhyw deimlad bach o obaith at y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn daeth gwaharddiad ar werthiant *cypermerthrim* - y dip defaid sydd wedi gwneud cymaint o niwed anweledig i ddyfroedd ucheldir Cymru. Dylai hyn roi bywyd newydd i'r ardaloedd sydd yn cynnal ein brithyll naturiol yn y llynnoedd a'r afonydd, heb sôn am y manteision i'r eog a'r sewin. A rhwydi Iwerddon! Fe gofiwch i'r Gymdeithas groesawu cynrychiolwyr yr ymgyrch *Stop Salmon Drift Nets Now* i Lanrug yn ystod 2005. Bellach mae Iwerddon wedi rhoi'r gorau i'r rhwydo dinistriol yma ers diwedd Gorffennaf 2006 ac ni fydd rhwydo o hyn ymlaen. Gobeithiwn y bydd hyn yn arwain at well niferoedd o eog, yn arbennig yn ystod yr haf yn hytrach na'r hydref.

Mae llawer o waith wedi ei wneud dros y blynyddoedd diweddar i wella cynefinoedd ar y nentydd lle mae'r pysgod yn magu, bu gwaith pellach ar y Llyfni yn ystod y flwyddyn. Mae'r awdurdodau yn ffyddiog mai dyma'r ffordd i atgyfnerthu stoc yr afonydd, ac yn sicr mae'r datblygiadau a nodwyd uchod yn gamau positif. Ond eto siaradwch efo unrhyw griw o 'sgotwyr, neu darllenwch y wasg bysgota genwair, ac mae hi'n hawdd gweld fod pysgotwyr hefyd yn coelio y dylid stocio i wneud y gorau o'r datblygiadau - ond bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn daer yn erbyn stocio, er gwaethaf y dystiolaeth y gynigir gan wŷr profiadol oedd wedi delio â'r Afon Tyne yn ne-ddwyrain Lloegr dros y degawdau diwethaf.

Rydym ni yn ffodus fod yr Asiantaeth, yn dilyn dyfalbarhad yr ysgrifennydd, wedi aildechrau ar y rhaglen stocio oedd yn fod i leihau effaith gwaith Dinorwic ar yr afon Seiont. Mae'r stocio yma gyda 'fry' yn mynd yn ei flaen, ond wedi trafodaeth mae'r Asiantaeth hefyd wedi cytuno i ni gael 3,000

o bysgod i'w magu yn y ddeorfa yng Nghrawia er mwyn cynnal cynllun rhyddhau gleisiaid (smolts). Maent wedi cyrraedd a gobeithiwn y byddant yn rhedeg i'r môr yng ngwanwyn 2007.

Mae rhyddhau gleisiaid yn arwain at well niferoedd o bysgod aeddfed yn mudo 'nôl i'w hafonydd. Fe fu rhaglen debyg cyn tymor 2000 pan ddaliwyd dipyn mwy o eog ar y Seiont. Ond mae hi'n gêm ddrud. Yr unig reswm y medrwn ni fel clwb fforddio rhoi cynnig arni yw ein bod yn ei dderbyn fel rhan o'r stocio Dinorwic a ddisgrifiwyd uchod. Mae rhywfaint o gostau i ni, ond mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon buddsoddi yn y cynllun. Ymddengys mai dyma'r amser i wneud. Yn ddiamau yr un peth sydd yn mynd i gynnal ein clwb, cadw aelodau a denu aelodau newydd ac ymwelwyr yw rhediadau da o bysgod i'r afonydd. Mae pob pysgotwr yn optimist naturiol - mae'n rhan o'n gwneuthuriad ni - dyna pam mae'r ysfa mor gryf i fynd at yr

afon wedi lli; dyna sydd yn gwneud i ni gael un tafliad arall eto cyn rhoi'r gorau iddi. Er ein bod ar ddiwedd tymor ychydig yn siomedig, teimlaf yn obeithiol iawn y byddwn yn mwynhau gwell hwyl yn y tymhorau sydd i ddod.

Diolchaf ar eich rhan i bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Mae angen diolch yn arbennig i Ron Miers am ei waith mawr yn creu'r wefan ychwanegol (<http://www.sgll.co.uk/>)

Hoffwn ddiolch hefyd ar ddiwedd y flwyddyn yn arbennig i'r Ysgrifenydd am ei waith yn 2006. Diolchaf hefyd i'r Trysorydd, y cyfarwyddwyr a holl aelodau'r pwyllgor am eu gwaith.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a phob hwyl gyda'r enwair yn 2007.

DR. ROBIN PARRY
CADEIRYDD

Cwpwrdd Hanesyddol yn dychwelyd i'w gynefin



Ar ddiwedd Awst eleni cyrhaeddodd cwpwrdd gwerthfawr yn llawn o adar ac anifeiliaid wedi eu stwffio yn ôl i'w gynefin - i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Rhodd gan Mrs Carys Wyn Evans, Eifionydd, Llandysul, Ceredigion, yw'r cwpwrdd, er cof am ei rhieni, Mr a Mrs Wyn Thomas, Cyrchfan, Abererch, Pwllheli.

Ar ôl marwolaeth ei mam ym Mehefin 2005 dechreuodd y cwpwrdd ar ei daith i Landysul, yna i Amgueddfa Werin Sain Ffagan i gael ei gofrestru a'i archwilio. Bu yno am fisoedd maith cyn cychwyn eto yn ôl i Lanberis yn ddiogel. Mae'r cwpwrdd i'w weld ym mharlwr

tŷ'r peiriannydd ac mae'n werth ei weld.

Prynwyd y cwpwrdd arbennig yma gan dad Mrs Thomas, oedd yn chwarelwr - roedd wedi bod yn y teulu ers blynyddoedd maith. Roedd teulu Mrs Mattie Thomas yn byw yn Hafod Ruffydd, Rhosgadfan.

Teithiodd teulu Mrs Evans i weld y cwpwrdd ddiwedd Awst ac roeddynt yn falch eu bod wedi gallu cadw at ddymuniad Mrs Thomas ei fod i ddod 'nôl i ardal y chwareli os yn bosibl. Hoffai Mrs Evans ddiolch i staff y ddwy amgueddfa am eu help yn ystod y flwyddyn. Mae'r cwpwrdd yn awr yn ddiogel a chyfle i bawb gael ei fwynhau am flynyddoedd i ddod.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Siop**

SPAR 



LLANBERIS
Ffôn: 871050

Dewch atom am ddewis rhagorol o fwyd,
diod a nwyddau eraill ar gyfer y Nadolig,
am brisiau cystadleuol iawn.
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

GwalltGo

Stryd Goodman, Llanberis
(Tu ôl i'r Bistro)



Siop trin gwallt
Merched, Dynion
a Phlant

Cysylltwch â Dilys neu Ffion
01286 872414

Oriau agor:

Mawrth - Iau: 9am - 5.30pm

Gwener: 9am - 7.30pm

Sadwrn: 9am - 4pm

**CELF Y
COPÄON**
MOUNTAIN ART

STRYD FAWR
LLANBERIS 870925

Safle Gwe:

www.mountainart.co.uk

e-bost:

ginger@mountainart.co.uk

★ Am luniau mynyddoedd

★ Peintiadau

★ Printiadau



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i Bawb



**CYFARCHION
Y TYMOR**



i bawb yn yr ardal
oddi wrth


**TRÊN BACH
LLYN LLANBERIS**

Bydd Siôn Corn yn ymweld â
ni ar Ragfyr 9, 10, 16 ac 17

Ffôn: **01286 870549**
am fanylion



CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU



oddi wrth

Dylan Davies

**MODURDY'R
WYDDFA**

LLANBERIS Ffôn: 870225



Ceir ar werth; M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth bawb yn

**SIOP a FFERM FÊL
YR WYDDFA**


STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: **870218**



Mêl

Diolch am eich
cefnogaeth drwy'r
flwyddyn



**GWIN
a
MEDD**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth bawb yn y gwesty.
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.

- ★ Priodasau ★ Dathliadau
- ★ Achlysuron Arbennig
- ★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
- ★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul



**ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS**

Ffôn: **870253**

(Quality Hotel Snowdonia)



wrth droed yr Wyddfa

CYNGOR CUMUNED LLANDDEINIOLEN

Mudiadau gwirfoddol. Ystyrir ceisiadau am gymorth ariannol yng nghyfarfod y 5ed o Ragfyr.

Cyfarfu'r Cyngor ar y 7ed o Dachwedd.

Gwedd. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Ll Jones.

Materion o'r cofnodion

Atebion Cyngor Gwynedd:

Lloches Bws, Rhiwlas: Gan nad yw'r sawle o fewn yr hyn a elwir yn 'lwybr bws strategol' nid oes grant ar gyfer lloches. Ceisir perswadio'r Cynulliad i newid y rheolau, cedwir y cais ar ffeil gan obeithio am reolau newydd.

Hen Sied Rheilffordd, Stabla: mae'r Adran Gynllunio a Cadw yn ystyried cywiro'r difrod.

Arwydd pentref Penisa'rwaun gosodir arwydd newydd ger Rhos Fair ac mae'r Rheolwr Gofal Stryd yn ystyried y cais am arwyddion rheoli traffig.

Porth y Gogledd, Deiniolen: Gosodir enw stryd 'Porth y Gogledd' yno yn lle 'Ffordd y Gogledd'.

Cofeb Huw Lloyd Edwards: mae Siop Gron wedi ei gwerthu ond nid yw'r trefniadau wedi eu cwblhau.

Mainc mileniwm Clwt y Bont: Gobeithir cael safle newydd i'r fainc o ganlyniad i'r fandaliaeth yn y Cae Chwarae.

Gohebiaethau a materion eraill

Partneriaeth Economaidd

Gwynedd: penderfynwyd derbyn y gwahoddiad i gofrestru'r Cyngor fel aelod.

Dywedodd Phyllis Ellis bod cysgodfan bws Penisa'rwaun wedi ei fandaleiddio eto, penderfynwyd dweud wrth yr Heddlu.

Dywedwyd bod angen rhybuddion a biniau baw cŵn yn Rhydfadog, Deiniolen.

Gerlan, Clwt y Bont: dywedodd Gwilym Williams bod lle i flwch halen yno bellach, buasai o fantais i lawer o'r trigolion.

Cyfeiriodd Phylip Jones at dri mater:

Ochr yr Eglwys o Rhydfadog, Deiniolen: prifets yn tyfu i'r ffordd o dir Gwynedd yn amharu ar olygfa gyrrwyr.

Lôn Pen Bont, Deiniolen: Twll mawr yn ffos ochr y ffordd ychydig yn is na'r gwaith dŵr.

Lôn Cefn y Waun, Deiniolen: Ffos allan o Glwt Bêl wedi ei pheipio ond i'r ffordd yn lle i'r llwngc.

Penderfynwyd hysbysu Gwynedd o'r uchod.

Dywedodd Huw P. Hughes bod angen golau cyhoeddus yn Stâd Cremlyn, Bethel - gofyn i Wynedd am bris.

Ysgol Bethel. Dywedodd Merfyn Morris bod yr ysgol wedi llwyddo i gael adroddiad arbennig o dda a chanmoliaeth fawr gan yr arolygwyr. Penderfynwyd danfon llythyr i longyfarch y Brifathrawes, yr

athrawon, y staff a'r llywodraethwyr.

Cofgolofn Deiniolen.

Dywedodd Len Jones bod Jacki Parry wedi glanhau a pharatoi'r gofeb a'r lleoliad ar gyfer Sul y Cofio. Penderfynwyd danfon llythyr o ddiolch iddo.

Awdurdod yr Heddlu: cyhoeddwyd eu cyfarfod yn Siambr Dafydd Orwig ar y 27ain o Dachwedd. Cymerodd Len Jones y manylion.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gyngor Cymuned Bontnewydd yn gwahodd cynrychiolwyr i bwyllgor ar y cyd o Gynghorau a all gael eu heffeithio gan Ffordd Osgoi Bontnewydd/ Caernarfon. Gwirfoddolodd Huw P. Hughes a Richard Llwyd Jones.

Cynllunio

Soniwyd am ddau gais diweddar lle bu ansicrwydd ynglŷn â ffin y Cyngor. Penderfynwyd gofyn i Wynedd am fap i amlygu'r ffin â Chyngor Llanrug ac hefyd o gwmpas Nant y Garth.

Coed Bolyn Mawr. Darllenwyd llythyr hirfaith ac afresymol Adran Cynllunio Gwynedd yn ceisio cyfiawnhau'r saethu sy'n parhau yno. Pwynt terfynol y llythyr oedd na all yr Adran fonitro'r sŵn a'i bod yn ddibynnol ar y cyhoedd i'w hysbysu ac na fu cwyn yn ddiweddar.

Trafodwyd y sefyllfa yn drylwyr gan ddatgan siom nad yw Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel y dylent i warchod y cyhoedd yn yr achos yma a bod agwedd y llythyr yn sarhad ar ddeallusrwydd y Cyngor. Mae Huw P. Hughes yn anfon adroddiadau parhaol o ddyddiadau'r saethu i'r Adran Gynllunio, ffaith sy'n tansilio'u sylwadau ar fonitro. Defnyddir y safle i saethu bob nos Iau a nos Fawrth ac weithiau ar ddydd Sadwrn.

Penderfynwyd dyfynnu'r uchod fel ateb, gan ddanfon copi i'r Prif Weithredwr ac i Gadeirydd y Cyngor, Y Cynghorydd Michael Sol Owen.

Cyflwynodd Hefin Williams syniad i wneud defnydd o dir wast trwy gynorthwyo trigolion i gael caniatâd cynllunio am leoedd parcio mewn gardd ffrynt neu yng nghefn tŷ. Ni dderbyniwyd y syniad.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Newid defnydd adeilad amaethyddol i ddefnydd storio: Fferm Garth Fawr, Y Felinheli. Codi tŷ fforddiadwy: Rhiw Goch Cottage, Clwt y Bont. (Ni dderbyniwyd y cais yma i'w ystyried - sicrhau copi i Gwilym Williams.)

Lledu mynediad i gae: Lôn Las, Llanrug.

Addasu adeilad i ddau uned wyliau: Tan yr Wylfa, Llanddeiniolen.

Estyniad: Garnedd Wen, Fachwen.

Dosbarth symudol: Ysgol Bethel. Gwneud llyn: Coed Bolyn Mawr, Bethel.

Dymchwel sied a chodi un newydd: Blaen Cae Uchaf, Deiniolen.

Estyniad a newidiadau: 11 Hafod Olau, Deiniolen.

Tŷ unllawr - Tŷ'n y Weirglodd, Rhiwlas.

Swyddfa newydd: Coed Bolyn Mawr, Bethel.

Estyniad: Creigle, Dinorwig.

Newid yn ôl i ddau dŷ: 2, Tros y Gamfa, Yr Aelwyd, (1 Tŷ'n 'Rardd), Rhiwlas.

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Estyniad, sied, boilerdy a thanc olew: Bwlch Bach, Deiniolen.

Newid adeilad i dŷ: Fferm Tyddyn Badin, Pentir.

Llwybrau

Llwybr Gors Goch. Dywedodd Phyllis Ellis nad yw Gwynedd

wedi cyflawni eu haddewid i wella'r llwybr yma.

Llwybr Cae Meta. Mae'r clo yn dal ar y giât.

Llwybrau Rhiwlas. Cyfeiriodd Hefin Williams at yr holl adroddiadau a ddanfonwyd i Wynedd ers cryn amser a dim wedi ci wncud.

Penderfynwyd atgoffa Gwynedd o'r uchod Awgrymodd Len Jones bod y Cyngor yn ffurfio strwythur atgyweirio llwybrau.

Penderfynwyd neilltuo cyfarfod, yn ystod y gaeaf, i ganolbwyntio ar lwybrau - y Clerc i sicrhau mapiau o'r gymuned gyfan.

Gofynnwyd pwy piau'r llwybrau mewn caeau, y Clerc i atgoffa Gwynedd na atebwyd y cwestiwn yma a ofynnwyd iddynt rhyw dri mis yn ôl.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 8ed o Rhagfyr.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynlluniau Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

AGE
Concern

Age Concern Gwynedd a Môn
Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Mae Age Concern Enterprises Ltd wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethu Ariannol (FSA) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gweithredu o tua 300 o Age Concern lleoliadau ledled y DU



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch

â **Gomer Roberts**

Ffôn: **01286 870462**

Symudol: **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y**

**PRINCE
OF WALES
LLANBERIS
870708**



Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth



SIOP OFFER CANWIO
A CHYRSIAU ANTUR.



Lagŵn y Glyn
Llanberis

Ffôn: 879001
www.surf-lines.co.uk
eich antur chi ydyw...



Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

YSGOL BONTNEWYDD

FFANFFER NADOLIG BRYN TERFEL

DAFYDD IWAN
SIÂN GIBSON
SIÂN EIRIAN
HOGIA'R WYDDFA
PARTI TEGEIRIAN
ANNETTE BRYN PARRI
CÔR YR YSGOL

Nos Sul, Rhagfyr 17, am 7 y.h.
Sunday, December 17 at 7 p.m.

NEUADD PRITCHARD JONES, BANGOR

PRIS - £30.00

TOCYNNAU AR WERTH YN
SIOP NA' NOG, CAERNARFON

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

CARPEDI GLÂN ERYRI

- PELLTER DDIM
YN BROBLEM



- DIM UN DASG YN RHY FACH

CWMNI LLEOL

ffôn

07917116615

ebost- carpediglaneryri@hotmail.com

AMCAN BRIS AM DDIM

Y BWTHYN TÊ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



*Nadolig Llawen
i bawb*

PEN Y CEUNANT ISAF -
BWTHYN A ADELADWYD AR WAELODION
LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 1886. GANRIF CEWCH GROESO
ARBENNIG YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFYDD
GWYCH DROS LLYN PADARN A
DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am. - 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYD
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

Alan George a Rachel Gregory

Hufen lâ

Georgio's

49 Stryd Fawr
LLANBERIS

871211 neu 01248 354488

Y Nadolig hwn, beth am archebu
Hufen lâ Pwdin 'Dolig fel rhan o wledd yr Wyl
i'w gasglu unrhyw benwythnos cyn y Nadolig

Casglu: 17 - 24 Rhagfyr



CHWILOTA

Teulu Began Ifan



Mae'n syndod faint o lysenwau sy'n bodoli yn ardaloedd y chwareli ac ym mhentrefi a threfi Arfon ac Eifionydd; nid yn unig ar unigolion, ond ar drigolion ardaloedd. Dyna'r 'Howgets' ym Methesda, y Cofis yng Nghaernarfon, yr 'Ismeiliaid' ar Fynydd Llanllyfni (a roes eu henw i grŵp Bryn Fôn: Sobin a'r Smeiliaid) a'r 'Deunaw Mil' (deunaw mul yn ôl rhai!) yn ardal Garndolbenmaen. Y Began Ifs neu deulu Began Ifan yw'r unig lysenw yn ardal yr *Eco*, a hynny ar drigolion y Waunfawr.

Does wybod beth yw gwreiddiau rhai o'r llysenwau hyn. Gwn fod teulu â'r cyfenw 'Ishmael' wedi bod yn byw yn ardal Nebo a Nasareth, a chredais fod yr enw Began Ifan yn rhy hen i'w olrhain yn hanes y Waunfawr. Ond nid felly...

Aeth Robert J. Williams o'r Waunfawr ati i geisio darganfod pwy oedd Began Ifan ar ôl gwrandio ar dâp o John Austin Jones yn adrodd ei atgofion. Mae'r tâp ar gadw yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan, a chefais innau'r cyfle i wrando arno yn ystod y mis diwethaf.

Roedd John Austin Jones yn daid i wraig R. J. Williams. Ar y tâp mae'n sôn am Wil Began Ifan, cymeriad nad oedd gyda'r parchusaf ym mhentref y Waunfawr! Roedd yn botsiwr heb ei ail, ac yn aml i'w weld ar lannau afon Gwyrfaï yn chwilio am eog. Yr oedd Wil Began Ifan yn fyw ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, ac felly, roedd hynny yn awgrymu fod ei fam, sef y Began Ifan wreiddiol, yn fyw yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gyda'r wybodaeth hon, aeth R. J. Williams ati i chwilio trwy gofnodion cyfrifiadau i geisio darganfod pwy oedd Began Ifan.

Enw cywir Wil Began Ifan oedd William Pritchard/Prichard, ac ym mhob cyfrifiad mae'n nodi ei blwyf genedigol fel Beddgelert. Yn 1901 roedd yn ŵr gwedd, deg a thrigain oed, yn byw yn Wyrwys Caernarfon. Mae ychydig o gofnodion y wyrwys ar gael yn yr Archifdy yng Nghaernarfon, ond yn anffodus, does dim gwybodaeth ynglŷn â phryd y derbyniwyd Wil Began Ifan i'r wyrwys, na 'chwaith a fu farw yno.

Mae'n amlwg hefyd nad oedd yr hen Wil yn rhy sicr o'i oedran, oherwydd mae'r oeddrannau a roir ar y gwahanol gyfrifiadau yn awgrymu iddo gael ei eni rywbryd rhwng 1831 ac 1836, ond ym mhob un, mae'n eithaf sicr mai ym Meddgelert y cafodd ei eni.

Mae Began Ifan a'i mab, Wil, yn ymddangos gyntaf yng nghyfrifiad 1841. Bryd hynny, roedd Margaret Evan a'i phlant,

Jane a William, yn byw yng Nglan y Gors, Beddgelert. Mae'r fam yn 35 oed ac yn disgrifio'i hun fel tlotyn (*pauper*). Nid yw'n briod, ac mae'n ymddangos na fu'n briod erioed 'chwaith.

Erbyn 1851, mae'r teulu wedi symud i fyw o Feddgelert i'r Waunfawr. Mac Jane, sydd bellach yn 23 oed, wedi aros ym Meddgelert, neu wedi priodi, oherwydd dim ond Wil a'i fam sy'n ymddangos yn y Kingshead, Waunfawr.

Mae cyfrifiad 1851 (yn wahanol i gyfrifiad 1841) yn rhoi plwyf genedigol y bobl sy'n cael eu cofnodi, a gallwn weld mai o Lanllyfni y deuai Began Ifan yn wreiddiol. Mae'n byw'n y Kingshead am o leiaf ugain mlynedd, oherwydd yn 1871 mae'n disgrifio'i hun fel 'formerly a charwoman'. Mae bellach yn 75 mlwydd oed. Erbyn hyn, hefyd, mae Wil wedi priodi ac yn byw yn Nhy'n Llidiard, Waunfawr, gyda'i wraig Ann (genedigol o Fetws Garmon), a'i blant, Hannah (3 oed) a William (1 oed). Labrwr mewn chwarel lechi yw gwaith Wil Began Ifan erbyn hyn, ond does dim sicrwydd ym mha chwarel y gweithiai.

Erbyn 1881 mae Wil a'i deulu wedi symud i Cil y Llidiart, Waunfawr, ac wedi cefnu ar y chwarel, gan mai fel llafurwr amaethyddol y mae'n disgrifio'i hun. Does dim sôn 'chwaith am Hannah, a fyddai'n 13 oed, ac efallai'n ddigon hen i fod yn gweini yn un o ffermydd y cylch. Mae William, y mab, yn parhau gartref.

Mae'n amlwg fod amgylchiadau byw'rhen Wil wedi gwaethgu, oherwydd erbyn 1891 mae wedi mudo am dde Cymru, ac fe'i ceir yn sir Forgannwg, yn byw gyda'i gefnder a'i deulu yn rhif 26a High Street, Gelligaer. Pearce Williams oedd y penteulu, ynghyd â'i wraig, Mary, a'i fab, John Owen Williams. Roedd Pearce, John Owen a Wil Began Ifan yn gweithio mewn pwll glo. Roedd gwraig Wil, gartref ym Mryn Pistyll, Waunfawr. Rywbryd rhwng 1891 ac 1901 bu farw ei wraig a dychwelodd yntau o'r de, a bu'n rhaid iddo

fynd ar y plwy', gan ddiweddu yn Wyrwys Caernarfon.

Dyna'r ffeithiau moel a ddatgelir o astudio cofnodion y gwahanol gyfrifiadau, ond erys llawer o gwestiynnau heb eu hateb.

Euthum ati i archwilio cofrestrau plwyf Beddgelert gan geisio darganfod cofnod o fedydd Wil - ac fe'i cefais. Cafodd ei fedyddio yn Eglwys y Plwyf ar y trydydd ar ddeg o Chwefror 1831, yn blentyn anghyfreithlon i Margaret Evans. Ond y syndod yw fod enw'r tad yn cael ei gofnodi hefyd, ac felly, mae'n amlwg ei fod yn fodlon cydnabod y mab bychan. A'r enw? Neb llai na William Turner, Sgweiar Llanfair. Felly, roedd Wil Began Ifan o'r un llinach â Syr Llewelyn Turner, a ddaeth yn faer Caernarfon, a wnaeth ei gartref yn y Parcia, ac a wnaeth gymaint i adfer y castell yng Nghaernarfon a chael cyflenwad o ddŵr glân i'r dref. Tybed a wyddai Wil am y cysylltiad teuluol hwn?

Cefais hefyd gyfle i chwilio cofrestrau plwyf Betws Garmon, a chanfod cofnod o gladdu Began Ifan ar yr ail ar hugain o Chwefror 1873 yn 77 oed. Tybed a roddwyd carreg ar ei bedd?

Ond pam y galwyd trigolion y Waunfawr yn deulu Began Ifan? A oes rhai o'r disgynyddion yn parhau i fyw yn yr ardal heddiw? Roedd gan Began o leiaf ddau o blant, ac yr oedd gan Wil yntau ddau o blant. Os bu i'r rheini hefyd blanta, yna mae'n ddigon posibl fod rhai o'r llinach yn byw yn ardal y Waunfawr neu Fetws Garmon heddiw.

Gyda diolch arbennig am waith chwilio manwl gan R. J. Williams. Rwy'n siŵr nad yw stori Began Ifan wedi darfod o bell ffordd!

Teulu o Lanberis a Llanrug

Yn ystod y mis diwethaf cyfarfyddais â theulu sydd wedi dychwelyd i'r wlad hon o dde Affrica - ac maent yn chwilio am hanes eu teulu yn yr ardal hon. Bu'r teulu yn byw am gyfnodau yn Nrws y Coed, yn nhai Cwm Brwynog, Llanberis, ac yna yn Llanrug. Thomas Owen Jones oedd y penteulu, ac yr oedd yn briod ag Eliza Elin o Ddrws y Coed. Yno roedd y teulu'n byw yn 1891, ac yno y ganwyd Annie Mary, eu merch yn 1889. Erbyn 1893 roeddent wedi symud i Dai Cwm Brwynog, gerllaw Cadair Ellyll ar y llwybr i fyny'r Wyddfa, oherwydd yno y ganwyd William Tudor Jones. Erbyn 1901 roedd y teulu wedi symud eto, y tro hwn i Ben y Bont ym mhentref Llanberis.

Mudodd William Tudor i dde Affrica, a phriododd yno yn 1913. Ei ddisgynyddion sydd bellach wedi dychwelyd i'r wlad hon, ac yn chwilio hanes y

chwaer, Annie Mary.

Yr unig wybodaeth sydd ganddynt yw fod Thomas Owen Jones wedi marw rywbryd ar ôl i'w fab fudo i dde Affrica, a bod y weddw a'i merch wedi symud i Lanrug i fyw. Mae'r hanes teuluol yn dweud iddynt fyw ar fferm rywle rhwng Llanrug a Chaernarfon. Bu Annie Mary Jones fyw hyd ddechrau'r wythdegau, ond erbyn hynny, roedd wedi symud i gartref ym Mae Colwyn. Os oes rhywun yn gwybod pwy oedd Annie Mary, a ble yn Llanrug roedd yn byw, anfonwch air ataf.

Marconi yn y Waunfawr

Mae pawb yn gwybod rhywfaint am hanes yr orsaf ar y Cefn Du sy'n cael ei hadnabod ar lafar fel 'Marconi'. Ond hoffwn wybod a fu Marconi yn byw yn yr ardal. Deuthum ar draws cofnod byr iawn yn un o ôl-rifynnau'r North Wales Chronicle yn ddiweddar. Y dyddiad oedd yr unfed ar hugain o Chwefror 1913, a dywedir fod Marconi yn cysidro prynu Glyn Afon, Waunfawr fel 'summer residence'. A wireddwyd hynny? Ac os gwnaeth, ai dyma'r enghraifft gynharaf o rywun yn prynu 'tŷ haf' yn y Waunfawr?

Cysylltiadau â Phatagonia

Ydych chi'n credu mewn cyddigwyddiadau? Yn ystod y mis aeth cefnder i mi ar ymweliad â Phatagonia. Yno, cyfarfu â theulu a ddangosodd iddo Feibl a gyflwynwyd i'w taid ar ei ymadawiad â Chymru am Batagonia. Y geiriad ar flaen ddalen y Beibl oedd: 'Cyflwynedig i Mr a Mrs Richard Evans, Llwynhyfryd, Llanrug ar eu hymadawiad i Batagonia, oddi wrth Eglwys a Chynulleidfa Eglwys M.C. Pontrhythallt, 1902.' Ac y mae Llwynhyfryd yn union gyferbyn â'm cartref!

Ond mae un camgymeriad. Doedd Eglwys Pontrhythallt ddim yn bodoli yn 1902. A chefais innau gofnod o Richard Evans yn byw yn Llwynhyfryd yn 1906.

Felly, pwy oedd Richard Evans, a pha bryd y mudodd i Batagonia?

Mae digonedd o waith chwilota yn deillio o gynnwys y golofn y mis hwn, a bu'n rhaid gadael rhai eitemau allan o ddiffyg gofod. Ond cofiwch, bydd rhifyn y Nadolig ar ein gwarthaf cyn i'r inc sychu ar y rhifyn hwn, ac y mae digon o hynodion i'w trafod cyn y Nadolig. Y mis nesaf byddwn yn trafod taith mewn balwn dros yr Wyddfa, gweinidog o Lanberis a chartref plant amddifad ym Metws Garmon. Ond os oes gennych chi ymholiadau neu atebion i rai o gwestiynnau'r mis hwn, yna anfonwch air rhag blaen, neu ffoniwch Dafydd Whiteside Thomas, Bron y nant, Llanrug, Caernarfon. (01286 673515)



CYFARCHION NADOLIG DEINIOLEN

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (970394)

HOFFAI Eifion Williams, Rhydfadog, ddymuno Nadolig Llawen i'w deulu, ffrindiau a chymdogion. Ni fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

CYMDEITHAS GYFEILLION EGLWYS CRIST. Ar nos Lun, 2 Hydref, cynhaliwyd Swper Cynhaeaf y Gymdeithas ym Mwyty Groeslon Tŷ Mawr. Y siaradwr gwadd oedd Ficer y Plwyf, y Parchedig Peter Townsend. Soniodd am ei gyfnod pan yn ifanc ac yn mynychu'r ysgol leol ger ei gartref; y ffawd pan ddaeth i Brifysgol Bangor i astudio Almaeneg; ei brofiadau ym Mangor; cael ei dderbyn i'r Offeiriadaeth; dysgu'r Gymraeg ac yna bwrw iddi i waith Offeiriad mewn plwyf - tipyn o dasg. Diolch i bawb a gefnogodd y noson yma ac i'r Parchedig Robert Townsewnd am rannu â ni brofiadau ei fywyd, ac am ddysgu'r Gymraeg mor rhugl. Y gŵr gwadd yng nghyfarfod

mis Tachwedd o'r Gymdeithas oedd Mr John Wyn Roberts, a fagwyd yn Rhydfadog ac a fu'n mynychu Eglwys Crist cyn iddo fynd i Goleg y Drindod, Caerfyrddin yn 1969. Am Addysg y siaradodd John Wyn, gan gynnwys ei brofiadau personol, o'r cyfnod pan aeth i ddysgu gyntaf yn Ysgol I. D. Hooson yn Rhosllannerchrugog, hyd y presennol yn Brifathro Ysgol Pen y Bryn, Bae Colwyn. Roedd sgwrs John Wyn yn llawn hiwmor, er gwaethaf yr anawsterau a'r cyfrifoldebau sydd yn wynebu athrawon yr oes yma.

Diolch am ddwy noson ddifyr yn gwrando ar ddau ŵr yn trafod eu galwedigaethau ynghyd â rhannu'u profiadau gyda ni.

Diolch i'r rhai sydd yn dod o fis i fis i gefnogi'r Gymdeithas yma yn ein bro.

Bydd Cinio Nadolig y Gymdeithas nos Wener, 8 Rhagfyr. Ac yna nos Lun, 8 Ionawr 2007 am 7.00 o'r gloch, bydd Mr J.

Elwyn Hughes o Fethel yn rhoi sgwrs a lluniau inni am 'Fro Caradog Prichard'. Croeso cynnes i bawb.

Eglwys Crist Llandinorwig CYNGERDD NADOLIG

Nos Sul, 3 Rhagfyr
am 6.30

gyda

Seindorf Arian Deiniolen
Côr Clychau'r Grug
Wil Tân

Susan Williams

Mared Parry

Iwan Arwel Jones

Iwan Williams

Parchedig Robert Townsend

Arweinydd: Jenny Lyn

Llwydd: Carys Griffith

Mynediad: £3

(cynnwys paned a mins pei

Elw tuag at Eglwys Crist

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

oddi wrth
bawb yn

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn



Dymuna DAFYDD a staff

Y TARW (Bull Inn) DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I'W CWSMERIAID A FFRINDIAU OLL

SEINDORF ARIAN DEINIOLEN

Yn cyflwyno

Ffair Nadolig



nos Wener, 8
Rhagfyr
yn yr
Hen Felin
(Cwt Band)
am 6.30pm

a Grotto Sion Corn!

- Stondinau
- Raffl
- Paned
- Mins Pei
- Cyfle i'r plant ymweld â Sion Corn a chael anrheg ganddo!

Mynediad am ddim
£1.50 i weld
Sion Corn
Elw at Y Seindorf

Siop Newydd

Costcutter

Beran Deiniolen

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth pawb yng Ngorsaf Betrol Beran,
Deiniolen.



Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod
Petrol, Nwy Calor a Glo
Loteri, Off Licence, Bake'n Bite
Brechdanau a Diodydd poeth



(01286) 871521

DYMUNA teulu y ddiweddar Gwen Rowlands, Gwynllys, Deiniol Road, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli chwaer, chwaer-yng-nghyfraith a modryb annwyl, ac i'r Parchedig John Pritchard am ei wasanaeth a'i eiriau caredig yn yr angladd. Diolch yn arbennig i'w chymodgion, ei chynorthwywyr cartref a'r gweinyddesau am eu gofal cyson amdani.

Carem fel teulu ddiolch i Staff Padarn, Ysbyty Eryri, am eu gofal tyner ac urddasol o Gwen yn ystod ei hwythnosau olaf.

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS Cynhelir prawn difyr yng nghwmni Côr Meibion Paris a Seindorf Arian Deiniolen dydd Sul, 10 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch. Bydd y mynediad am ddim ond fe wneir casgliad at Gronfa yr Ambiwllans Awyr. Dowch yn llu i fwynhau. Cewch baned a mins pei ar y diwedd.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Gatwyd cyfarfod diddorol yng nghwmni Annes Glynn, Rhiwlas. Soniodd am ei gwaith fel awdures gan gyfeirio'n arbennig at y gyfrol *Symudliw*, oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 2004. Llywydd y noson oedd y Parchedig John Pritchard a thalwyd y diolchiadau gan Miss Margaret Jones.

DILCH. Dymuna Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am eu caredigrwydd tra y bu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch hefyd i'w chyd-aelodau yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun, ac hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Ward Aran, Ysbyty Gwynedd.

Cyfle'n Taro

Beth an wneud rhywbeth tra gwahanol cyn y 'Dolig eleni, a hynny yn nalgylch *Eco'r Wyyddfa*? Y dyddiadau i'w cofio yw 9 a 10 a rhwng 16-17 o fis Rhagfyr. Dowch i deithio ar y trên bach rhwng Gilfach Ddu a Chei Llydan, ble y bydd Siôn Corn yn ymuno â'r trên o'r Gogledd Pell! Rhoddir anrheg i bob plentyn a gwydryn o ddiod tymhorol a mins pei i'r oedolion, a'r cyfan am £5 i blant ac oedolion, a £2 i blant sydd o dan 3 mlwydd oed.

Gofynnir i chi archebu o leiaf 5 diwrnod o flaen llaw. Cysylltwch rwan! Anfonwch at David Jones, Rheolwr, Rheilffordd Llyn Padarn, Llanberis LL55 4TY (01286 870 549).

** Os ydych wedi trefnu unrhyw weithgaredd cyn, neu ar ôl y Nadolig, o hyn hyd at y dydd cyntaf o'r flwyddyn 2007, yna cofiwch anfon manylion atom cyn gynted ag sydd bosibl. Diolch a bendithion y 'Dolig a Blwyddyn Newydd Dda iawn i chi i gyd.

Siôn Corn a Planed Plant Bach yn Brysurach nag Erioed!

Mae Groto *Planed Plant Bach* ar daith ac yn ymweld â mwy o leoliadau nag erioed o'r blaen.

Eleni bydd y daith yn ymweld â 22 lleoliad ledled Cymru, gan gynnig sioe Nadoligaidd arbennig gyda Lowri, Gareth, Slinici Binc a Siôn Corn.

Yn ogystal â'r sioe yn y lori fawr, bydd stondin Twf yn cynnig gweithgareddau i'r plant, blwch postio i anfon llythyr at Siôn Corn a digon o syniadau am anrhegion Nadolig yn siop S45C.

Dywed Caryl Owen, trefnydd y daith:

'Mae'r daith eleni yn argoeli i fod yn well nag erioed. Rydym wedi ceisio sicrhau ein bod yn ymweld â phob cwr o Gymru, fel bod cyfle i bawb sy'n dymuno dod i fwynhau'r sioe a chwrdd â'u harwyr wyneb yn wyneb.

'Ond un peth fyddwn i'n cynghori yw i bawb archebu eu tocynnau ymlaen llaw, rhag cael eich siomi ar y diwrnod.'

Mae tocynnau ar gyfer y Groto ar gael yn rhad ac am ddim trwy ffonio Gwifren Gwylwyr S4C ar 0870 600 4141 neu trwy ymweld â'r wefan yn s4c.co.uk/groto.

Caiff Taith Groto *Planed Plant Bach* ei noddi gan Twf/Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae Twf yn gynllun sydd yn annog rhieni i fagu eu plant yn ddwyieithog.

Maes Parcio Glan Môr, Bangor: Sadwrn 16 Rhagfyr, 11am-5pm
Y Maes, Caernarfon: Sul, m 17 Rhagfyr, 11am-5pm.

Cefnogwch
ein Hysbysebwy

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partiön rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
wefan: www.ydyncig.co.uk

Briwsion Byd Natur Daiydd Guto

Yn yr oerni mawr

Yr oerni mawr? Beth amdano? Pryd y gwelsoch chwi'r *ddrudwen* am y tro cyntaf 'leni? A welsoch chwi *socan eira*, neu hyd yn oed *coch dan aden* yn unman? Bydd yr ymwelwyr pluo a enwyd uchod yn hedfan ar draws gwlad ac yn chwilota am fwyd yma yng Nghymru. Yr oerni? Os ydych am fentro allan o'r tŷ i wyllo adar, da chwi cofiwch wisgo ddillad trwchus, a symud digon, er mwyn cadw'n gynnes.

Oerni? Methu symud gewyn. Rhynnu i farwolaeth. Sut mae hi ar greaduriaid ac adar ynghanol yr oerni mawr? Beth a ddigwydd pan fo bwyd ar ga'l? Gadewch inni weld sut yr oedd hi ran tywydd yn Llanberis, a'r cyffinia' dros gan mlynedd yn ôl. D'wedir bryd hynny ei bod yn *myned yn fwy-fwy gerwin, a'r afonydd... a rhannau o'r Llyn wedi rhewi... Mae chwarel Glynrhonwy wedi sefyll, a rhannau helaeth o chwareli Dinorwig. Mae y defaid yn dioddef... a diau y bydd cannoedd ohonynt farw o eisiau bwyd... Y mae nifer fwy nag erioed o hwyaid gwylltion ar y llyn, yr hyn sydd arwydd sicr o galedi y tywydd ac o'i barhâd. Yr Herald Cymraeg Ionawr 29ain, 1895.*

Ar y 19eg o Chwefror edrydd yr un newyddiadur bod 'na oddeutu *drwch mawr o eira*, a bod ar Llyn Padarn *naw o elyrch... ac yn rhyfedd iawn y maent... wedi llwyddo i gadw pwll yn agored yn y rhew, ac yno y maent yn nofio ac yn cael eu bwydo gan garedigion*. Heb fwyd mi fyddent wedi marw. Yn yr un rhifyn ceir yng nghlofn Porthmadog gofnod sy'n cyfeirio bod yr oerni mor fawr... *yr wythnos diwethaf, fel ag yr oedd adar y môr, pan yn sefyll i orffwyo ar hwylbrennau y llongau, yn rhewi yno. Yr oedd yn ofidus eu gweld yn ymladd er mwyn ymryddhâu o afael y rhew.*


Beth gwell felly na dianc oddi wrth dywydd mor hegar? Ffoi am eich hoedl i leoedd mwy cynnes, a digonedd o fwyd ar

gael yno!

Dyma daro ar gofnod o'r flwyddyn 1864, sydd ar gof a chadw yng nghylchgrawn *Y Dysgedydd*, a hynny ym mis Ebrill: *Y mae'r oerni, (t.104), wedi bod mor llym, yn y Pyrennes yn ddiweddar, fel y mae llawws o fleiddiaid wedi gadael y coedwigoedd, a disgyn i'r gwastadeddau, er perygl mawr i ddyn ac anifail. Ac ar dudalen 63 d'wedir: Un o'r arferion rhyfeddaf yn ucheldiroedd Tibet yw cludo gwair i frigau'r coedydd. Gan fod yr eira'n y wlad honno yn gorwedd bum neu chwe troedfedd (1? metr - 1 metr ac 80cm), ar y ddaear, bydd y defaid, y rhai sydd yn lluosog yno, yn gallu cael ymborth...*

Tybed sut fydd hi arnom yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror y flwyddyn sydd ar ddyfod? A fydd hi'n drybeilig o oer? Nid proffwyd na mab i broffwyd mohonof. Rhaid cym'ryd petha' fel y dont! Rhew, (iâ), cenllysg, (cesair), eira. D'wad a mynd fu eu hanesion erioed ac os ydych yn gaeth eich byd, cofiwch, da chwi, gadw diddosrwydd, a chynhesrwydd, yn eich calonnau. Daw eto haul ar fryn.

Llawenydd y Nadolig i chwi, a phob hwyl ar gadw cwmni i fyd Natur yn y flwyddyn 2007



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco**



Digwyddiadau
dros gyfnod y Nadolig

Pnawn Llun, 4 Rhagfyr, 2.30-7pm
Bore Gwener, 8 Rhagfyr 8.30am
Nos Fawrth, 12 Rhagfyr 7.30pm
Nos Sadwrn, 23 Rhagfyr 7pm

Ffair Nadolig Wl
Brecwast Jonsi (BBC)
Sinema Achlysurol
Bwffe Nadolig gyda'r band Mooncoin

Mae Caffi Caban ar gau
o 3pm pnawn Sul, 24 Rhagfyr
tan 9am Bore Mercher 27 Rhagfyr



Dydd Sul, 31 Rhagfyr 8pm
Dydd Llun, 1 Ionawr, 11am

Parti'r Flwyddyn Newydd gyda Bandabacana
Caffi'n agor gyda llond cegin o fwydydd di-tox!

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
CYF

**Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth**

Richard S. Humphreys



**ORIEL
CWM
Cwm-y-glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd
Dda



oddi wrth IRFON a phawb yn

**LONDON
GARAGE
Cwm-y-glo**

Ffôn: 870234

Ar agor: 8.30-6 Llun-Gwener
8.30-1 Sadwrn



MOT. Disel, Petrol
Gwasanaeth ac
Atgyweirio

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

**ODDI WRTH
MORRIS BROS.**

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO

Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
barwb ym menter gymunedol

**Cyfeillion Y CWM a
SWYDDFA'R POST CWM Y GLO.**

Ffôn: 872722

Diolch am eich cefnogaeth yn 2006 Edrychwn ymlaen i'ch
gwasanaethu drwy gydol 2007

ORIAU AGOR:

SIOP
Llun - Gwener
9 - 12
bore Sadwrn
10 - 12



POST
9 - 12 Llun - Gwener
ar gau
Sadwrn a Sul

Dewch yma am ddewis da o nwyddau masnach deg a
chynhyrchion Cymraeg traddodiadol
fel jam a chaws

OAK AM BETROL, DEISEL **OAK**
OLEW AC AMRYFAL
ANRHEGION MODURO

**GORSAF BETROL
LONDON GARAGE
CWM-Y-GLO**

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i gwsmeriaid hen a newydd oddi wrth

BILL, JACKIE a staff

**SNOWDON INN
Y FRICSAN**

CWM-Y-GLO Ffôn 870289

- Cinio 'Dolig ar gael drwy gydol mis Rhagfyr.
Archebwch yn fuan.
5 cwrs a hefyd gwydraid o wîn £19.99.
Ffoniwch i wneud yn siŵr fod lle ar ôl!
- Cofiwch hefyd - bob dydd Sul,
Cinio Rhost blasus 2 gwrs am
£6.99; 3 chwrs am £7.99



*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda*

*i'n holl
gwsmeriaid
oddi wrth bawb ym*

**MENTER
FACHWEN**

(01286) 872014



CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

YSGOL CWM Y GLO. Diolch yn fawr i Sulwen Roberts o'r Urdd am ddod draw i gynnal sesiwn hwyliog gyda'r aelodau. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw.

Daeth Dilwyn Williams o'r archifdy i sgwrsio gyda'r Adran Iau am Gwm y Glo yn y gorffennol. Roedd yn ddi-ddorol iawn edrych ar y lluniau, y mapiau a'r hen ddogfennau am Gwm y Glo.

Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 6 gyfle i fod yn Ffrindiau Ffeil ar wefan y BBC. Ewch draw i wefan Ffrindiau Ffeil er mwyn cael darllen am eu hwythnos brysul!

Cafodd Ffion Haf Roberts a Gethin ac Ellie Edwards-Jones fedal gan Lyfrgell Caernarfon am gwblhau sialens yr Antur Ddarllen yn ystod gwyliau'r haf. Da iawn chi wir!

Daeth yr awdur, John Malam, at Flwyddyn 5 a 6 i gynnal gweithdy ar greu llyfrau ffeithiol. Roedd yn brynhawn difyr dros ben - ac mae'r gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen!

Longyfarchiadau i Hannah a Rebecca Wilson ac Eva Perrin am wneud yn dda yng Ngala Nofio'r Urdd ym mhwl nofio Bangor. Cawsant ail a thrydydd yn eu cystadlaethau.

Roedd yn ddiwrnod prysur iawn yma ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen. Roeddem wedi gwisgo mewn gwisg ffansi a phyjamas, ac yn gwerthu teganau i godi arian. Casglwyd £195.71 i gyd - Ardderchog blant!

Daeth nifer dda o wobrau am waith llenyddol a gwaith celf i'r ysgol o Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo. Llonyfarchiadau i'r plant i gyd.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r gangen nos Lun, 6 Tachwedd yn yr ysgol gymuned. Croesawodd arweinydd y gangen, Mrs Dorothy Jones, pawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd ym mis Hydref a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Trafodwyd rhai materion gan Dorothy.

Bydd gwasanaeth o Ddiolchgarwch yn cael ei gynnal yn y Gadeirlan, Bangor, ar 28 Tachwedd. Bydd gwasanaeth o garolau a llithoedd yn cael ei gynnal nos Lun, 4 Rhagfyr. Anfonwyd dymuniadau am wellhad buan i Mrs Enid Taylor oedd yn cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Treuliwyd gweddill y noson dan ofal Mrs Joyce Ransom yn gwneud cardiau Nadolig.

Y gwsteion oedd Miss Meira Williams a Dorothy, rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Mrs Hilda Orritt. Diolchwyd i Joyce a'r gwsteion gan Mrs Marjorie Roberts. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS Cynhelir pawns difyr yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen dydd Sul, 10 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch. Bydd y mynediad am ddim ond fe wneir casgliad at Gronfa yr Ambiwlans Awyr. Dowch yn llu i fwynhau.

Cewch baned a mins pei ar y diwedd.

CYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ac ian a Julie a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam, mam-yng-nghyfraith a nain annwyl.

BEDYDD. Dydd Sul, 19 Tachwedd, bedyddiwyd Erin Louise, merch fach Jessica, wyres Sandra a Keith Jones, Ponthrhythallt yng Nghapel y Tabernacl. Gwasanaethwyd gan y Parch Gwynfor Williams.

Ffion, Gethin ac Ellie gyda'u medalau o Lyfrgell Caernarfon.



Diwrnod pyjamas er budd Plant Mewn Angen.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Gweddnewid Llyn Padarn

Mae Llyn Padarn, sy'n swatio yng nghesail Eryri, wedi cael ei weddnewid. Ddydd Sul, 12 Tachwedd, aeth gwirfoddolwyr ati i gasglu llond 21 o fagiâu sbwriel o'r llyn yn Llanberis, er mwyn diogelu ansawdd y Safle o Ddiddoredeb Gwyddonol Arbennig hwn.

Roedd caniau, poteli a bocsys bwyd parod ymhlith y sbwriel a gafodd ei gasglu. Yn rhyfedd ddigon, y bobl sy'n dod i ymweld â'r llyn er mwyn mwynhau ei harddwch sy'n gadael y sbwriel yma. Roedd o'n bygwth mygu nodweddion nodedig y llyn, gan gynnwys planhigion prin a'r torgoch.

Cafodd y gwaith glanhau ei drefnu fel rhan o Brosiect Afonydd/Llynnoedd Glân Cadwch Gymru'n Daclus, ac roedd yn cynnwys gwirfoddolwyr o'r sefydliad hwnnw ac o'r Cyngor Cefn Gwlad.

Yn ôl Lee Oliver o Cadwch Gymru'n Daclus:

'Rydym wedi mynd ati i lanhau nifer o weithiau o amgylch Llyn Padarn, ond bob tro yr ydym yn dychwelyd, mae yna fwy a mwy o sbwriel i'w gasglu. Mae yna ddigonedd o finiau i'w cael, ac mae'r Cyngor yn eu gwagio'n rheolaidd. Ond rhaid i'r bobl ddewis eu defnyddio.'

Rhian Thomas, ecolegydd dŵr croyw'r Cyngor Cefn Gwlad, ac sy'n huanu o Lanberis, drefnodd y gwaith glanhau:

'Rydym yn gobeithio y bydd ymwelwyr y dyfodol yn parchu'r llyn, yn ogystal â mwynhau ei harddwch naturiol a'i dawelwch. Un o brif bwyntiau'r Cod Cefn Gwlad yw y dylai pob un ohonom ddiogelu planhigion ac anifeiliaid, gan fynd â'n sbwriel adref gyda ni.'


Mae Parc Gwledig Padarn yng nghanol tirwedd ddramatig Eryri, a dyma le delfrydol i weld yr hyn sydd gan gefn gwlad Cymru i'w gynnig. O fewn ei 800 acer ceir coetiroedd Coed Allt Wen a Llyn Padarn – dau o safleoedd o Ddiddoredeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r cyfuniad yma o dreftadaeth ddiwydiannol ac amgylchedd naturiol o fewn un ardal yn darparu cyfleusterau hamdden unigryw a digon o hwyl a sbri i bawb.

Nod Prosiect Afonydd/Llynnoedd Glân Cadwch Gymru'n Daclus yw cael pobl leol i gyfrannu at eu hamgylchedd. I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar y wefan www.keepwalestidy.org.

Os ydych yn defnyddio Llyn Padarn, neu'n byw yn yr ardal, ac os hoffech chi gymryd rhan mewn prosiectau glanhau yn y dyfodol, wnewch chi ffonio Lee Oliver, Cadwch Gymru'n Daclus; neu gysylltu ar (01286) 674081 neu anfon e-bost at lee.oliver@keepwalestidy.org.uk

Mwy o Ysgol Cwm y glo

Yr awdur, John Mallam, hefo disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cynnal gweithdy ar greu llyfrau ffeithiol.



O SIAMBAR SELWYN

Roedd o'n brofiad arbennig cael ymweld â'r Mod, a gynhelir eleni yn nhref Dunoon yn yr Alban. Dyma eisteddfod genedlaethol yr Alban, a gynhelir mewn gwahanol lefydd yn flynyddol, ar wythnos pan mae'r ysgolion ar gau ym mis Hydref.

Disgwylir i mi ymweld â'r holl wledydd Celtaidd yn ystod fy nhymor fel Archdderwydd. Roeddwn i eisoes wedi bod mewn rhai ond dyma'r tro cyntaf i mi gael y cyfle i fynd i'r Mod, felly dyma fynd draw i Dunoon. Roeddwn i'n reit gyfarwydd â'r dref, gan fy mod wedi bod yno ar wyliau fwy nag unwaith.

Mae yna raglen y dydd drwchus iawn i'r Wyl, yn cofnodi enwau pob ymgeisydd yn y gwahanol gystadlaethau. Prif ganolfan y gweithgareddau oedd neuadd enfawr y Queen's Hall ond roedd yna nifer o gystadlaethau yn cael eu cynnal mewn neuaddau llai yn y dref, yn ogystal ac yn yr ysgolion. Dechrau yn brydlon am naw a mynd ymlaen drwy gydol y dydd, a'r cyfan, wrth reswm, drwy gyfrwng y Gaeleg.

Roedd y cystadlaethau canu i gyd yn ddigyfeiliant ac roedd yna ddau feirniad ar bob cystadlaeth – un i feirniadu'r ynganu a'r llall yn canolbwyntio ar y ddawn gerddorol, ac yn naturiol roedd 'na nifer dda o ddysgwyr yn cystadlu ymhlith y plant.

Yn y cyfarfod agoriadol fe gafwyd nifer o anerchiadau ac fe ddisgwylid i mi roddi anerchiad byr yn Gymraeg, gan ychwanegu ychydig eiriau yn y Gaeleg.

Diddorol oedd sylwi ar y rhestr enwau yn y cystadlaethau i blant. Yr un enwau a welid yn aml yn canu, adrodd, ac yn nifer o'r cystadlaethau offerynol. Mae hyn i'w weld yn amlach na pheidio yn

ein heisteddfodau ni yng Nghymru hefyd. Canu'r ffidil a'r acordion, ac wrth gwrs, y pibau traddodiadol oedd y prif gystadlaethau yn yr adran offerynol.

Bob nos roedd yna gyngerdd yn y Neuadd, yn cynnwys holl enillwyr y dydd a'r cyfan yn cael ei recordio ar gyfer rahaglenni teledu. Fel yn ein heisteddfod ni roedd y niferoedd yn lleihau yn y cystadlaethau dros tua pymtheg oed.

Fe gefais i fwynhad mawr ar y prynhawn Sadwrn yn Stadiwm Dunoon. Cynhaliwyd yno yr hyn a elwir yn Mod Shinty – sef math o gêm hoci rhwng dau dim lleol. Ond roedd hwn yn hoci gwahanol ac yn fwy peryglus o lawer na'r hoci yr oeddwn i yn gyfarwydd ag o. Roedd y bêl yn fflio drwy'r awyr ar brydiau ar gyflymdra eitha peryglus, a'r taclo gyda'r ffyn yn ffyrnig. Prynhawn diddorol iawn – y cyfan yn rhan o'r wyl. Fe gynhelir gêm gyffelyb bob blwyddyn ble bynnag y cynhelir y Mod.

Brynhawn Sul fe gynhelid gwasanaeth crefyddol yn yr eglwys a'r cyfan, yn naturiol, drwy gyfrwng y Gaeleg, gydag offer cyfieithu ar ein cyfer. Yn ystod yr wythnos fe gafwyd dramâu a rhoddwyd gwobrau am farddoniaeth a llenyddiaeth. Arferid coroni bardd yn y Mod ac mae sôn am adfer y seremoni yn y dyfodol.

Tua diwedd yr wythnos yr oedd yr oedolion yn cystadlu, gan gynnwys, wrth gwrs, y corau. Yn anffodus bu'n rhaid i mi ddod adre cyn diwedd yr wyl gan fod gen i gyfarfod pwysig iawn ym Methesda.

Oedd, roedd 'na brysurdeb mawr yn Dunoon dros y Mod. Rhai wedi dod yno o bob rhan o'r Alban a da oedd deall bod yna gynydd yn y nifer sy'n awyddus i ddysgu'r iaith, a bod yna ysgo newydd i ddysgu'r Gaeleg wedi agor yn ddiweddar yn Glasgow.

Ac yn syth o'r Mod i Ddyffryn Ogwen, gan i mi gael gwahoddiad i'r cyfarfod arbennig a drefnwyd i anrhydeddu Gwynfor ab Ifor, Prifardd cadeiriol Prifwyl Abertawe, ynghyd â'r enillwyr eraill a roddodd bentre Rhiwlas ar y map yn y Genedlaethol eleni.

A dyna noson i'w chofio. Neuadd Ogwen yn llawn. Eitemau gan nifer o gorau. Detholiadau o'r bryddest a oedd yn deilwng o'r Goron gan un o'r beirniaid. Unawdau a chyfarchion gan nifer o feirdd lleol, a detholiad o'r Awdl fuddugol. Braint ac anrhydedd i mi oedd cael cyfle i gadeirio Gwynfor am yr eildro, a hynny yn ei fro ei hun.

Hir y pery yr hen draddodiad o anrhydeddu ein enillwyr cenedlaethol yn ein hardaloedd. Roedd hon yn noson i'w chofio. Ac yn sicr noson i'w chofio i Gwynfor a'r buddugwyr eraill a roddodd Rhiwlas ar y map.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384



DWY FFRIND. Mrs G. M. Jones, Dalar Deg, a Miss Elizabeth Hughes, Tanygraig, Cwm-y-glo gynt. Roedd y ddwy yn ffrindiau pennaf yn yr Ysgol Ramadeg ym Mrynrefail, yn mwynhau chwarae hoci ac ymddiddori yn y 'pethe'. Maent wedi cynnal y gyfeillgarwch ar hyd eu hoes ac yn awr, yn 98 oed, wedi dod at ei gilydd unwaith eto yn breswylwyr yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun.

Pob dymuniad da iddynt i fwynhau cwmpeini ei gilydd.

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS Cynhelir pnawn difyr yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen dydd Sul, 10 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch. Bydd y mynediad am ddim ond fe wneir casgliad at Gronfa yr Ambiwlans Awyr. Dowch yn llw i fwynhau. Cewch baned a mins pei ar y diwedd.

CYFARCHION NADOLIG.

Dymuna Mrs Annie Jones, Eilionwy, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb o'i ffrindiau a chymdogion.

CYFRCHION NADOLIG.

Dymuna Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

DIOLCHIADAU. Dymuna Janet ac Allan, Goleufryn, Rhos Rhythallt, ddiolch i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd Alaw Angharad ar ei genedigaeth ar 3 Hydref. Mae Ffion Haf, ei chwaer fawr, a Nain, Sef Mildred, Wernlas, Crawiau, ac Alwyn a Nerys, Taid a Nain, 19 Gwelfor, Rhosgadfan, wrth eu bodd.

DYMUNA Mair Wyn, 19 Tal y Bont, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed ar 1 Tachwedd.

PROFEDIGAETH. Dymuna Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, hefyd Wayne a Ryan, ddiolch o galon i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Sylvania. Gwerthfawrogwyd yr ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn. Diolch yn arbennig i'r Parch Dafydd Hughes, hefyd Mrs Megan Williams, Mrs Mari Hughes ac Elwyn a Gwynfor Evans.

BRYSIWCH WELLA Mrs Katie Davies, 6 Hafan Elan; Mrs Bet Jones, Lyndale; Mrs Megan Williams, wedi cael damwain ac yn dilyn llawdriniaeth yng Nghaerdydd. Brysiwch wella i gyd ac hefyd unrhyw un arall sydd ddim yn dda yn y pentref.

SEFYDLIAD COFFA.

Enillwyr y Clwb Cant am fis Tachwedd oedd: £20: Mrs J. Welsh, 9 Hafan Elan; £7: Mrs B. Williams, Disgwylfa; £5: Mr A. Jones, 12 Hafan Elan.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys iawn â Mrs Gwenda Jones, Melbourne House ac Ellen yn eu profedigaeth o golli Mam a Nain annwyl, Mrs Hazel Hughes, Fferm Cae Gwyn, Caernarfon.

Hefyd â Mrs Megan Pritchard, Wayne a Ryan yn eu profedigaeth hwythau o golli Sylvania, yn 54 mlwydd oed.

YR YSGOL GYNRADD.

Dymuniadau gorau i Miss Elena Williams a dathlodd ei phen-blwydd yn 30 oed ar 27 Hydref. Llongyfarchiadau hefyd iddi hi a Darren ar enedigaeth eu merch, Gwenno, ar 11 Tachwedd. Mae'n siŵr bod ei brawd mawr, Deian, wedi gwirioni. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn yr ysgol yn yr wythnosau nesaf.

Estynnwn groeso cynnes i Catrin Lennon-Thomas a fydd efo ni yn ystod cyfnod mamolaeth Miss Williams.

Dathlwyd Calan Gaeaf yn yr ysgol ar ddwy noson yn ollynnol eleni. Braff oedd cael croesawu'r awdures, Angharad Tomos, atom i noson yr Adran Fabanod. Roedd pawb wrth eu bodd yn gwrando arni'n darllen stori. Diolch iddi am ei chwmmi ac am feirniadu'r wisg ffansi. Roedd y plant wedi dysgu rhigymau ar gyfer eu hadrodd ar y noson. Diolch i bawb am nodd'i'r disgyblion.

Braff oedd cael cwmni'r Parchedig Robert Townsend ar gyfer ein Gwasanaeth Diolchgarwch cyn gwyliau'r hanner tymor.

Cynhaliwyd Noson Tân Gwyllt lwyddiannus eto eleni. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Diolch i bawb a lenwodd focs 'sgidiau ar gyfer apêl 'Operation Christmas Child'. Anfonwyd ymhell dros gant o focs dros y dŵr at blant llai ffodus.

Daeth cwmni theatr *A and P* i'r

ysgol i lwyfannu eu cynhyrchiad diweddaraf sef 'Treasure Island'. Diolch iddynt am berfformiad gwerth chweil.

Bu merched blwyddyn 2 yn cymryd rhan yn Eisteddfod Brynrefail. Nhw oedd yn gyfrifol am y ddawns flodau. Da iawn chi, genod! Diolch i Mrs Heulwen Evans am eu hyfforddi.

Gwelwyd môr o liw ar ddiwrnod Plant Mewn Angen wrth i bawb wisgo het neu gap i'r ysgol a rhoi pres i elusen am y fraint o wneud hynny.

Cofiwch am y Ffair Nadolig yn yr ysgol ar nos Lun, 4 Rhagfyr. Dewch yn llw!

DYMUNA Megan Williams, Bron Eryri, ddiolch o galon i bawb fu mor garedig ag anfon cardiau, llythyrau a galwadau ffôn iddi ar ôl ei damwain yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Gan na fydd yn ôl yn Llanrug tan y Flwyddyn Newydd, dymuna Nadolig Llawen i'w ffrindiau i gyd.

PLAID CYMRU. Er gwaetha'r gwynt a'r glaw, daeth aelodau a chefnogwyr Plaid Cymru yn Llanrug at ei gilydd nos Fercher, 15 Tachwedd, i Noson Goffi yn y Sefydliad Coffa a chafwyd noson ddifyr yn sgwrsio, gwerthu a phrynu. Gwnaed elw da ar y noson a rhoddwyd y nwyddau oedd ar ôl i siop elusen leol. Enillodd y canlynol wobrau yn y raffl: Myfanwy, Mair, Megan, Eirwen, Charles, Carrie a Pat. Cyhoeddwyd enwau enillwyr y Clwb Cant:

Gorffennaf: Sioned Larsen a Paul Rowlinson; *Awst:* Eileen Jones a Margaret Jones; *Medi:* Jean Walsh ac Einir Gwyn; *Hydref:* Sheila Williams ac Alwena Williams; *Tachwedd:* John Roberts a Mrs J. Davies.

Braff oedd gweld y Cynghorwyr Charles Jones a Pat Larsen yn bresennol, ac hefyd amryw o wynebau newydd, ifanc. Diolch yn arbennig i Mair a Meirwen am ddarparu'r coffi a'r te; i Vera am ofalu am y raffl ac i Phyllis am lywio'r noson.

Edrychwn ymlaen at ymweliad Dafydd Wigley â Llanrug, nos Fercher, 17 Ionawr. Bydd cyfarfod cyhoeddus yn y Sefydliad Coffa am 7.30 ac estynnir croeso cynnes i bawb.

BABIS NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i Mark a Non, Llys Eiddon, ar enedigaeth eu plentyn bach; i Catherine a'i gŵr, Norfolk Villa, Ffordd

Llanberis, ac i Sharon Michelle a'i gŵr, Cae Garw, Ffordd yr Orsaf, ar enedigaeth eu mab bach newydd. Pob bendith i chi i gyd.

MERCHED Y WAWR. Estynnwyd croeso cynnes i'r nifer dda a ddaeth allan ar noson stormus gan y Llywydd, Nan Humphreys a chychwynwyd y noson gyda Chân y Mudiad.

Y wraig wadd oedd Mrs Margaret Jones, Llanbedrog, Pwllheli sydd wedi dysgu Cymraeg, a hynny'n rhugl dros ben. Llongyfarchodd yr aelodau am y canu gwefreiddiol.

Ei harbenigedd yw gwaith piwtar a bu wrthi'n ddyheuig mewn ffordd gartrefol a hwyliog yn olrhain ei hanes ac yn dangos y camau o wneud broits biwtar gyda chennin Pedr arni - a'i chyflwyno fel raffl y noson.

Cychwynnodd ei diddordeb flynyddoedd yn ôl mewn clwb Bore Iau, pryd yr oedd aelodau yn rhannu a dangos eu crefftiau a chael paned a chlonc. Cafodd gyfle i fynd i'r coleg yn Denman, Rhydychen, am wythnos gyfan. Roedd ugain o wahanol grefftiau yno a'i dewis hi oedd gweithio â phiwtar.

Cafwyd arddangosfa chwaethus ganddi, yn 'froits' bendigedig, addurn gwddf, 'coasters', platiau, cardiau ac addurn piwtar arnynt ar gyfer pob amgylchiad, a daliwr blodau gwyrdd gydag addurn piwtar. Cafwyd cyfle i brynu rhai o'r cynnyrch hardd. Diolchwyd iddi am noson hyfryd a diddorol dros ben.

Enillydd y raffl hardd oedd Margaret. Lucus iawn!

Cyflwynwyd arian y raffl i Apêl Haf, Buarthau, a fydd yn nofio 60 hyd y pwll ar 5 Rhagfyr o 7-9 o'r gloch er budd Ysgol Pendalar. Diolchwyd i ferched y te, Margaret, Olwen, Eirianwen ac Eileen am y baned dda.

Ar 12 Rhagfyr cynhelir Cinio Nadolig y Gangen yn Fferm Plastirion, Llanrug. Pawb i gyfarfod yno am 7.00 ac i fwyta am 7.30.

Ar Osod

Tŷ dwy lofft
yng nghanol Llanrug
£100 yr wythnos
Ffôn 07747605576

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: 650218

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

SEFYDLIAD Y MERCHED.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Sefydliad yn Ffestri Eglwys y Waun ar 2 Tachwedd. Croesawodd y Llywydd, Catherine Jones, yr aelodau a Pat Parry fel Cynghorwr y Sefydliad, i'r cyfarfod. Estynnodd y Llywydd ei llongyfarchiadau i Betty Griffith ar ddod yn hen nain, ac hefyd Nancy Buckley a Wenna Edwards ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth Bowlio Mat Byr yn y Felinheli. Gwnaeth y tîm cwis yn reit dda hefyd gan ddod yn 7fed allan o 18 yn y gystadleuaeth a drefnwyd gan y Sir yn erbyn Sir Feirionnydd yng Nghricieth. Aeth 11 o'r aelodau i'r Cinio i Ferched a drefnwyd gan y Sir yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, ar 28 Hydref. Cymerodd Pat drosodd i drefnu'r etholiadau ar gyfer y Pwyllgor.

Etholwyd fel a ganlyn:

Llywydd: Catherine Jones; Islywydd: Hilda Williams; Ysgrifennydd: Anne Williams; Isysgrifennydd: Pat Parry; Trysorydd: Rose Ann Hughes; Isdrysorydd: Iris Evans; Clwb Cynilo: Nancy Buckley; Trefnu'r Te a'r Raffl: Carys Williams.

Diolchodd y Llywydd i'r aelodau am eu cefnogaeth ac am eu gwaith yn ystod y flwyddyn, a diolch arbennig i Pat am bob cymorth. Cafwyd cwis gan Pat i ddiweddu'r cyfarfod. Enillydd y raffl, oedd wedi ei rhoi gan Iris, oedd Mair.

MERCHED Y WAWR. Nos Iau, 26 Hydref, cafwyd sgwrs gan Delyth Jones ar ei gwaith gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru. Mewn dull hynod gartrefol eglurodd inni'n fanwl natur cymhleth y gwaith a phwysigrwyd hynod y gwasanaeth i'r gymdeithas. Diolchwyd iddi gan Heulwen Huws ac Alma Jones oedd yn gyfrifol am ddarparu'r te. Cydymdeimlodd y Llywydd, Sylvia Jones, â Marion Iwan yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

Nos Wener, 17 Tachwedd, bu Pat Parry, Alma Jones, Irene Roberts ac Olwen Williams yn cynrychioli'r gangen yn y Cwis Hwyl Cenedlaethol yn Rhanbarth Arfon. Cafwyd noson hwyliog a difyr a gwnaeth y tîm eu gwaith yn ganmoladwy.

Cofiwch am ein Swper Nadolig yn Y Bistro, Llanberis, ar 7 Rhagfyr Bydd y bws yn gadael yr hen bost am 7.15.

CYFARCHION Y NADOLIG.

Dymunaf i, Katie Roberts, Stad Tref Eilian, eleni eto, gan na allaf fynd allan i brynu cardiau Nadolig, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'm ffrindiau yn yr ardal. Diolch i bawb a ymwelodd â mi yn ystod y flwyddyn.

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS Cynhelir prawn difyr yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen dydd Sul, 10 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch. Bydd y mynediad am ddim ond fe wneir casgliad at Gronfa yr Ambiwlans Awyr. Dowch yn llu i fwynhau. Cewch banded a mins pei ar y diwedd.

CYFARCHION PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau a phob

dymuniad da i'r dyfodol i Charlene Roberts, Stad Tŷ Hen, a fu'n dathlu cyrraedd ei deunaw oed yr wythnos ddiwethaf.

Dymunwn yn dda i Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed ar 29 Tachwedd. Llongyfarchiadau mawr ichi, Mrs Jones.

NEWID SWYDD. Dymunwn yn dda i Elin Evans, Arfryn, yn ei swydd newydd gyda S4C yng Nghaerdydd.

BABANOD BACH NEWYDD. Ganwyd mab bychan, Dafydd Wyn, i Diane a Dylan, y cyntafanedig iddynt, yn Dolwyn. Merch fach, Efa Llwyd, a anwyd i Sara ac Iwan Davies, Bryn Melyn. Chwaer a ffrind bach i Siôn Ifan. Daeth Rhian a John Ellis, Ty'n Lliidiart, yn nhain a thaid am yr eildro. Ganwyd Morgan, mab bychan i Anwen ac Iwan, a brawd bach i Gruffydd.

Daeth Rhian ac Emyr Evans, Arfryn, yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd wyres fach, Erin Wyn, i'w merch, Manon ac Alan, a gor-wyres fach i Mrs Betty Griffith, Gorfwwysfa.

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i'r teuluoedd a'r rhai bach.

ADREF O'R YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mr Alun Williams, Stad Bro Waun, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd

Hefyd anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Be Westphall, Tref Eilian, sydd yn Ysbyty Eryri wedi iddi ddisgyn a thorri ei chlun.

Hyderwn eich bod eich dau yn gwella ac yn cryfhau.

Da deall bod Mrs Grace Dawson, Stad Tref Eilian, yn gwella wedi iddi dorri ei braich.

DIOLCH. Dymuna Karen a Marc, 3 Bro Waun, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau ar enedigaeth eu mab bychan, Benjamin Jenson. Diolch hefyd am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd Emma Katlyn ar ei phen-blwydd yn ddwy oed.

DISGO CALAN GAEAF CLWB PÊL-DROED YR IEUENCTID.

Hoffwn ddiolch i bawb am wneud y noson mor llwyddiannus, yn enwedig y plant oedd wedi mynd i'r drafferth i wisgo i fyny mor dda – oddeutu 100 ohonynt mewn gwsg ffansi! Gobeithiwn eu bod wedi mwynhau eu hunain. Roedd y gystadleuaeth wisg ffansi yn anodd i'w barnu ond yr enillwyr oedd: Dan 7: Jay; Dan 9: Elen; Dan 11: Shannon – gwelwch y llun isod gyda'r blaidd (Liam).

Hoffwn ddiolch hefyd i'r gwrrachod am drefnu a pharatoi'r bwyd a'r diodydd am y noson ac i'r DJ's, Liam a Dion, am gadw'r anghenfilod yn dawnsio trwy'r parti.

Byddwn yn ceisio eich dychryn eto y flwyddyn nesaf.

Mae'r clwb pêl-droed yn gobeithio trefnu Helfa Drysor i'r plant rhyw dro rhwng diwrnod Nadolig a'r flwyddyn newydd. Gwylwch allan am y poster.

Os hoffech gael copi electronig (jpg) o'r llun, yna e-bostiwch texvaughan@aol.com.



Rhai o'r gwisgoedd ffansi yn y Disgo Calan Gaeaf.



Mrs Pragnell, y nyrs ddeintyddol, yn sgwrsio gyda'r disgyblion.



Chris a Julie o Techniquet, Llanberis, yn cynnal arbrofion gwyddonol gyda'r plant.



Dathlu Diwrnod Plant mewn angen.

YSGOL WAUNFAWR.

Y Cyngor Ysgol. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o Gyngor Ysgol Waunfawr ddechrau mis Hydref. Llongyfarchiadau i'r ymgeiswyr llwyddiannus. Yr aelodau am eleni fydd:

Bl.6: Erin Ynyr a Dafydd Harman;
Bl.5: Mared Ynyr a Peter Williams;
Bl.4: Megan Enlli a Jacob King;
Bl.3: Enlli Pritchard a Tim Williams.

Gardd yr Ysgol. Diolch i'n ffrindiau o'r Antur, dan ofal Mr Dewi Jones, am dreulio bore gyda'r plant hynaf yn twtio'r ardd ac yn plannu bylbiau a phlanhigion y gaeaf. Mae'r ardd wedi altro'n arw. Diolch i Mr Dafydd Cadwaladr am roi meinciau pren. Bydd yn braf i'r plant gael eistedd arnynt a threulio mwy o amser yn yr ardd.

Noson Gwricwlaidd. Diolch i'r rhieni hynny a fynychodd y cyfarfod nos Lun, 9 Hydref, ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig yn y Cyfnod Sylfaen. Cafwyd cyfarfod buddiol iawn dan arweiniad yr Ymgynghorydd Addysg Dan 5, Mrs Anwen Owen.

NSPCC. Bu Mr Dennis Davies o'r NSPCC yn rhoi sgwrs i'r plant yn ystod mis Hydref a bu pawb wrthi'n brysur yn casglu'r arian nodd. Diolch i bawb am gefnogi'r elusen yma sy'n gwarchod buddiannau plant. Casglwyd y swm anhygoel o £500.

Ymweliad gan PC Neil Williams. Ddydd Mercher, 11 Hydref bu'r PC Neil Williams yn trafod gyda'r plant Reolau Dosbarth a Chymdeithas. Bwlian ac achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Cafwyd sesiynau grŵp buddiol a esgorodd ar waith llafar o fewn y dosbarth. *Ymweliad y Nyrs Ddeintyddol.* I gydfynd â'n thema 'Y Corff' daeth Mrs Pragnell, y Nyrs Ddeintyddol, i'r ysgol ddydd lau, 12 Hydref. Bu'n trafod gyda'r plant sut i ofalu am y dannedd, pa fwydydd i'w bwyta a phryd yw'r adegau gorau i fwyta melysion. Y neges felly yw bwyta bwydydd iach a glanhau'r dannedd.

Gwasanaeth Diolchgarwch. Gan fod Capel Croes y Waun yn cael ei atgyweirio ni allwyd cynnal y Gwasanaeth Diolchgarwch arferol. Ymddiheuriadau am hyn, ond fe fuom fel ysgol yn defnyddio'r amser ymarfer ar gyfer paratoi'r plant gogyfer â'r Eisteddfod bentref.

Ymweliad y Babanod â'r Eglwys ym Mhenisrwaun. Bu Adran y

Babanod yn ymweld ag eglwys Santes Helen, fel rhan o'u gwaith thema yn ystod y tymor. Hoffem fel ysgol ddiolch i Anti Mary am eu tywys o gwmpas ac am wneud y prawn yn un mor ddifyr.

Ymweliad â Phlas Mawr, Conwy, a Thŷ Mawr, Wybrnant. Dydd Mercher, 18 Hydref aeth blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad addysgol i Blas Mawr a Thŷ Mawr. Roedd yr ymweliad yn cyd-fynd â'r thema dymhorol am y Tuduriaid. Cawsant ddiwrnod arbennig o dda a phleser oedd cael mynd â nhw yn ôl yr athrawon, Mrs Ann Evans, Mrs Tracy Hughes a Mr Gareth Williams.

Gwasanaeth y Cadoediad. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn neuadd yr ysgol fore Gwener, 10 Tachwedd. Plant blwyddyn 6 oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth eleni gyda phlant yr Adran lau yn cynorthwyo gyda'r canu. Gosodwyd y dorch ar y gofeb gan y ddau ddisgybl hynaf, sef Carwyn Lowe ac Erin Ynyr. Diolch i'r rhieni a phawb o'r pentref a ymunodd gyda ni ar y diwrnod.

Ymweliad blwyddyn 3 a 4 â Galeri yng Nghaernarfon. Bnawn Gwener, 10 Tachwedd aeth blwyddyn 3 a 4 i Galeri i wrando ar gerddorion o Ciwba a chymryd rhan mewn gweithdy cerddorol. Roedd pawb mewn ysbryd dawnsio wedi gwrandao ar y 'samba'.

Ymweliad Techniquet, Llanberis. Fore Llun, 13 Tachwedd, daeth Chris a Julie o Techniquet i gynnal arbrofion gwyddonol gyda phlant yr Adran lau. Cafwyd sesiwn fuddiol iawn a'r plant wrth eu boddau yn dysgu sut i greu bomiau gyda 'Alcazeler'! Gwyliwch rieni!

Ymweld ag Ysgol Syr Hugh Owen Bu plant blwyddyn 6 ar ymweliad ag Ysgol Syr Hugh Owen ddydd Mawrth, 14 Tachwedd. Roeddynt i gyd wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr ac maent yn edrych ymlaen i'w hail ymweliad yn ystod y tymor nesaf.

Cynllun Gwyrdd Ysgolion Gwynedd a Môn. Mae'n bleser gennyf ddatgan bod yr ysgol wedi derbyn Gwobr Aur, Cynllun Gwyrdd Ysgolion Gwynedd 2005-06. Mae hyn yn gryn anrhydedd gan nad oes ond ychydig o ysgolion wedi cyrraedd y nod hyd yn hyn. Diolch arbennig i Anna Williams, mam Tim a Peter, am fod mor barod i'n cynorthwyo

bob amser ac hefyd mawr ddiolch i'n cyfeillion o'r Antur. Byddwn fel ysgol yn derbyn tystysgrif a rhodd ariannol fel cydnabyddiaeth o'n gwaith clodwiw o hybu ailgylchu a datblygu amgylchedd yr ysgol.

Noson 'Body Shop'. Nos lau, 16 Tachwedd, cafwyd noson gymdeithasol yn Nhafarn y Snowdonia Parc pan gynhaliwyd parti 'Body Shop'. Er mai ychydig ddaeth i gefnogi cafwyd noson llwyddiannus. Gwnaed elw o £250 heb gynnwys y comisiwn gan y cwmni. Diolch i Carmen am ei rhodd haelionus o £100. Byddwn yn cynnal noson Rasio Ceffylau yn y dafarn ddechrau mis Chwefror. Mwy o fanylion i ddilyn ddechrau'r flwyddyn.

Plant Mewn Angen. Edrychai'r staff a'r plant yn go wahanol yn eu 'pyjamaas' ddydd Gwener, 17 Tachwedd. Diolch i awb am gefnogi. Casglwyd £200 ar gyfer cronfa Ysgol Pendalar.

Ffair Lyfrau Flynyddol. Cynhaliwyd y ffair yn ystod yr ail wythnos o fis Tachwedd. Diolch i'r staff a phlant blwyddyn 6 a gynorthwyodd gyda'r gwerthu. Gwnaed elw o £250 i'r ysgol.

Clwb Rhedeg Dal i Fynd. Bellach mae pob dosbarth wedi dechrau rhedeg yn wythnosol o gwmpas y trac rhedeg ar yr iard. Gelwir y clwb yn Glwb Redeg Dal i Fynd a disgwylir i'r plant gadw cofnod o'r pellter y maent yn ei redeg yn wythnosol. Cyflwynir tystysgrif i bob plentyn ar ôl rhedeg pellter neilltuol. Cyflwynwyd y 3 tystysgrif cyntaf am redeg 10km i Alun, Luc a Dafydd o flwyddyn 6.

Cydweithio gydag artist. Rydym wedi derbyn grant o £1,500 eto eleni gan Asiantaeth Gelfyddydol Gwynedd a Môn. Bydd yr artist, Heather Lowe, yn gweithio ar ddau brosiect yn ystod y tymor hwn, sef creu coridor lliwgar gyda phlant y Babanod a gwneud masgiau a theils yn yr odyd yn yr Antur gyda'r plant cynradd. Byddem yn ddiolchgar iawn o dderbyn potiau paent 'emulsion' o bob lliw. Dewch â'r potiau i'r ysgol os gwelwch yn dda. Does dim rhaidd i'r potiau fod yn llawn, byddem yn falch o dderbyn unrhyw beth!

Dyddiadau i'w cadw mewn cof. Cynhelir nosweithiau rhieni: 20 Tachwedd ymlaen.

Cyfarfod Blynnyddol gyda'r rhieni a'r Llywodraethwyr, 7 Rhagfyr. Cinio Nadolig: 14 Rhagfyr. Sioeau Nadolig: dydd Mawrth a dydd Mercher, 19 a 20 Rhagfyr.

Plas Mawr Conwy

Bore Mercher, 5 Hydref, fe aeth Bl.5 a 6 i Gonwy i weld Plas Mawr. Plas hardd o oes y Tuduriaid. Fe gymerodd fwy nag awr i fynd o amgylch y plas. Roedd yn lle anferth a diddorol. Dyma beth wyf ti yn ei gofio o'r lle:

Neuadd. Yma roedd y gweision yn cael eu derbyn.

Y gegin. Roedd bwrdd hir derw yma gyda llyisiau, perlyisiau a bara. Roedd lle tân anferth gyda chrochan fawr.

Pantri. Dyma ystafell oer i gadw'r cig carw, ysgyfarnog, ffesant a cholomenod ar ôl yr helfa fawr.

Y cwrn. Yma roedd y ffynnon.

Y siamber fach. Llofft y gwas drws nesaf i lofft y meist'r rhag ofn y byddai angen rhywbeth yn y nos.

Siamber y feistres. Yma roedd gwely mawr derw hefo llenni hardd, matiau o frwyn ar y llawr, bwrdd a llestri hardd, cwpwrdd dillad a chist hardd. Roedd Beibl Cymraeg agored ar y bwrdd.

Siamber fawr. Dyma'r ystafell harddaf - y brif ystafell fwyta a lle i ddawnsio - llestri piwter a gwyntell fawr a meinciau o amgylch yr ystafell.

Y tŵr. Roedd grisiau cul a throellog i dop y plas.

Y siop. Yn gwerthu nwyddau Tuduraidd - cardiau, tapiau a phethau eraill.

Roedd y plas yma yn werth mynd iddo ac yn amlwg yn hardd iawn yn oes y Tuduriaid.

BETHANY, BL.6

Ni fydd Rol Williams, Waunfawr yn anfon Cardiau Nadolig eleni. Mae yn dymuno gwyliau dedwydd a llawen i'w gyfeillion oll.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043


neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc



Plant Ysgol Waunfawr ym Mhlas Mawr, Conwy.



Plant Ysgol Waunfawr a'u hathrawon wedi bod ar ymweliad â'r Wybrnant.

Parhad Newyddion WAUNFAWR

EISTEDDFOD ARDAL

Ar nos Sadwrn, 18 Tachwedd, cynhaliwyd Eisteddfod Iwyddiannus iawn yn y pentref.

Yn beirniadu yr oedd: Cerdd: Elfed Morgan Morris; Llên a Llefaru: Beth Angell; Gwaith Llaw: Sioned Glyn; Ceginio: Rhianon Roberts. Y tîm buddugol yn y 'Steddfod nos oedd tîm Croes y Waun. Braf iawn oedd gweld llawer o wynebaw newydd yn cymryd rhan a croesawn fwy i'r 'Steddfod nesa.

Os oes unrhyw un â diddordeb mewn dod ar bwyllgor yr Eisteddfod, cysylltwch â Nia (650092). Os hoffech gyfrannu yn ariannol tuag at gostau rhedeg y 'Steddfod (cwmni neu unigolion) bydd y 'Steddfod yn ddiolchgar iawn o'r cyfraniad. Cysylltwch â Nia neu Ffion (650207). Dyma restr o'r enillwyr:

Blwyddyn Derbyn. Llefaru: 1. Elan; 2. Nel; 3. Eyllt. **Canu:** 1. Enlli; 2. Elan; 3. Nel.

Meithrin. Llefaru: 1. Iolo; 2. Iwan; 3. Tanwen/Gwion/Emily. **Canu:** 1. Iolo; 2. Iwan; 3. Tanwen/Gwion/Emily.

Blwyddyn 1. Llefaru: 1. Anest; 2. Cai; 3. Mabon. **Canu:** 1. Cai; 2. Mabon; 3. Anest.

Blwyddyn 2. Llefaru: 1. Jac; 2. Tomos S.; 3. Tomos M./Iona. **Canu:** 1. Huw; 2. Nia; 3. Tomos M./Morgan.

Blwyddyn 3 a 4. Llefaru: 1. Megan Enlli; 2. Tesni; 3. Megan Elen. **Canu:** 1. Tesni; 2. Megan Elen; 3. Sophie.

Blwyddyn 5 a 6. Llefaru: 1. Mared Rhys; 2. Mared Ynyr. **Canu:** 1. Mared Rhys; 2. Gwenllian; 3. Erin Ynyr / Shaun.

Parti Canu Cynradd: 1. Parti Megan a Tesni; 2. Parti Morgan.

Unawd Alaw Werin: 1. Gwenllian. **Unawd Piano hyd at blwyddyn 4:** 1. Megan Elen.

Unawd piano blwyddyn 5 a 6: 1. Bethanny; 2. Erin Y.; Mared Y.

Unawd Recorder blwyddyn 3 a 4: 1. Tesni; 2. ??? 3. ???

Parti Dawnsio Disgo. 1. Lois, Anest, Mared Y, Erin Y.

Unawd Offerynol Blwyddyn 5 a 6: 1. Bethanny; 2. Erin Y.; 3. Mared Y.

Cyfarfod yr Hwyr

Unawd 11-15: 1. Dafydd Deuawd Agored: 1. Gwenda a Iola; 2. Rhianon a Ffion.

Unawd 15-19. 1. Huw.

Offeryn dan 19. 1. Leah; **Efelychu cân boblogaidd - agored.** 1. Catrin; 2. Pedwarawd y post.

Unawd dros 19: 1. Eurig; 2. Gwenda / Rhianon; 3. Ffion.

Emyn. Cwpan Wmffra Jones - agored. 1. Alun; 2., Rhiannon; 3. Catrin.

Offerynol dros 19: 1. Olwen; 2. Iola / Rhiannon; 3. Catrin.

Unawd alaw werin - agored. 1. Ffion; 2. Eurig.

Carioci dros 19. 1. Alun; 2. Huw; 3. Norman.

Parti Canu / Côr. 1. Post; 2. Croes y Waun.

Grŵp cerdd creadigol. 1. Cogyddion Croes y Waun; 2. Garddwyr y Post.

Llefaru 11-15. 1. Leah.

Llefaru 15-19. 1. Pryderi.

Parti Llefaru Agored. 1. Tîm y Post; 2. Tîm Croes y Waun.

Llefaru dros 19. 1. Myra; 2. Olwen; 3. Eurig; 4. Sioned.

Dawnsio - agored. 1. Dawnsio Gwerin Tîm y Post; 2. Gweithwyr Siôn Corn Croes y Waun.

Sgets. 1. Post; 2. Croes y Waun.

Llinell Goll. 1. Dewi; 2. Olwen; 3. Norman.

Y sgôr terfynol oedd: Tîm y Post: 80

Tîm Croes y Waun: 77.

Ceginio Oedolion.

Jam cartref - agored. 1. jam eirin Mair: Beryl Jones; 2. jam mafon: Beryl Jones; 3. jam mwyar duon: Ann Jones.

Cacen i ddathlu unrhyw achlysur - agored. 1. Irene Roberts; 2. Olwen Morgan.

Unrhyw fath o bwddin - agored. (dau bwddin o safon uchel iawn yn ôl y beirniad)

1. Irene Roberts a Rob Jones.

Dosbarth Meithrin. 1. Iwan Llwyd; 2. Meilir Parry a Gwion Roberts.

Blwyddyn Derbyn. 1. Eyllt Roberts.

Blwyddyn 2. 1. Tomos Parry ac Aled Llwyd.

Blwyddyn 3. 1. Dafydd Llwyd Arlunio.

Ysgol Feithrin. 1. Efa; 2. Celine; 3. Celt a Beca.

Dosbarth Meithrin. 1. Dylan; 2. Sam; 3. Gwion.

Blwyddyn Derbyn. 1. Tomos; 2. Nel; 3. Kreena.

Blwyddyn 1. 1. Alice; 2. Elin Arwen; 3. Carwyn a Megan Glyn.

Blwyddyn 2. 1. Elis; 2. Tomos Parry; 3. Jac Davies.

Blwyddyn 3. 1. Tara; 2. Enlli; 3. Auryr.

Blwyddyn 4. 1. Cian; 2. Megan Elan / Megan Eira; 3. Megan Enlli.

Blwyddyn 5. 1. Gwenllian; 2. Shannen; 3. Ryan.

Blwyddyn 6. 1. Bethany; 2. Carwyn; 3. Stephanie / Lois.

Gwaith Cyfrifiadur.

Blwyddyn Derbyn. 1. Nel; 2. Rhonna; 3. Elan / Jack Peter.

Blwyddyn 1. 1. Marcus; 2. Carwyn / Megan Glyn; 3. Rhianon / Chloe.

Blwyddyn 2. 1. Mared; 2. Max; 3. Ashton.

Blwyddyn 3. 1. Enlli; 2. Abigail; 3. Dafydd Llwyd.

Blwyddyn 4. 1. Pauline; 2. Cian; 3. Twm.

Blwyddyn 5. 1. Kai; 2. Gwenllian; 3. Beca.

Blwyddyn 6. 1. Anest; 2. Lois; 3. Erin Haf.

Gwaith Llaw

Blwyddyn Derbyn. 1. Elan; 2. Ioan; 3. Cameron / Joshua Jones.

Blwyddyn 1. 1. Rhys; 2. Alys Davies; 3. Cai.

Blwyddyn 2. 1. Tomos Sion; 2. Connor / Ifan; 3. Elin Glyn / Elis.

Blwyddyn 3. 1. Enlli; 2. Arian; 3. Elen Margret.

Blwyddyn 4. 1. Pauline; 2. Tesni; 3. Charlotte.

Blwyddyn 5. 1. Mared Rhys; 2. Mared Ynyr / Taylor; 3. Gwenllian / Peter.

Blwyddyn 6. 1. Bethanny; 2. Lois; 3. Erin Ynyr.

CYHOEDDIR GWAITH LLÊN

EISTEDDFOD WAUNFAWR YN FUAN YN Y FLWYDDYN NEWYDD.

Cefnogwch
ein hysbysebwy

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED.

Caer Segontium. Bu disgyblion Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn ymweld â Chaer Segontium fel rhan o'i themâu Rhufeiniaid. Yn sicr atgyfnerthodd y gwaith maes yr hyn a gyflwynwyd yn y gwersi.

Nôl i'r Gorffennol. Cafwyd diwrnod hynod o ddiddorol yr wythnos ddiwethaf yn Adran y Babanod pan ddaeth Anti Mary i'r ysgol i drafod yr hen siopau oedd yn arfer bod yn y pentref. Roedd y plant wedi eu syfrdanu gyda'r holl siopau oedd yma. Fel dilyniant aethpwyd o amgylch i edrych ar eu safleoedd, gan drafod sut mae pethau wedi newid yn y pentref gyda threigl amser.

Diolch o galon. Dymuna'r ysgol ddiolch o galon i'r Cylch Meithrin am y ddwy biano ar gyfer yr ysgol a'r gymuned. Fel ysgol yr ydym yn gwerthfawrogi'n fawr. Llawer o ddiolch eto.

Operation Christmas Child. Casglwyd nifer o focsyst esgidiau yn yr ysgol tuag at yr ymgyrch a cawsant eu casglu ar 17 Tachwedd.

Noddi Haf Thomas. Casglwyd £140 tuag at noddi Haf, sy'n cymryd rhan mewn nofio noddedig tuag at Ysgol Pendalar. Bu Haf yn ymweld â'r ysgol bawn Gwener, 17 Tachwedd i dderbyn y siec.

Plant Mewn Angen. Dydd Gwener, 17 Tachwedd cafodd y disgyblion wisgo eu dillad eu hunain i ddod i'r ysgol am ddirwy o £1. Aeth yr elw tuag at elusen Plant Mewn Angen. **21 Tachwedd, Techniquet yn ymweld.** Bu Mr Ian Williams o Techniquet yn ymweld a bu'n gwneud ychydig o waith gyda'r Adran Iau.

Noson Wasael. Mae Pwyllgor y Neuadd wedi trefnu Noson o ganu carolau ac ocsiwn addewidion nos Iau, 30 Tachwedd am 6.30 o'r gloch. Bydd rhai o blant yr ysgol yn cymryd rhan.

Codi arian i'r ysgol. Bawn dydd Llun, 11 Rhagfyr, am 1.30 o'r gloch bydd parti o'r Adran Iau yn ymweld â siop Morrisons yng Nghaernarfon i ganu carolau gyda'r gobaith o gasglu arian i gronfa'r ysgol.

Ymweld â Chartref yr Henoed. Bydd plant yr Adran Iau yn mynd i Gartref Nyrsio Penisarwaun i ddiddori'r preswylwyr trwy ganu carolau ar 13 Rhagfyr.

Noson Disgo. Nos Iau, 14 Rhagfyr am 6.30 o'r gloch, cynhelir Noson Disgo a bydd cyfle i'r plant ymweld â groto Siôn Corn yn ystod y noswaith. Bydd y plant yn gwerthu rhai eitemau Nadoligaidd y byddant wedi eu creu yn yr ysgol a bydd paned a mins pei ar gael.

Cyngerdd Nadolig. Cynhelir y cyngerdd dydd Mercher, 20 Rhagfyr. Bydd dau berfformiad, un yn y prawn am 1.30 o'r gloch ac yna gyda'r nos am 6.30. Bydd tocynnau ar gael yn yr ysgol, y pris yw: oedolion £3, plant ysgol uwchradd a phensynwyr: £1.50. Arian gyda'r archeb os gwelwch yn dda.

Canu Carol Nadolig. Bydd cwmni teledu Cwmni Da yn yr ysgol ar gyfer ffilmio'r plant yn canu carol

Nadolig ar ddydd Llun, 4 Rhagfyr.

Cadw Mi Gei - Ysgol Gymuned Penisarwaun yn Elwa

Sefydlwyd Cylch Meithrin ym Mhenisarwaun yn 1989 a chael cartref dri bore bob wythnos yn Ysgol Tan-y-coed. Ym mis Chwefror 1992, ysgrifennodd Mrs Alwena Leadbitter a finnau lythyr at Brifathro a Llywodraethwyr yr ysgol honno yn gofyn am ddefnydd o ystafell ar gyfer y Cylch Meithrin yn yr Ysgol Gymuned newydd pan fyddai'n cael ei hagor yn swyddogol. Fis yn ddiweddarach, dilynwyd y llythyr hwnnw gydag un arall yn gofyn i drigolion y pentref a'r cylch am gyfraniadau ariannol tuag at bynru offer newydd i'r Cylch pan fyddai'r symud mawr yn digwydd. Canlyniad yr ymgyrch honno oedd casglu ynghyd dros £400. Penderfyniad pwyllgor y Cylch erbyn mis Gorffennaf '92 oedd mai aros yn Ysgol Tan-y-coed fyddai orau, er mwyn i'r staff a'r disgyblion oedd yn mudo o Ysgol Tan-y-coed gael ymgynffwrdd â'u hysgol newydd.

Wedi cyfnod o rai misoedd yn yr hen ysgol daeth yn amlwg mai symud yn nes at yr ysgol newydd fyddai orau a gwnaethpwyd cais am gael lleoli 'Portakabin' ar dir yr ysgol. Yn anffodus nid oedd swyddogion yr Awdurdod Addysg Lleol o blaid cefnogi ein cais o gael adeilad ar wahân ar dir yr ysgol newydd. Roedd yr ymgyrch codi arian yn parhau trwy'r cyfnod hwn ac o fewn dim yr oedd dros £2,500 yn y banc.

Yn 1994, a chyflwr yr hen ysgol yn dirywio, penderfynwyd cymryd camau pendant i gael adeilad pwrpasol ar gyfer y Cylch Meithrin. Cafwyd ar ddeall bod llain o dir, rhwng Llys Arddun a thai Llys-y-gwynt oedd yn eiddo i'r Cyngor Sir, ar gael i'r Cylch Meithrin. Roedd hwn yn lleoliad campus, er yn gul braidd, oherwydd ei fod yn gyfochrog â gwaelod iard chwarae'r Ysgol Gymuned. Erbyn hyn roedd y coffrau rhwng y Cylch Meithrin a'r Cylch 'Ti a Fi' wedi chwyddo i'r swm anrhydeddus o dros £5,000. Nid oedd hynny yn mynd i fod yn ddigon, wrth gwrs, i godi adeilad i'r Cylch, ond rhywdro yn ystod y cyfnod hwn, penderfynodd y Cyngor Sir y byddai'n caniatáu i blant oed meithrin gael eu derbyn i'r ysgol ddyddiol.

Penderfynodd pwyllgor y Cylch Meithrin ddefnyddio'r llog ar yr arian oedd mewn llaw i brynu offer at waith y Cylch 'Ti a Fi' oedd yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys. Ac fel yna y bu hi nes i'r arweinyddion benderfynu nad oedd digon o blant yn y pentref i barhau â'r Cylch. Mewn cyfarfod arbennig o'r pwyllgor rai wythnosau yn ôl bellach, penderfynwyd tros-glywddo'r arian oedd yn weddil i'r Ysgol Gymuned. Roedd digon o gyfalaf ar gael i brynu dau biano hardd iawn ac offer ar gyfer gweithredu Cynllun Rheoli Disgyblaeth 'Webster Stratton', a rhai cyfrifiaduron hefyd.

Rydym yn teimlo'n falch iawn

fel pwyllgor bod plant presennol yr ysgol a'r rhai fydd yn eu holynu yn mynd i gael budd o'r rhoddion hyn, a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer disgyblion mewn cyfnod arall yn hanes y pentref.

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS
Cynhelir prawn difyr yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen dydd Sul, 10 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch. Bydd y mynediad am ddim ond fe wneir casgliad at Gronfa yr Ambiwllans

Awyr. Dowch yn llu i fwynhau. Cewch banded a mins pei ar y diwedd.

PWYLLGOR NEUADD.
Enillwyr Clwb Cant Tachwedd oedd: Nia Oliver, Gors, Brynrefail; Ann Parry, Rhos Wian; Dafydd Evans, Sycharth.

Diolchir i Phyllis am ofalu am werthiant y Webb Ivory eto eleni.

Cynhaliwyd Noson Wasael ac Ocsiwn Addewidion nos Iau, 30 Tachwedd yn y Neuadd Gymuned

gyda Marina a Lois yn cyfeilio i'r carolau traddodiadol, eitemau gan aelodau'r Pwyllgor a chan blant yr Ysgol Gymuned. Yr Ocsiwniar oedd Eifion Harding. Dymunir diolch i bawb a gefnogodd y noson ac i'r noddwyr haelionus. Bydd rhagor o fanylion am y noson yn y rhifyn nesaf.

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Hydref oedd Mrs Eluned Jones, 2 Bron y Waun (Rhif 30). Llongyfarchiadau.

TRIP A CHINIO Y PENSIYNWYR. Dydd Sadwrn, 9 Rhagfyr, bydd y bws yn cychwyn o flaen yr ysgol am 10.30 y bore. Byddwn yn aros ym Metws-y-coed am banded ac yna ymlaen i Westy'r Sportsman, Porthmadog, ar gyfer y Cinio Nadolig. Bydd cyfle i wneud ychydig o siopa cyn cychwyn am adref am 5.30. Anfonwch eich enwau rhag blaen i Mrs Janet Ash, Commercial House.

FFAIR NADOLIG. Diolchir i bawb am gefnogi'r Ffair a gynhaliwyd nos Wener, 17 Tachwedd, ac am y gefnogaeth i'r gweithgareddau eraill yn ystod 2006, gan sicrhau cynnal cinio gwerth chweil eto eleni.

LLONGYFARCHIADAU. Pob bendith i Rhian a Darren, Tai Arthur, ar enedigaeth mab bychan, Guto Rhys - wŷr bach i Mrs Carol Jones (athrawes yn yr ysgol) a Mr Kevin Jones.

Croeso mawr hefyd i Elis Wyn, mab cyntafanedig Sioned a Martin, Llys Awel, wŷr i Michael a Janice, Tyddyn Perthi, gor-wŷr i Glenys Hughes, Caernarfon ac wŷr cyntaf i Linda ac Elfed, Plas Dulas, Waun. Pob bendith i chwi fel teulu.

GAIR O DDIOLCH. Dymuna Janice a Meical, Tyddyn Perthi a'r teulu oll ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig wrthynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl, Edgar Hughes o Gaernarfon. Codwyd £1,105 er cof amdano tuag at Ward Padarn, Ysbyty Eryri, a fu mor garedig wrtho yn ystod ei waeledd.

Yr un modd dymuna Betty Roberts, 10 Bryntirion, a'r teulu oll ddiolch am y llw cardiau, galwadau

ffôn, ymweliadau a rhoddion yn dilyn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, taid a gor-daïd addfwyn - Dafydd.

DIOLCH. Dymuna Dafydd a Rhiannydd, Caerdydd, ddiolch i bawb am y llw cardiau ac anrhegion ar enedigaeth eu mab bychan, Joseff Maredydd, brawd bach i Megan Wynne a thrydydd wŷr i Carys ac Arwel, Cae Eboni.

YR EISTEDDFOD BENTREF. Gair i adael i chwi wybod fel pentrefwyr mai dyddiad yr Eisteddfod Bentref nesaf fydd nos Wener, 11 Mai 2007.

Cynhelir Pwyllgor nos Fercher, 17 Ionawr 2007 am 7.00 o'r gloch yn yr Ystafell Gymuned. Cyfle i ddewis testunau a llunio rhaglen.

NOSON LAWEN NADOLIGAIDD. Cynhelir Noson Lawen gyda naws Nadoligaidd yn Barcud, nos Fawrth, 5 Rhagfyr. Mae ticedi ar gael gan Mrs Elizabeth Jones (872421). Darperir bws a fydd yn cychwyn wrth yr ysgol am 6.30. Tocynnau £5. Bydd yr elw tuag at yr Eisteddfod Bentref. Croeso i bawb.

YSGOL SUL BOSRA. Fore Sul, 12 Tachwedd, bu'r plant a'r athrawon yn cofio am fechgyn o'r capel a syrthiodd yn y Rhyfel, ynghyd â'r hogiau o'r pentref a enwir ar y Gofeb tu allan i'r eglwys.

Mae'r bwrdd a gyflwynwyd i'r Ysgol Sul yn fendithiol iawn yr adeg yma o'r flwyddyn - mae'r plant wrth eu boddau yn cael lliwio a gwneud gwaith llaw. Maent eisoes wedi dechrau peintio eu cardiau Nadolig hefo Anti Bronwen.

Cynhelir Sul y Teulu gyda Mr Merfyn Jones, bnawn Sul, 17 Rhagfyr. Cymerir rhan gan y plant a'r athrawon a gweinyddir y Cymun Bendigaidd. Mae'n siŵr y daw ymwelydd go arbennig i weld y plant. Croeso cynnes i bawb.

'STABLAU SEREN'. Dyma ail lyfr gan Eurgain Haf ar gyfer plant Adran Iau Ysgol Gynradd. Hanes Seren sy'n byw mewn canolfan ferlota ac un sydd wedi gwirioni hefo'i cheffyl, Eboni. Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur a chyffrous - hoffech chi gael yr hanes? Mae'r llyfr ar werth yn awr gan Wasg y Dref Wen. Llongyfarchiadau, Eurgain, a phob dymuniad da eto i'r dyfodol.


EGLWYS SANTES HELEN. Am 11.00 o'r gloch fore Sul y Cofio cynhaliwyd gwasanaeth wrth y Gofeb i gofio'r bechgyn a syrthiodd yn y Rhyfel, gyda Huw Tegid yn arwain y gwasanaeth.

Rhagfyr 17. ceir gwasanaeth Naw Llith a Charol am 3.30 o'r gloch. Bydd aelodau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar 14 Ionawr.

RHAGFYR 25. DYDD NADOLIG. Am 10.00 y bore gweinyddir y Cymun Bendigaidd gan y Parch Tegid Roberts. Coreso cynnes i bawb. Atogffir aelodau'r Eglwys y bydd y Llyfrau Ariannol yn cau ar 31 Rhagfyr.

RHAGFYR 31. Cynhelir Gwasanaeth Boreol am 10.00 Bydd y Llyfrau Ariannol yn cau ar y diwrnod hwn.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y gwynt, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, frindiau a chymdgon.



Haf Thomas yn drebyn sic o £140 tuag at Ysgol Pendalar.



Casglwyd nifer o focsus tuag at Ymgyrch y Plentyn.



Aelodau o'r pwyllgor: Mrs Carys Williams (Trysorydd), Miss Phyllis Ellis (aelod cyfetholedig), Mr Gareth Fôn Jones, Pennaeth yr Ysgol a'r Parchedig Tegid Roberts (Cadeirydd) yn y seremoni o gyflwyno'r offer i'r ysgol bore dydd Iau, 16 Tachwedd.

BETHEL

Geraint Elis, Gilgeran. Ffôn: (01248) 670726



Prif Lenorion Eisteddfod Bethel ac aelodau'r Orsedd. Prif Lenor Uwchradd: Siôn Elwyn Hughes a'r Prif Lenor Cynradd: Guto Griffiths.

EISTEDDFOD BENTREF

Gafwyd eleni eto Eisteddfod lwyddiannus iawn, gyda'r gweithgareddau yn cychwyn nos Fawrth, 14 Tachwedd, gyda chystadlaethau dawnsio. Y dydd Sadwrn canlynol y cynhaliwyd y cystadlaethau llwyfan a chafwyd cystadlu o safon uchel iawn drwy'r dydd.

Y beirniaid oedd Wendy Jones (Dawnsio); Mair Hughes (Cerdd); Eifion Harding (Llefaru); Mair Price (Llên) a Robin Williams (Celf). Diolchodd Llywydd y Pwyllgor i bawb oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant yr Eisteddfod, a dymuna'r Pwyllgor ddiolch i gyfeillion yr Eisteddfod am y rhoddion ariannol ac am gyflwyno tlysau bach i'w cadw am byth i enillwyr y tariannau.

Enillydd Tlws y Llenor Uwchradd oedd Siôn Elwyn Hughes, Bl.10, ac enillydd Tlws y Llenor Cynradd oedd Guto Siôn Griffiths, Bl.6.

CAPEL Y CYSEGR. Roedd nifer dda o gyfeillion a theuluoedd yn ogystal â'r gynulleidfa arferol yn bresennol yn ddiweddar ar gyfer Sacrament o Fedydd. Y Parchedig Marcus Wyn Robinson oedd yng ngofal y ddau fedydd, a chafwyd gwasanaeth bendithiol a chartrefol iawn yn ei gwmni. Y ddau blentyn bach oedd Beca Fflur, merch Helen a Merfyn Morris, 29 Bro Eglwys, ac Iddon Griffith, mab Amanda a William Griffith Jones, 4 Stad Eryri.

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS Cynhelir pnawn difyr yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen dydd Sul, 10 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch. Bydd y mynediad am ddim ond fe wneir casgliad at Gronfa yr Ambiwllans Awyr. Dowch yn llu i fwynhau. Cewch banded a mins pei ar y diwedd.

CLWB BRO BETHEL. Beti Owen oedd y wraig wâdd yng nghyfarfod mis Tachwedd ac, yn dilyn gair o groeso gan y Llywydd, Goronwy Jones, cafwyd sgwrs ddiddorol ganddi gyda chymorth sleidiau.

Soniodd am daith gerdded y bu iddi hi a nifer o gyfeillion Cymdeithas Edward Llwyd ei gwneud ar hyd arfordir Sir Benfro a'r Preseli. Roedd y golygfeydd yn drawiadol iawn a chafwyd nifer o ddarlleniadau i gyd-fynd â'r llefydd a ddangoswyd. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi ac hefyd i Seiriol am fod yng ngofal y taflunydd, gan Elizabeth Evans.

Hysbyswyd yr aelodau mai yn Y Bedol y bydd y cyfarfod nesaf, a hynny ar ddydd Mawrth, 5 Rhagfyr, am 12.00. A wnaiff pawb sy'n dymuno dod i'r Cinio Nadolig ofalu llenwi'r papur gyda'u dewis o fywd a'i anfon, gyda'r arian, i Eunice Roberts, 4 Stad y Rhos, neu i Gwyneth Williams, Llain yr Ardd, erbyn 30 Tachwedd.

Enillwyd tariannau gan y canlynol: Cynradd: Piano: Rhidian Price; Offeryn: Gwawr Jones; Lleisiol: Rhidian Price; Llefaru: Mari Tachwedd; Dawnsio Disgo: Lois Jones.

Uwchradd: Lleisiol: Ceri Griffith; Offeryn: Cai Jones; Piano: Siôn Elwyn Hughes; Llefaru: Ceri Griffith; Celf: Ifan Bryn Jâms; Dawnsio Disgo: Danielle Cavanagh.

CAPEL BETHEL. Cynhaliwyd gwasanaeth llewyrhus o Diochgarwch gan blant yr Ysgol Sul ar 15 Hydref. Y thema eleni oedd 'Coed'. Cyfrannwyd £100 o gasgliad tuag at Ysgol Pendalar.

NEUADD GOFFA. Enillwyr y Clwb 200 oedd:

Awst: £40: (124) Margaret Eckley, Gerddi; £20: (42) Glenys Griffiths, Llwyn Eithin; £10: (41) Nan Owen, Berwyn, Saron.

Medi: £40: (163) Ffion Jones, Bryn Tirion; £20: (167) Idris Rees, 6 Y Rhos; £10: (91) Ceris Williams, 1 Tan y Cae.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth. MERCHED Y WAWR. Yn y Llyfrgell yng Nghaernarfon y cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd. Croesawyd pawb gan y Llywydd, Anne Elis, a braf oedd gweld cymaint wedi mentro i lawr i'r dre. Llongyfarchwyd Deilwen Hughes ar ei phenodi yn bennaeth

yr Adran Gerdd yn ysgol Dyffryn Nantlle a hefyd Siôn a Manon ar eu llywyddiant yn Eisteddfod Deiniolen. Da deall fod Carwyn John, mab Lynwen, wedi dychwelyd adref yn saff wedi rhedeg Marathon Efrog Newydd a hefyd am lwyddiant Siân Davies mewn Sioe Wnïo yn Llundain. Braf oedd gweld Elisabeth Evans wedi gwella ar ôl triniaeth a dymunwyd pen-blwydd hapus i Ceinwen Roberts a oedd yn 80 oed yn ddiweddar.

Cawsom groeso cynnes i'r Llyfrgell gan Nia, Rhiannon a Gwen a chawsom noson hwyliog yn cael blas ar wrando darlleniadau o wahanol lyfrau a hefyd mwynhau gwin a siocled. Diolchwyd i'r tair ar ein rhan gan Alys Jones. Enillydd y raffl, rhoddedig gan Nora Parry oedd Anne Elis.

Bu tri thîm yn cystadlu yn y Cwis Cenedlaethol. Margaret Druce fu'n gosod y dorch ar ein rhan ar Sul y Cofio. Bydd y cinio Nadolig yn cael ei gynnal yn y Country Manor nos Fercher, 13 Rhagfyr am 7.30 o'r gloch. A fyddwch mor garedig â dychwelyd y ffurflen 'dewis o fywd' ynghyd â'r arian i Rita, Anne neu Nora erbyn 1 Rhagfyr.

CLWB PÊL DROED. Enillwyr Clwb Cant Mehefin oedd: £100: Iolo Owen; %50: John Bryn; £25: John Cefn a Huw P. Hughes. Gorfennaf: £100: Mark Herbert; £50: Dyfan Elis; £25: Lona Jones a Julie Williams.

Awst: £100: Sion Foulkes; £50: Huw Cefn Gwyn; £25: Gethin Roberts ac Idris Morris.

Medi: £100: Dafydd Williams; £50: Vernon Orrit; £25: H.P. Hughes ac Ellen Foulkes.

Y DDAMWAIN

Gan Siôn Elwyn

(Tlws Llenor Uwchradd)

Roedd hi'n agosáu at hanner nos un Calan Gaeaf. Udodd rhywbeth â sŵn hirfaith, ysbrydlon, gan roi ias oer i lawr asgwrn cefn pawb o fewn clyw. Roedd hi'n lleuad iawn, a honno fel pelen ping-pong yn yr awyr, ac yn goleuo'r rhodfa dywyll. Ond bob hyn a hyn âi y tu ôl i gwmwl - fel petai'n profocio'r sawl a gerddai ar hyd y lôn fwganllyd. Ynglwm wrth ambell ddrws, roedd balwnau oren, ac ar linteri ffenestri, pwpenni wedi eu cerfio ar ffurf wyneb dychrynlyd.

Ymhellach i fyny'r lôn, roedd parti ar droed mewn tŷ crand a hen yr olwg. Roedd hi'n amlwg fod trefnwyr y parti hwn yn ymddangos fel pe na baent am ildio i'r nos ac yn bwriadu bwrw ymlaen â'r parti, er gwaethaf cwynion parhaus eu cymdogion. Er ei bod hi'n noson eithaf llonydd, gwnâi goleuadau strôb y parti iddi edrych fel pe bai'n storm o felt a tharanau gwyllt. Bloeddiad cerddoriaeth roc trwm o bob ffenest yn y tŷ, a'r llinell fas fel curiad calon yn hawlio ei le yng nghaddug y nos.

Ar ochr arall y ffordd, yn rhedeg tuag at ganolbwynt y sŵn, roedd dau fachgen ifanc,

tua deunaw oed, yn chwerrthin yn iach efo'i gilydd. Gwyddent eu bod yn hwyr iawn, ond fe gollodd y ddau olwg ar yr amser yn llwyr tra oedden nhw'n mwynhau ffilm ar y teledu, ac yn yfed can o lager yr un. Daethant at ochr y ffordd, rhyw bedwar tŷ oddi wrth y parti, a chroesi. Roedd y ddau wedi bod yn gweithio ar eu gwisgoedd ffansi am wythnosau. Gwnaethai un ohonynt ddau fwgwd a oedd yn edrych fel wyneb hen ŵr, tra bu'r llall yn paratoi dilladau i'r ddau ohonynt. Gwisgent grysau a brynwyd yn rhad yn Oxfam ynghyd â throwsusau gwaith crebachlyd - rhai a oedd yn amlwg wedi gweld eu dyddiau gwell. O dan fraich un roedd ffon bren ac aeth y llall mor bell â gwisgo hen sliperi patrwm tartan, llac am ei draed! Ni feddylion nhw am edrych a oedd y ffordd yn glir wrth gamu i'r lôn gan ei bod hi'n noson mor ddistaw a digyffro. A beth bynnag, anaml iawn yr oedd yr un car yn gyrru drwy'r rhodfa, yn enwedig yn y nos fel hyn.

Yn y tŷ lle'r oedd miri'r parti'n symud at uchafbwynt, roedd y sŵn wedi dechrau distewi gan fod y trac yn dod at ddawns araf y noson yr oedd pob bachgen un ai'n edrych ymlaen ati, neu yn ei hofni i'r eithaf. Daeth pawb at ei gilydd, o bob cwr o'r tŷ i'r brif ystafell lle'r oedd rhai cyplau'n dawnsio'n barod. Roedd pawb fwy neu lai wedi cael gafael yn rhywun i ddawnsio, ambell un yn unig oedd yn dal i eistedd yn edrych i mewn i'w cwpanau, fel petaent yn disgwyl i ferch neu fachgen eu breuddwydion lamu allan ohono a dechrau dawnsio efo nhw. Pwysodd Liam, trefnydd y parti, y botwm chwarae ar y rheolydd symudol a phrysuro at ei bartner ei hun. Roedd popeth yn mynd yn iawn, nes i'r chwaraewr CD benderfynu cael hoe fach. Yn ddi-symwth a di-rybudd, digwyddodd rhywbeth i'r CD a thawodd y gerddoriaeth, yn union fel sŵn DJ yn rhwbio recordiau, a stopiodd pawb ddawnsio. Protestiodd rhai wrth Liam, ond doedd ganddo ddim eglurhad i'r rhai a gwynai. Fodd bynnag, yn fuan iawn, daeth y gerddoriaeth yn ôl, a phawb yn gafael mewn cymar unwaith eto, ac yn hapus eu byd.

Ond ar yr adeg y bu i'r chwaraewr stopio, ar ben hanner nos, dyma'r adeg pan fu i'r lleuad chwarae mig, adeg pan fu i gar tywyll sefyll ar ei frêcs er mwyn ceisio osgoi dau ffigwr tywyll yn rhedeg ar draws y ffordd. Adeg pan fu i sŵn teiars car feddiannu'r aer am 'chydig eiliadau. Adeg pan fu i amlinelliad dau berson ddisgyn ar y lôn, heb floedd na gwaedd. Adeg pan fu i gar tywyll, a marc



Enillwyr Blwyddyn 3 a 4.



Enillwyr Blwyddyn 1 a 2.



Enillwyr y Dosbarth Derbyn.




Enillwyr Blwyddyn 5 a 6.



Enillwyr Blwyddyn 5 a 6.



Gwawr Jones a Rhydian Price, enillwyr y tlysdau offerynnol.



Rhydian Price, enillydd y Tlws Cerdd a Mari Tachwedd, enillydd y Tlws Llefary.



Parti canu Blwyddyn 1 a 2.



Plant Meithrin ar y llwyfan.

ar ei fymper, actio fel pe na bai dim wedi digwydd.

* * *

Roedd hi'n fore braf, hirfelyn, a oedd yn anarferol iawn ddiwrnod ar ôl Calan Gaeaf. Nid oedd un cwmwl du yn yr awyr. Amlinellai'r haul bob cwmwl gyda llinell o aur. Llenwai'r glesni'r awyr o amgylch y cymylau fel patrymau jig-so. Stopiodd y car Heddlu am hanner awr wedi un ar ddeg y bore y tu allan i'r tŷ yn y rhodfa hardd, a'i choed fel petaent yn ffurfio bwa plethedig yn arbennig i gyfarch eu hymwelwyr i'w preswylfa. Camodd y ddau allan a chlywasant sŵn yn dod o dŷ ychydig i lawr y lôn. Roedd hi'n amlwg fod rhyw fath o barti Calan Gaeaf wedi bod yn y tŷ hwnnw. Roedd banneri a balwnau ar y lawnt y tu allan i'r tŷ. Gwelodd y ddau swyddog ddau fachgen ieuanc yn llusgo'u hunain allan drwy'r drws ffrynt, eu gwallt yn anniben, a'u dillad wedi'u gwisgo y tu chwith allan. Roedd un, hyd yn oed, yn dal ei afael yn dynn mewn gwydriad plastig o gwrw. Yna'n disgyn drachefn, fel coeden yn cael ei thorri, ar y lawnt, a rhochian cysgu. Penderfynodd y swyddogion anwybyddu'r ffolineb, a throi i wynebu'r tŷ. I fyny'r dreif â nhw, gan basio car tywyll, tuag at y drws ffrynt. Daeth dyn eithaf tal a main at y drws a gwahodd y ddau awdurdod i mewn. Nid oedd angen i'r dyn na'i wraig ofyn ai newyddion da ynteu ddrwg oedd wedi cyrraedd eu drws ffrynt. Safai PC Dafis a Sarjant Hughes mewn ffordd na allai awgrymu mwy na newyddion drwg.

'Mae arna i ofn mai newyddion drwg sydd gen i i chi, Mr a Mrs Pari. Yn gynnar y bore yma, bu farw eich mab.' Adroddodd y Sarjant y stori i gyd. Y stori am sut fu i'w mab, a'i ffrind, Meical, gael eu lladd mewn damwain. 'Fedra i wneud rhywbeth i helpu?' Roedd y Sarjant yn gwybod yr ateb cyn iddo ofyn, ond roedd hi'n orfodol arno i holi. Dechreuodd y fam wylo. Roedd ei byd wedi'i droi â'i ben ucha'n isa. Ni allai gredu - mae'n rhaid mai celwydd oedd y cyfan! Wrth iddi sylweddoli beth oedd wedi digwydd iddi, aeth hi i feichio crio, fel pe na bai ganddi reolaeth arni hi ei hun. Udodd yn aflywodraethus, ac fe allai'r Sarjant deimlo'i thristwch yn drwm yn yr aer. Er nad oedd hyn yn newydd iddo, nid oedd y profiad yn dod fymryn yn haws. Nid oedd dim siw na miw yn dod o weddill y tŷ, ond roedd crio'r fam yn ddigon i lenwi pob ystafell â galar a gofid. Yn ddigon i gyffwrdd calon unrhyw un a wradawai. Safai'r tad yn berffaith llonydd. Syllai ar

ddim.

'Wel,' ochneidiodd PC Dafis ar ôl iddyn nhw gau'r drws ffrynt a chamu allan. 'Doedd hynna ddim yn bleserus iawn, nagoedd?'

'Meddylia amdany'n nhw ta, Hari. Y ddau deulu. Meddylia be sy'n mynd trwy eu meddyliau nhw. Pethau bach. Ma'u byd nhw'n deilchion.'

* * *

Roedd hi'n noson oer, rhewllyd, noson debyg iawn i'r noson Galan Gaeaf rai wythnosau'n ôl. Parti pen-blwydd deunaw oed Tomos oedd yn cael ei gynnal, ac roedd pawb wedi'u gwahodd wythnosau ynghynt. Mynychodd bawb a oedd i fod i ddod i'r parti, ond am ddau. Bu dau ar goll gydol y noson. Bu dau ar goll ers wythnosau. Mi fydd dau ar goll am byth.

Roedd y sŵn yn dod o'r tŷ yn fyddarol, a'r tŷ dan ei sang. Cwynodd rhai cymdogion drachefn, ond, ofer fu eu cegau parhaus.

'Ha! Does dim isho gofyn o lle ma'r sŵn 'na i gyd yn dod! Tyrd, rhag i ni fod yn hwyr.'

Daeth y ddau fachgen at y pafin, a chroesi. Ni fu rhaid iddynt edrych gan mai prin iawn oedd y traffig ar y lôn unig hon yn y rhodfa. Aeth y ddau at ddrws ffrynt y tŷ, a oedd yn lled-agored. Camodd y ddau i mewn, a mynd yn syth i chwilio am Tomos. Gwaetha'r modd, ni fu'r chwilio'n llwyddiannus. Tra aeth Meical i lafoerio ar y bwyd a'r danteithion, aeth Arwyn i edrych pwy welai yn y parti i siarad â nhw. Daeth at ferch yn pwyso ar wal, a chyffyrddodd hi ar ei hysgwydd. Trodd hi rownd cyn gyflymed â sglefriwr ar iâ, ac edrych i gyfeiriad Arwyn.

'Noswaith dda!' dywedodd.

Ni atebodd y ferch o gwbl. Roedd hi fel petai'n edrych drwy Arwyn ac ar draws yr ystafell.

'O! Bydd fel'na ta, surbwch,' wfftiodd, a cherdded i ffwrdd. Aeth i mewn i'r gegin lle gwelodd Meical yn ceisio cynnal sgwrs â un o'i hen ffrindiau.

Ar ôl ychydig, dechreuodd Arwyn a Meical deimlo fel petaen nhw wedi dod i'r parti anghywir. Roedd pawb oedden nhw'n eu hadnabod yn eu hanwybyddu. Meddyliodd y ddau be allen nhw fod wedi'i wneud i gynddeiriogi pawb i'r graddau yma.

'Wel,' sa'n well i ni ei throi hi am adra felly - dim pwynt i ni fod yn fan'ma. Tyrd,' meddai Meical.

'Ia, syniad da.' Felly, i ffwrdd â nhw trwy'r drws ffrynt ac am adre'. Pan gyrhaeddodd nhw dŷ Arwyn, ffarweliodd y ddau, ac i mewn ag o. Clywodd ei fam a'i dad yn siarad yn yr ystafell fyw. Aeth at y drws a cherddodd drwyddo. Safodd o flaen ei rieni

gan wrando ar eu sgwrs. Ni dalodd yr un o'r ddau'r sylw lleiaf iddo, dim ond ei anwybyddu'n llwyr.

'Mam? Dad?' holodd. Ni chafodd ateb. Edrychodd ar wyneb poenus ei fam. Ceisiodd eto. Dim ateb drachefn. Cododd ei ben ac edrychodd i mewn i'r drych. Ni welodd ddim. Dim

ond llun perffaith o'r ystafell fyw y tu ôl iddo.

'O, Falmai. Dw i'n colli Arwyn. Fy mai i 'di o i gyd.'

'Be ti'n feddwl cariad?' gofynnodd Falmai.

'Wel, wyt ti'n gweld, pan oedden ni'n dod o barti John a Charlotte, 'ti'n cofio ni'n taro dau hen ddy'n, wel...'

CERDD I'R HAUL

Guto Griffiths, Blwyddyn 6
(Llenor Buddugol Cynradd)

Brwd fel lafa mewn llosgfynydd o'r enw Etna yn ffrwydro dros Sicily. Disglair fel yr afon Nil pan mae hi yn braf yn yr Aifft.

Fflamadwy fel coelcerth yn Beaumaris ar Noson Tân Gwylt. Anferthol fel eliffant yn India yn cerdded tuag at y bobl yn Delhi. Fflachio fel golau ar gar yr heddlu yn dilyn rhwyun drwg mewn

Mazda mx5.

Tanbaid fel Ronaldo yn chwarae pêl-droed ar y tywod yn Rio de Janeiro. Oren fel rhan o faner Iwerddon.

Claerwyn fel diamwnt yn Llandudno yn H. Samuel.

Berwedig fel tân yr Olympics sydd byth yn mynd i ffwrdd.

Hylosg fel tân Llundain yn llosgi y pla du i ffwrdd.

Seren fel Seren wib yn y gofod yn y nos.

Aruthrol fel adeilad yr Empire State yn Efrog Newydd.

Eang fel Tw'r yr Eiffel yn Paris.

Crwn fel Cwpan y Byd 2006 yn yr Almaen.

Cyflawn fel pêl aer ar y traeth yn Llandudno.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYMUNA Margaret a Tony Ellis ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu pen-blwydd priodas rhuddem yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Sara a Simon Stacey, 2 Gerlan Terrace, Gerlan, ar enedigaeth eu mab, Joseph John ar Dachwedd 11eg yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Hefyd llongyfarchiadau mawr i Nain, sef Shirley Davies, Tan Bryn!

PEN-BLWYDD hapus iawn i Margaret Ellis, 5 Nant Ffynnon fydd yn 60 ar y 10fed o Ragfyr. Pob hwyl ar y dathlu!

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS Cynhelir pawns difyr yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen dydd Sul, 10 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch. Bydd y mynediad am ddim ond fe wneir casgliad at Gronfa yr Ambiwlans Awyr. Dowch yn llw i fwynhau. Cewch banded a mins pei ar y diwedd.

DRAENOG

Daeth i sylw'r Draenog fod amaethwr o ardal Bethel wedi creu ei ddameg ei hun - Dameg y Ci Defaid Colledig! Doedd fawr o Gymraeg rhwng y ffermwr a Jab, y ci, ac ymhen ychydig roedd y ci wedi mynd yn AWOL - sefyllfa praid yn drist!

Rhaid oedd hysbysu'r Heddlu, ac o fewn ychydig ddyddiau cael gwybod fod Jab wedi ei ddarganfod ar ffordd osgoi y Felinheli. Y 'Samariad trugarog' oedd myfyriwr o Fangor, ac anelodd y ffermwr torcalonnus draw i'r ddinas i hebrwng Jab yn ôl.

Croesawyd y ffermwr gan ferch ifanc hynod o dlos, ac yno roedd Jab yn gorwedd yn fodlon braf ar y carped yng nghynhesrwydd y fflat moethus. Ei lygaid yn pefrio bron iawn cymaint â'i berchennog. Ei gôt yn sgleinio ac arwyddion o

orfwydo pendant. Yn wir roedd hyn yn wir - a mwy! Roedd y lodes hardd wedi mynd â Jab at y Vet, wedi rhoi sgwrfa dda iddo ac wedi ei fwydo hyd syrffed. Yn wir, roedd wedi mynd â'r ci adref gyda hi dros y penwythnos i'w chartref yn Rhydychen bell.

Mae'r Draenog ar ddeall fod yn rhaid i'r amaethwr bron iawn â llusgo'r ci o'r fflat cynnes a'i 'berchennog' groesawgar.

Wel, dyna ni. Hyd yn oed y ci defaid yn cael mynd i Rhydychen. Dim byd ond y gorau i hogia - a chŵn - Nant. 'Where there's a Wil, there's a way.'

SUL Y COFIO 2006

I'w tranc o hyd â'r llanciau - a'u haberth
Ar gydwobod oesau;
A gwn mai bedd heb ei gau
Yw'r maen sy'n drwm o enwau.
R.L.J.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yng Nghanolfan y Capel, Caeathro ar nos Lun, 23 Hydref. Y Cadeirydd oedd y Cyng. Clive James, gyda'r Cyng Vera Roberts hefyd yn bresennol. Croesawyd Ms Sian Jones (01286 650074) fel y Clerc dros dro.

Mae'r Heddwes Gwyn Parry wedi cytuno i gadw llygad ar y parcio anghyfreithlon ar y pafin dros y ffordd i Garej Gwalia. Nid oedd ymateb gan Gyngor Gwynedd i'r gor-yrro i'r gorllewin o'r cylchdro, nac ar natur wyneb y ffordd drwy'r pentref.

Penderfynwyd cynnig cymhorthdal o £250 i Gymdeithas Cae Chwarae Caeathro; £150 i dorri gwair y fynwent; £100 i Glwb y Merched a £50 i'r Ysgol Sul.

Adroddwyd fod Gyngor Gwynedd wedi rhoi caniatâd cynllunio am sied amaethyddol ym Mryn Edern. Bydd gofyn i Gyngor Gwynedd ddarparu pafin yr holl ffordd i siop y pentre neu leihau llif y traffig o blaidd cerddwyr.

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS Cynhelir pnawn difyr yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen dydd Sul, 10 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch. Bydd y mynediad am ddim ond fe wneir casgliad at Gronfa yr Ambiwllans Awyr. Dowch yn llw i fwynhau. Cewch banded a mins pei ar y diwedd.

LLYFRAU NEWYDD. Llongyfarchiadau i Reg Chambers Jones ar gyhoeddi ei seithfed llyfr, sef *The Llanberis Slate Quarry 1780-1969*. Y cyhoeddwyr yw Bridge Books, Wrecsam, a'r pris yw £16.99. Syniad ardderchog ar gyfer anrheg Nadolig.

Un arall ar gyfer yr hosan yw llyfr newydd gan Emily Huws. Llyfr ar gyfer pobl ifanc, oedran 10-13, yw *Lol neu Lwc*, yn adrodd hanes geneth ifanc yn ceisio darganfod be ddigwyddodd i'w mam. Cyhoeddir gan Wasg Gwynedd, Caernarfon a'r pris yw £4.95.

CLWB MERCHED. Cafwyd noson arbennig o ddifyr yng nghwmni Ms Esmee Dyson, nos Iau, 2 Tachwedd. Daeth nifer o'r aelodau â darnau diddorol o emwaith gyda hwy i'r cyfarfod a chafodd pawb

eu plesio - ambell un yn fwy na'r llall - gan sylwadau manwl Ms Dyson.

Roedd y cyfarfod nesaf nos Iau, 30 Tachwedd yng nghwmni Mrs Jan Jones a oedd yn ein cymell i wneud ein addurniadau Nadolig ein hunain allan o blanhigion. Erfynwyd ar i bawb ddod ag ychydig ddarnau o wyrddni gyda hwy i'r cyfarfod.

Cynhelir Cinio Nadolig y Clwb eleni ar nos Wener, 8 Rhagfyr, yn y Vaynol Arms, Pentir. Bydd angen enwau, dewis o fwyd, ynghyd â thâl llawn am y cinio i law os gwelwch yn dda.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am fis Tachwedd oedd: £40: (113) Dennis Ratcliffe, Tyddyn Cae; £25: (20) Ifor Hughes, Lleifiôr; £15: (12) Geraint Bowen, Cefn Coed; £5: (54) Peris Thomas, 4 Bryn y Gof.

Diolch i haelioni parhaol yr hapchwaraewyr bydd y Pwyllgor unwaith eto yn medru darparu nifer o ddigwyddiadau dros gyfnod y Nadolig.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Digwyllir y canlynol i wasnaethu yn ystod mis Rhagfyr:

3: 11.00 Ysgol Sul
10: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Gwenda Richards
17: 10.00 Pasiant Nadolig gan yr Ysgol Sul

24: 5.30 Gwasanaeth (byr) Noswyl Nadolig.

FFAIR NADOLIG. Bydd Ffair Nadolig yng Nghanolfan y Capel am 6.30 nos Iau, 7 Rhagfyr. Croeso i bawb.

PARTI PLANT. Bydd Parti Nadolig i blant oed ysgol gynradd neu iau yng Nghanolfan y Capel am 5.30 nos Lun, 18 Rhagfyr. Pwy sy'n dod yn hwyrach ymlaen gyda'i sach, tybed?

CANU CAROLAU. Bydd Seindorf Iau Llanrug yn arwain y canu carolau o dan y coed Nadolig fydd wedi eu goleuo yn sgwâr y pentref am 6.30 nos Fercher, 20 Rhagfyr, gyda chawl cartref i bawb.

TYNFA NADOLIG. Tynnir y peli bonws ar gyfer y Nadolig yn ystod cyfarfod mis Rhagfyr o Bwyllgor Cae Chwarae Caeathro, am 8.00 o'r gloch nos Lun, 20 Rhagfyr, yn Nhafarn Bryngwna.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhelir Ffair Nadolig y gangen yng Nghanolfan Dylunio a Menter Eryri ddydd Llun, 4 Rhagfyr, rhwng 2 a 5 o'r gloch.

MARCHNAD. Cofiwch am Farchnad y Ffermwyr a gynhelir dydd Gwener, 8 Rhagfyr, ym maes parcio Mynydd Gwefru, Llanberis. Os bydd cefnogaeth dda bydd y farchnad yn cael ei chynnal yn fisol o fis Chwefror 2007 ymlaen.

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS Cynhelir pnawn difyr yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen dydd Sul, 10 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch. Bydd y mynediad am ddim ond fe wneir casgliad at Gronfa yr Ambiwllans Awyr. Dowch yn llw i fwynhau. Cewch banded a mins pei ar y diwedd.

COFION. Anfonwn ein cofion at rai o'n pentrefwyr nad ydynt yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Mae Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian, a Malcolm Jones, 4 'Rallt ers peth amser yn Ysbyty Gwynedd a bu Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, yn derbyn gofal yno ar nifer o achlysuron.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. BLYCHAU ANRHEGION NADOLIG. Cyfrannodd llawer o'r aelodau eu rhoddion arferol i ymgyrch 'Blychau anrhegion y plant'. Mae ein diolch am y trefnu blynyddol hwn i Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog ac i G. Hefin Jones am gynorthwyo gyda'r cludo i'r

Parch John Pritchard i Lanberis. OEDFAON RHAGFYR

3: 5.30. Parchg. Trefor Jones, Caernarfon. Gweinyddir y Sacramento o Swper yr Arglwydd.

10: 5.30: Parchg. S.O. Hughes, Bae Colwyn

17: 5.30: Parchg. Reuben Roberts, Bontnewydd

24: 10.00 **Gwasanaeth i Ddathlu'r Nadolig** dan nawdd yr aelodau

31: Parchg. Gwynfor Williams, Caernarfon.

BRYSIWCH!

Archebwch eich
TWRCI NADOLIG
a'ch CYW IÂR
a CHIGOEDD
ERAILL
RŴAN



oddi wrth

WAVELL'S

Bryn ac
Angela Williams

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon 673574

PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI

Tan y Coed

Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn
872276

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant i John Parry a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei frawd, leuan, o Garmel yn ddiweddar.

MYNYDD GWEFRU LLANBERIS Cynhelir pnawn difyr yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen dydd Sul, 10 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch. Bydd y mynediad am ddim ond fe wneir casgliad at Gronfa yr Ambiwllans Awyr. Dowch yn llw i fwynhau. Cewch banded a mins pei ar y diwedd.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc -
allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

**GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK**

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

Colofn y Plant



Clwtyn Criw Triw

Blant, Blant,
Be' wnewch chwi o hwn?
Daeargi ydi o sy'n hoff o sbecian
o du ôl cyrten ffenest cymydog
imi. Ni chaiff neb fynd yn rhy
agos ato, oherwydd mi
ddechreuith chwyrnu a chyfarth
fel peth o'i go. Pam tybed?

Flynnyddoedd yn ôl roedd 'na
gi o'r enw Siôn yn byw yn yr un
pentref â fi. Gan fod ei
berchennog yn methu cerdded
ymhell arferwn fynd ag ef am
dro. Un digri ar y naw oedd
Siôn. Er gweiddi arno,

'Siôn! Siôn! Tyrd rwan,
mae'n bryd mynd adra,' doedd o
byth yn fy nghlywed i! Wel!
Wel! Mi gymerai mêt arno nad
oedd yn fy nghlywed! Mi roedd
ganddo glustiau meinion.
Clustiau a allai glywed y smicyn
lleia!

Pan fyddai'n dywydd poeth
mi fyddwn yn gorfod mynd i
chwilio amdano, a dyna ble y
byddai ar ei fol yn gorwedd yng
nghanol ffos fwdlyd, a'i gorff

gwyn fel eira cyn ddued
â glo! Mi fyddwn yn
gorfod aros amdano,
eistedd ar ochr y ffos
hyd nes y penderfynai ef
ei bod yn bryd mynd
adref. Sôn am groeso y
byddai'n ei gael pan
gyrhaeddai adref, a dŵr
oer o beipan rwber yn
cael ei chwistrellu dros
ei gorff, ac yntau'n
ysgwyd ei gynffon mewn
llawenydd ac yn cyfarth
dros bob man.

Tybed a oes gennych
chi greaduriaid, neu hyd
yn oed aderyn, psygodyn
efallai, prifyn doniol
sy'n gwneud pethau
rhyfedd? Pam na
wnewch chi sgwennu
atom a dweud yr hanes
wrthym?

Mae Sbonach Bach ar
ei wyliau y mis hwn yng
ngwlad Siôn Corn.
Ysgwn i pam ei fod yno?

Hwyrach y cawn yr
hanes ganddo y tro nesa, wedi
iddo ddadmer a chael rhywfaint
o liw yn ôl i'w wyneb, gan fy
mod ar ddeall fod gwlad Siôn
Corn y tu hwnt o oer yr amser
yma o'r flwyddyn.

Da bo chi! Cadwch yn
gynnes a cofiwch helpu eraill.
Hwyl!

SBONACH MAWR

DRAENOG

Pan sylweddolodd merch
landeg o gylich *Eco'r Wyddfa*
fod ei modur angen trwydded
moduro, a hynny ar frys, aeth i
swyddfa'r DVLA ym
Mhenrhosgarnedd a chafodd, i
fynd yno ac yn ôl, ganiatâd
caredig ei thad i ddefnyddio ei
fodur ef. Do! mi ddrefnodd yn
ddiogel i Benrhosgarnedd,
yno ac yn ôl, ac i giaffi wrth
ymyl, heb sylweddoli fod car
ei thad yn ddiffygiol ran un
peth, Ie! fy mhobl i, trwydded
moduro!

UN FUNUD FACH

Y 'DOLIG

Lle da am berlau ydy *Coronation
Street*. Mae awduron y gyfres yn eu
gosod yng ngenau rhai o'r
cymeriadau lliwgar a brith sy'n
byw yno. Y noson o'r blaen
roedden nhw'n trafod anrhegion
ar gyfer diwrnod bedydd plentyn
bach. Awgrymodd un ohonynt y
gellid prynu croes i'r bychan; ond
gwrthodwyd y syniad hwnnw am
y byddai peth felly yn rhy
grefyddol o lawer! Ychwanegwyd
at glyfrwch y sgriptio gan mai'r
greadures frith sydd newydd ddod
o'r carchar a wnaeth yr awgrym a
dangos ei bod hi, o leiaf, yn deall
fod â wnelo'r bedydd rywbeth â
chrefydd!

Tybed oedd â wnelo'r olygfa
fach honno unrhyw beth â'r
drafodaeth a gafwyd yn
ddiweddar ynghylch symbolau
crefyddol? Beth bynnag y
dadleuon a'r gwahanol
safbwyntiau, dyma drigolion 'Y
Stryd' yn ein hatgoffa fod cymaint
o bobl yn gweld pob symbol
crefyddol yn gwbl amherthnasol
i'w bywydau. Ac nid symbolau yn
unig, ond crefydd ei hunan. Pam
fod angen dod â chrefydd i
ddigwyddiad fel bedydd? Nid ar
Coronation Street yn unig y mae
pobl yn gofyn y cwestiwn hwnnw.
Mae'n siŵr gen i fod rhai o'r farn
fod gormod o flas crefyddol ar rai
o'n gwasanaethau Cristnogol adeg
priodas ac angladd hefyd, heb sôn
am y Nadolig!

Y peth hawdda'n byd ar

drothwy'r Nadolig yw i
Gristnogion fynd yn benwan wrth
drafod y ffordd y caiff Y
Gwardwr ei anwybyddu yng
nghanol dathliadau'r Wyl. Un
enghraifft yw'r beirniadu a fu ar
stampiau'r Post Brenhinol eleni
am mai Siôn Corn a dynion eira a
choed Nadolig yn hytrach na
phreseb a baban Bethlehem a welir
arnynt. Rhaid i mi gyfaddef fod
esboniad Y Post eu bod yn
cyhoeddi stampiau seciwlar ar yn
ail flwyddyn â stampiau seciwlar
yn ddigon rhesymol i mi. Wedi'r
cwbl, rhyw gymysgedd o'r
seciwlar a'r crefyddol yw'r
Nadolig i'r rhan fwyaf o
Gristnogion hefyd.

Cyn i mi ruthro i feirniadu
eraill am ddiffygion eu dathliadau
hwy y Nadolig hwn, mae'n rhaid i
mi feddwl am y ffordd y byddaf fi
fy hun yn dathlu. Fel y dywedais,
cymysgedd o'r seciwlar a'r
crefyddol fydd fy Nadolig innau.
Felly y bu ers blynnyddoedd, ac
felly y bydd eto. Rwy'n
mwynhau'r elfennau seciwlar yn
fawr. Ydw, rwy'n casáu miwsig a
thrimings Nadolig ganol Hydref;
ond deled trydedd wythnos mis
Rhagfyr ac rwyf wrth fy modd â
nhw. Ond rwy'n gwybod hefyd
mai Crist yw gwir Oleuni'r
Nadolig ac mai dathlu ei eni a
wnawn ar yr Wyl hon. Ac edrychaf
ymlaen eleni eto at wneud hynny
mewn llawenydd a rhyfeddod.

A pha well ffordd i bobl eraill
weld fod â wnelo Crist rywbeth â'r
Nadolig na bod y rhai sy'n credu
ynddo'n dangos y wefr a'r
llawenydd a brofant o gofio'i eni?

JOHN PRITCHARD



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS



FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynnyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



✠
J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael –

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Beth am brynu Tocyn Gwyliau yn anrheg y Nadolig yma?

ARVONIA COMMUTER

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk

Tudalen Nadolig Rygarug



Mae aelodau a thiworiaid Rygarug yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb sy'n darllen *Eco'r Wyddfa!*

Bisgedi Nadolig.

Gyda'r Nadolig ar ein trothwy, penderfynodd Gwen Angharad Thomas fynd ati i gwcio bisgedi Nadolig, dyma ei resipi:

100 gram o fenyn medal
5 gram o siwgr caster
150 gram o flawd plaen
50 gram o reis wedi ei falu (*ground rice*)

Mewn powlen cymysgwch y menynd a'r siwgr gyda'i gilydd nes y byddant wedi hydoddi i'w gilydd.

Yn araf, ychwanegwch y blawd a'r reis. Dewch â'r gymysgedd at ei gilydd a rhowliwch y cyfan i drwch o rhyw dri chwarter centimetr.

Defnyddiwch siapiau Nadoligaidd i dorri'r bisgedi yna gosodwch hwy a'r dre a'u rhoi yn y popty ar wres o 170C neu 325F am 40 munud.

Gadewch i'r bisgedi oeri am rhyw 5 munud yna cewch eu hardduno fel y mynwch!
Mwynhewch!!

Newyddion o Rygarug

Bu trip y dosbarth Amlgyfrwng i'r Galeri ar yr 8fed o Dachwedd yn llwyddiannus tros ben, gyda phawb wedi mwynhau eu hunain, ynghyd â mwynhau y ffilmiau bychain a ddangoswyd. Diolch i Galeri am noson wych. Bydd Rygarug yn cymryd seibiant dros y gwyliau Nadolig, ond yn aildechrau yn y flwyddyn newydd.

Mae cast i'n sioe 'Gwyrdd' wedi eu dewis, byddwn yn cyhoeddi pwy ydi pwy yn rhifyn Ionawr 2007!

Mae croeso cynnes i aelodau newydd o hyd i Rygarug, yn enwedig i Gôr Rygarug. Am fwy o fanylion, cysylltwch â'r Trefnydd, Sian Eleri Jones, ar (01286) 675766

Y Nadolig,

gan Elain S. Roberts

Mae pawb yn cysgu'n dawel,
Does dim smic o sŵn,
Mae pawb yn ddistaw heno,
Hyd yn oed y cŵn.

Mae clychau Santa'n tincian,
Ymhobman ar hyd y byd.
A'i sach yng nghefn ei gerbyd,
Yn llawn anrhegion drud.

'Bore fory,' dywedodd Santa,
'Bydd plant y byd i gyd,
Yn agor eu anrhegion,
A gwên ar eu wynebau clyd.'

Wyt ti'n edrych ymlaen i'r Nadolig, a pam?

Rydwyf yn edrych ymlaen i'r Nadolig oherwydd mae Siôn Corn yn dod. Mae rhai plant yn meddwl bod Siôn Corn ddim yn wir. Ond dwi yn meddwl bod Siôn Corn yn wir. Rwyf yn edrych ymlaen am fy nghinio Dolig ac y presanta. Rwyf yn cael llawer o bethau Dolig fel Moon Shoes, ffôn symudol a beic BMX newydd.

Rhun Meirion,
bl 5 Ysgol Llanrug

Rydw i yn hoffi Nadolig oherwydd cinio Dolig a presantau ac oherwydd cafodd Iesu Grist ei eni. Y present rydw i eisiau y Dolig yma yw Nintendo DS efo'r gêm Nintendo Dogs a Laptop a'r gêm SimS2 Pets, a gêm Bratz Forever Dimonds ar Play Station 2.

Sioned Elin Griffiths,
Bl 5 Ysgol Llanrug

Rydw i yn mwynhau Nadolig oherwydd rydw i yn cael llawer o presantau. Rydw i yn deffro am 7 o'r gloch bore Nadolig. Nadolig yma, rydw i eisiau Playstation 2 a chwaer bach.

Ffion Mai Thomas,
Bl 5, Ysgol Llanrug

Top Ten Bwyd Nadolig

gan Chris Roberts

Twrci
Mins Peis
Pwddin 'Dolig
Sosij wedi ei lapio mewn bacwn.
Sôs Cranberi
Cacen Nadolig
Siocled
Stwffin
Cnau
Brechdan Twrci!

Beth yw y Nadolig?

gan Ffion Wyn

Pam rydych yn mynd heibio siopau yr adeg yma o'r flwyddyn mae gan y rhan fwyaf Siôn Corn a'i geirw a baneri Nadolig Llawen uwch eu pennau. A ydym ni yn gwneud gormod o drafferth am un diwrnod?

Edrychwch ar Siôn Corn - yn y canol oesoedd roedd e yn gwisgo glas neu wyrdd, yna tua canrif yn ôl dechreuodd cwmni o'r enw Coca Cola. Adeg y Nadolig ymddangosodd lluniau o Siôn Corn yn yfed Coca Cola ac roedd ei siwt yn goch ac dyna sut mae o wedi bod ers hynny.

Enw iawn Siôn Corn yw Sant Nicolas ac yn y dechrau dim ond rhoi anrhegion i'r plant llai ffodus yr oedd, ond erbyn y diwedd daeth i bob tŷ.

Erbyn yr ugeinfed o Ragfyr

mae ein tai yn orlawn o gardiau ac anrhegion o dan y goeden, ond ydych chi wedi cael mwy o bethau na rydych chi wedi eu rhoi? Ydych chi wedi teimlo'n dda wrth eu rhoi neu wedi rhoi arian i elusen neu focs llawn anrhegion i blant y trydydd byd.

Yn olaf ydych chi yn gwybod beth yw gwir ystyr y Nadolig? Gwir ystyr y Nadolig yw fod Iesu Grist wedi ei eni ym Methlehem yn y stabl o dan y seren lachar. Daeth y Bugeiliaid ag ŵyn, a'r tri gwr doeth ag aur thus a myrr. Dyna pam rydym yn mynd i'r capel ar fore Nadolig, dyna yw gwir ystyr y Nadolig.

Cwis Nadoligaidd Rygarug gan Ffion Erin

Mae llythyren gyntaf pob ateb yn sillafu gair Nadoligaidd.

1. Fe ddilynodd y doethion hon i ddarganfod y Baban Iesu.
2. Pobl Iesu Grist.
3. Anrheg gan y Bugeiliaid i'r Baban Iesu.
4. Cartref Iesu Grist.
5. Planhigyn pigog y Nadolig.
6. Yw hi yn gynnes neu oer deg y Nadolig?
7. Deryn bach yr ardd yn chwilio am fwyd yn y gaeaf.
8. O ble ddaeth yr angylion?

Bydd atebion y cwis yn rhifyn mis Ionawr o *Eco'r Wyddfa*.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

LLONGYFARCHIADAU mawr i Mrs Betty Jones, Tan y Buarth Uchaf, ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ystod y mis. Pob bendith ac iechyd i'r blynyddoedd a ddel.

CYFARCHION NADOLIG.

Dymuna Mrs Laura Williams, Tan y Fron, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn anfon cardiau unigol eleni. Hoffai hefyd ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn ystod y flwyddyn. MYNYDD GWEFRU LLANBERIS Cynhelir pnawn difyr yng nghwmni Côr Meibion Peris a Seindorf Arian Deiniolen dydd Sul, 10 Rhagfyr, am 2.00 o'r gloch. Bydd y mynediad am ddim ond fe wneir casgliad at Gronfa yr Amiwylans Awyr. Dowch yn llw i fwynhau. Cewch banded a mins pei ar y diwedd.

CLWB ORWIG. Cyfarfu aelodau'r Clwb ar 19 Hydref. Croesawyd pawb yno gan y Llywydd, John Cantrell, a diolchodd i Joan a Dennis Glass am drefnu cystadleuaeth i godi arian at Ysgol Pendalar. Hyd yma casglwyd £400 ond penderfynwyd parhau i gasglu 5 ceiniogau hyd at ddiwedd y flwyddyn.

Diolchwych i Terry Taylor a Selwyn ac Ann Williams am eu gwaith yn torri'r gwair o gwmpas y

Gofeb a gwahoddwyd gwirfoddolwyr i blannu rhagor o gennin Pedr, grug a chlychau'r gog yno. Derbyniodd Margaret Faulkener a Morfudd Jones flodau ar achlysur eu pen-blwydd. Betty Lloyd Roberts a Betty Roberts a roddodd y te a'r rhoddion raffl a diolchwych i berchnogion y Veg Van, Martin a Glenys, am eu rhodd o fasedd o ffrwythau ac i Ann Williams am ei rhodd o jam cartref.

Y siaradwr gwadd oedd Terry Taylor. Cafwyd hanes difyr o'i daith a'i wyliau diweddar i Zambia, a arferid ei alw'n De Luangwa a Gogledd Rhodesia.

Enillwyr y raffl oedd Betty Bower, Rose Cantrell, Betty Ann Jones, Betty Roberts, Kathleen Davies, Elizabeth Jones, Ann Williams a Ray Bower.

DIOLCH. Dymuna Mrs Betty Jones, Tan y Buarth Uchaf ddiolch i'r plant, teulu a ffrindiau am y cardiau, blodau a rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

CYFARCHION NADOLIG.

Oherwydd amgylchiadau personol ni fydd Andrew ac Alice Griffith, Tan y Bwlch, yn anfon cardiau Nadolig eleni. Maent am dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teuluoedd, ffrindiau a phawb arall.

Silver STAR GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNgherddau a Theatrau.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNnwys: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

YSGOL BRYNREFAIL

Yr Arolwg

Wedi hir ymaros a chryn baratoi, bu i ni yma ym Mrynrefail groesawu carfan sylweddol o ymwelwyr, sef arolygwyr ei mawrhydi, er mwyn cynnal arolwg o'r ysgol. Treuliodd y cyfeillion wythnos yn ein mysg, yn arsylwi gwersi, yn edrych ar bolisiau a dogfennaeth, ac yn trafod gyda staff a disgyblion yr ysgol. Wrth ffarwelio brynhawn Gwener roedd pawb yn fodlon fod yr arolygwyr wedi cael cyfle i weld ein disgyblion ar eu gorau, ac wedi cael blas o arlwy amrywiol a diddorol Ysgol Brynrefail.

Bydd adroddiad llawn yr arolygwyr yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd. Darllen difyr siŵr o fod!!

Athrawes Newydd



Yn y rhifyn blaenorol fe'ch cyflwynwyd i un o athrawesau newydd yr ysgol, a'r mis hwn fe gewch gyfle i ddod i adnabod aelod newydd o'r Adran Wyddoniaeth, sef Miss Nia Edwards. Fe'i cyfwelwyd gan Katie Pritchard a Gwenonwy Alun:

Ble'r ydych chi'n byw?
Llangefni

I ble'r aethoch chi i'r coleg?
Aberystwyth.

Beth yw eich hoff fwyd?
Tikka Marsala Cyw Iâr

Beth yw eich hoff ffilm?
Armageddon

Beth yw eich hoff liw?
Gwyrddlas


Beth yw eich maes?
Bioleg

Ble buoch chi cyn dod i Frynrefail?
Hon yw fy swydd gyntaf.

Beth oedd eich argraffiadau cyntaf o Frynrefail?
Doeddwn i erioed wedi bod i'r ardal hon o'r blaen, ond mae hi'n ac mae'r plant yn glên iawn!!

Beth am yr athrawon?!!
Mae pawb wedi bod yn hynod gefnogol a chyfeillgar, chwarae teg!

Yr Wyl Gerdd Dant



Ar yr unfed ar ddeg o Dachwedd eleni cynhaliwyd yr Wyl Gerdd Dant yn ardal Rhosllanerchrugog ger Wrecsam. Teithiodd criw dawnsio gwerin blwyddyn 12 a 13 yno i gystadlu. Perffomiodd y criw yn rhagorol ar y llwyfan a llwyddasant i sicrhau'r ail wobr gyda Maes Garmon yn drydydd, ac arbenigwyr Ystalafera ar y brig. Llongyfarchiadau gwresog

i bob un ohonynt, a diolch o galon i Judith Harding am eu hyfforddi. Bydd y criw yn perfformio yng nghyngerdd 'Ddoe a Heddiw' yn neuadd yr ysgol. Dewch yn llu!!!

(Mae lluniau llwyfan.com wedi rhoi caniatâd ni ddefnyddio'r llun yma. Cysylltwch â nhw er mwyn cael gwared o'r sgwennu oddi ar y llun!!!)

Eisteddfod Bentref Llanrug



Nos Wener, Tachwedd 17eg, cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Llanrug. Bu cryn gystadlu ar gyfer pob oedran fel arfer, a bu i ddau o ddisgyblion yr ysgol ddod i'r brig yn y prif gystadlaethau llenyddol.

Enillodd Llywelyn Williams o Flwyddyn 9 Dlws y Llenor

Ifanc, ac enillodd Cai Dyfan o Flwyddyn 13 y Gadair. Llongyfarchiadau gwresog i'r ddau ohonynt.

Yn y llun fe welir Llywelyn a Cai gyda phrif ddisgyblion yr ysgol, a gymerodd rôl yr Archdderwydd ar gyfer y seremoni.

HENO

gan Cai Dyfan

Heno, meddwn i wrthyf fy hun, heno fyddai'r noson y buaswn yn creu argraff ddofn ar rieni fy nghariad, y noson y byddwn yn gwneud fy nghariad yn falch ohonaf - fel cariad ac fel cogydd. Roedd popeth yn dibynnu ar heno - gyrfa, hapusrwydd, priodas, ond er fy nerfusrwydd, teimlwn yn dawel hyderus oherwydd fy mharatodau trylwyr a'm hymchwil manwl.

Cyri. Y bwyd Indiaidd hwnnw roedd pawb yn ei fwyta, a heno roeddwn i yn bwriadu coginio un. Yn anffodus iawn i mi, roedd fy rhieni-yng-

nghyfraith yn teimlo'n eithaf brwdfrydig dros y bwyd tramor hwn. Onid oeddynt wedi ymweld â Deli bedair gwaith ac wedi ciniawa ymhob bwyty Indiaidd o Lanfairpwll i Penzance? Roedd Harold a Marjori Jones yn dipyn o giamstars ar gyri erbyn hyn a dweud y lleiaf. Gwyddent y gwahaniaeth rhwng Vindaloo a Madras, gwyddent y cynhwysion i drigain math gwahanol o gyri ac roedd y baji a'r bara naan ar flaenau eu bysedd.

Dyn pwysig iawn oedd fy nhad-yng-ngyfraith. Roedd yn gyfreithiwr parchus ac yn gredwr chwynr mewn

disgyblaeth. Gweithiwn i ar y pryd fel clerc iddo, felly nid yn unig roedd llaw ei ferch mewn priodas yn dibynnu ar yr un cyri yma, roedd fy ngyrfa yn y fantol hefyd.

Edrychais ar fy oriawr yn gyflym. Pump o'r gloch. Ymhen dwyawr, byddai rhieni fy nghariad a 'nghariad, Gwenno, yn eistedd o gwmpas y bwrdd yn bolio fy nghyri ysblennydd. Yn frysiog prysurias i geisio creu'r saws i'r Rogan Josh.

Roedd perlysiâu, potiau a llysiâu ethnig yn frith ar hyd y gegin. Chwyrliai mwg o'r sosbenni. Yn wir, edrychai ac aroglai yn debycach i Fazar ynghanol Calcutta nag i gegin fy fflat bychan ym Mangor.

Mudferwai'r saws yn fodlon ar yr hob. Amser nawr i ffrio'r cyw iâr. Defiais yn chwim i mewn i grombil yr oergell gan dynnu allan y paced o 'chicken fillets'. Roedd y cyw iâr yma'n edrych yn llawer melynach nag unrhyw gyw iâr arall i mi ddod ar ei draws o'r blaen. Edrychai'n od tu hwnt. Troais y paced drosodd a chraffais ar y dyddiad 'best before'. Yn anffodus roedd y cyw iâr hwn wedi cyrraedd diwedd ei oes bwytdwy ers dau ddiwrnod. Edrychais ar fy oriawr eto. Chwech o'r gloch. Penderfynais dorri darn bach o'r cyw iâr, a'i fwydo i 'nghath. Bwytaodd hwnnw'r darn mewn chwinciad, fel 'tasa 'na ddim yfory. Profodd hyn i mi fod y cig yn ddigon treuliadwy, felly taflais y gweddill yn un lwmp i mewn i'r badell ffrio.

Newydd droi'n saith o'r gloch oedd hi pan ddaeth cnoc anferth ar y drws. Roedd y Rogan Josh yn ffrwtian yn fendigedig ar y tân nwy wrth i mi gamu'n ofalus tua'r drws.

'Daaaavid, machgen i!' gwaeddodd Harold Jones gan frasgamu i mewn trwy'r drws. Gallwn weld y rychau tyfn yn ei fol crwn yn dirgrynu wrth iddo ysgwyd fy llaw yn gadarn.

Dilynai Marjori fel cynffon binc, anferth a'i ffrog fawreddog taffeta yn chwyrlio yn y gwynt, gan ollwng plu gyda phob cam.

'Daaaavid, iesgob ti di mynd yn hen hogyn mawr!' sgrechiodd hithau'n felodramatig, cyn plannu cusan fawr wlyb ar fy moch.

Lordiodd y ddau drwy'r ystafell fyw ac eistedd, yn ddau fynydd o bomp ceidwadol. Daeth Gwenno i mewn trwy'r drws yn araf, wedi gwrido gan gywilydd.

'Haia Dafydd, sori am hyn!' Sibrydodd, cyn parhau tua'r bwrdd bwyd.

Roedd y noson yn mynd yn

wych. Roedd fy ymgais i geisio cynnal sgwrs ddwys am wleidyddiaeth yn profi'n llwyddiannus iawn gyda Harold, ac edrychai Marjori'n ddigon hapus yn jochian ar botel o win.

'Be 'sgen ti i ni heno, David? Arogl fel Rogan Josh i mi!' cyfarthodd Harold o du ôl i'w fwstasht dudew. Goleuodd wyneb Marjori yn syth.

'WWW, Rogan Josh! Fy ffefryn, Harold!' mewiodd yn feddw.

Oedd, roedd y cyri yn barod. Estynnais y platiau gorau 'Portmeirion' o'r cwpwrdd a physurais i roi lleteidiau haul o'r cyri a'r reis arnynt. Camais yn urddasol at y bwrdd bwyd gyda'r platiau chwilboeth yn fy nwylo a'u doddi yn ofalus o flaen Harold, Marjori a Gwenno. Yn syth bron, ymrodd Harold a Marjori i'r wledd. Roedd distawrwydd am funudau, gyda dim ond sŵn rhieni fy nghariad yn llenwi'r ystafell.

'Pur hyfrytra,' meddai Harold o'r diwedd. 'David, mae'r pryd yma'n odidog,' meddai eto cyn helpu ei hun a'i wraig i lwyaid arall o'r sylwedd erioglyd. Gwenodd Gwenno'n gariadus arnaf. Roedd hi hefyd yn amlwg yn mwynhau'r pryd.

Cliriais y platiau a theimlwn yn gynnes gan falchder. Yn wên o glust i glust, cludais y llestri i'r gegin.

Ger y sinc oeddwn i, pan glywais y sŵn mwya rhyfedd yn dod o gornel yr ystafell. Troais yn fy unfan i weld fy nghath yn gorwedd ar ei gefn, yn crynu'n wyllt, ac yn tagu'n frawychus o uchel. Roedd hylif melyn trwchus yn llifo o'i geg. Gwawriodd y ffaith ofnadwy arnaf mai'r cyw iâr oedd wedi achosi hyn. Diferai'r chwys yn oer i lawr fy nhalcen wrth gofio

Harold a Marjori yn lloccio'r cig fel dau faedd gwyllt ychydig funudau ynghynt. Rhedais at y bwrdd bwyd fel gwallgofddyn, gan esbonio fy syniad synhwyrol iddynt fynd i'r ysbyty i gael pwmpio'u stumogau.

'Ac i feddwl mod i'n mynd i adael i fy Gwenno fach i briodi horwth fatha chdi!' bloeddiodd Harold yn gandryll.

'Rŵan, rŵan, Harold,' mwmlodd Marjori, yn dal dan ddylanwad y gwin.

'Doedd gen i ddim syniad fod y cyw iâr wedi mynd "off" Mr Jones,' pleidiais innau. Edrychodd Gwenno'n flin arnaf, ac mewn un stampid chwim, rhuthrodd Gwenno a'i rhieni allan o'r drws ac am yr ysbyty.

* * *


Roedd y gath yn dal i dagu fel yr andros. Penderfynais fynd â hi at y milfeddyg yn syth. Gorwedda i yn syrjeri. Roedd y golau glas clinigaidd yn frawychus bron. Edrychodd y meddyg i mewn i geg y gath a'i tharo yn ysgafn ar ei chefn, a chydag un tagiad anferthol, saethodd pelen hollol grwn o ffwr gwlyb o grombil y gath.

'Dafydd bach,' meddai'r milfeddyg yn ddistaw. 'Dim ond "furball" oedd yn sownd yng ngwddw'r hen beth, dim byd i boeni amdano fo o gwbl.'

Heno, meddwn i wrthyf fy hun, heno oedd y noson y gallwn fod wedi creu argraff ddofn ar rieni fy nghariad. Y noson y gallwn fod wedi gwneud fy nghariad yn falch ohonof - fel cariad ac fel cogydd. Roedd popeth wedi dibynnu ar heno.

Dim ots, meddyliais gan wenu'n gariadus ar fy nghath, beth am Rogan Josh gyda chig oen y tro nesaf?

Diwrnod Pinc



Yn ystod mis Hydref, yn dilyn cais gan Fforwm y Disgyblion a'r Chweched Dosbarth, trefnwyd diwrnod pinc ym Mrynrefail er mwyn codi arian ar gyfer y Gronfa Ymchwil Cancr.

Cafwyd lluo o weithgareddau (pinc!!) a braf oedd gweld

brwdfrydedd y disgyblion wrth gyfrannu at elusen, sydd, yn anffodus, yn cyffwrdd y rhan fwyaf ohonom mewn rhyw ffordd. Roedd hyd yn oed rhai o'r bechgyn yn gwisgo pinc!!!

Llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus iawn o £591.30 tuag at yr elusen hynod deilwng.


Tîm Rygbi dan 14 2006-7



Mae'r tîm yn cael tymor llwyddiannus, wedi chwarae pump gêm ac wedi bod yn fuddugol mewn pedair. Ein canlyniadau hyd yn hyn yw
Caergybi 0 Brynrefail 57
Brynrefail 54 Tryfan 0

Bodedern 17 Brynrefail 7
Brynrefail 73 Dyffryn Ogwen 3
Brynrefail 14 Amlwch 7
Edrychwn ymlaen at gemau yn erbyn ysgolion Friars, Syr Hugh Owen a Llangefni yn yr wythnosau sydd i ddod.

Tîm Rygbi dan 16 2006-7



Ar ôl dechrau ardderchog i'r tymor, mae tîm dan 16 Brynrefail yn gryfach nac erioed. Gyda 4 cyn-chwaraewr i dîm Gwynedd a thri sydd yn chwarae yn bresennol yn ein plith, a digon o dalent ymysg yr hogia eraill rydym yn dal heb golli gêm. Ein canlyniadau hyd yma yw:

Caergybi 0 Brynrefail 39
Brynrefail 33 Tryfan 29
Bodedern 7 Brynrefail 10
Brynrefail 40 Dyffryn Ogwen 3
Brynrefail 20 Amlwch 7
Edrychwn ymlaen am yr ornest yn erbyn Syr Hugh Owen cyn y Nadolig.

(Adroddiad RHYS GRIFFITH Bachwr y Tîm)

Pêl-droed



Y captan, Gethin Phillips, gyda'r gol-geidwad, Dylan Huws.


Yn ddiweddar bu i fechgyn Blwyddyn 11 chwarae gêm cwpan yn erbyn Ysgol Bodedern. Er fod y gwynt a'r

glaw wedi rheoli'r gêm, fe ddechreuodd tîm Brynrefail yn hynod o gryf. Pan enillwyd cic gornel, roedd yn anochel ein bod yn sgorio trwy beniad slic. Parhaodd y chwarae da yn ystod yr ail hanner ac fe sgoriodd Sion Eifion i wneud y sgor yn ddwy gôl i ddim. Dangosodd bechgyn Bodedern ddyfalbarhad wedyn a llwyddasant i unioni'r sgôr. Aeth y gêm ymlaen i amser ychwanegol ond ni lwyddwyd i sgorio, felly'r unig ateb oedd ciciau o'r smotyn.

Gyda pherfformiad arwrol, llwyddodd Brynrefail i sgorio 5 allan o 5, a bu i ni sicrhau'r fuddugoliaeth trwy arbediad gwych gan Dylan Huws yn y gôl.

Llion Jones yn Rhedeg yng Nnhystadleuaeth Trawsgwlad yn Aberhonddu 18 Tachedd.

Bu Llion Jones o flwyddyn 10 yng nghystadleuaeth trawsgwlad agored i Ysgolion Cymru ddydd Sadwrn yn rhedeg yn y ras i fechgyn dan 16 oed. Er ei fod yn cystadlu mewn ras oedd yn agored i fechgyn flwyddyn yn hŷn na fo fe lwyddodd i ddod yn drydydd yn y ras. Mae Llion wedi rhedeg tros Gymru y llynedd ond byddwn yn edrych ymlaen i glywed am ei lwyddiannau eleni eto.



Disgybl y Mis



Llongyfarchiadau gwresog i David Williams, Blwyddyn 8, ar gael ei ddewis yn ddisgybl y mis gan yr Adran Gymraeg. Isod ceir cyfweiliad â David:

Pam wyt ti'n meddwl dy fod wedi cael y wobr yma?
Am fy mod yn gweithio'n galed.

Beth yw dy hoff bynciau yn yr Ysgol?

Gwyddoniaeth, Daeryddiaeth, a Chymraeg, wrth gwrs!!

Beth yw dy ddiddordebau?

Canu corn ym Mand Deiniolen, pêl-droed a rygbi.

Pa lyfr wyt ti'n ei ddarllen ar hyn o bryd?

Sgwbidw Aur.

Pa fath o gerddoriaeth wyt ti'n ei fwynhau?

Pop a Rap

Beth wyt ti'n ei gasáu?

Lloegr, golchi llestri, cerddoriaeth glasurol a Simon Cowell.

Beth yw'r peth gorau am Ysgol Brynrefail?

Cymaint o wahanol bynciau i ddysgu a chyfarfod llawer o ffrindiau newydd.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups


cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
yholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

CROESAIR RHAGFYR



Ar Draws

1. Cyfrwng ysgrifennydd.
3. Siarad.
6. Cerdded.
7. Ffrwyth melyn.
8. Cyflawn.
9. Sbort i 22 o chwareuwyr.
11. Sugno.
13. Mae gan hwn drwyn coch.
15. Mae'n llenwi'r afon.
16. Pobl gyffredin.
18. Rydym i gyd yn cychwyn fel un o rhain.
20. Ffurfio.
21. Lliw y ddraig.
22. Symud yn llai cyflym.
25. Gall Dracula droi i un o'r rhain.
28. Pridd.
29. Adeilad newydd i gelf yng Nghaernarfon.
30. Gwrol.
33. Lliw y galarwr.
34. Un waith arall.
36. Nid yw hon i'w chael yn yr ysgol bellach.
38. Gwthiad
41. Byddwch angen pâr o rhain cyn mynd allan.
42. Roedd y doethion yn dod oddi yma.
43. Cartref i anifeiliaid y byd.
44. Cacen.
46. I gyd.
47. Ystafell goginio.
48. Cewch fwyta yma.
52. Gelyn y garddwr.
54. Gwaith.
56. Pren mwyar duon.
57. Rhyfeddod.
58. Mae hwn yn edrych yn well hefo tei.


27. Mae un o rhain ar gloc.
31. Mae llawer o rhain mewn band.
32. Mae'n bwysig i beidio â gwneud gormod o hyn yn ysod y Nadolig.
35. Rhestr o ddigwyddiadau.
37. Asiantaeth archwilio'r gofod yr Americanwyr.
39. David a Victoria.
40. Gallwch wneud dyn o hwn.
45. Lles.
47. Cewch lawer o rhain yn ystod y Nadolig.
49. Byd angen un i fynd i weld y pantomeim.
50. Defnyddio gorriad.
51. Adeilad i gadw eich arian.
53. Wrth ymyl.
55. Mae gwyneb ond dim pen ar hwn.

Ateb i croesair Tachwedd

Cefais chwe croesair yn ôl y mis yma. Nid oedd neb wedi cael yr un atebion i gyd yn gywir fel ar fy nghroesair i ond fel y dangosodd rhai ohonoch, roedd yn bosib ffitio mwy nac un ateb 'cywir' i rhai o'r cwestiynau, fel 6 i lawr: (almanac neu calendr) a 60 ar draws: (waled neu poded).

Rwyf wedi gwneud y grid gyda dim ond 25 sgwâr bob ffordd y tro yma i geisio cael sgwariau mwy i'ch llythrennau.

Fel arfer, gyrrwch eich atebion i mi: Tecwyn Evans, Tremallt, Waunfawr, Gwynedd, LL55 4YY gyda 'Croesair' ar y tu allan. Yn anffodus, mae'r dyddiad copi i mi gwblhau'r croesair nesaf ar 8 Rhagfyr, felly mae'n debyg na fydd hyn yn ddigon o amser i chwi gwblhau'r croesair a'i yrru i mi (dyddiad plygu: Tachwedd 30). Byddaf, felly yn enwi'r enillydd yn rhifyn y flwyddyn newydd... Pob lwc!!
Tecwyn



AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN

BYDDWCH YN LLAWER GWELL ALLAN HEFO NI!

Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...

IMPORTS GERMAN SWEDISH

Shell HELIX

MOT

32

Ceir Benthg AM DDIM

Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

AAV Car Service

BOSCH Service

VOLVO MERCEDES SAAB



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Fred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076**

i wneud apwyntiad

neu
ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu
e-bost: williamsgw@parliament.uk

RHODDION

£20: Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn, Llanrug.

£15: Mr a Mrs A. Griffith, Tan y Bwlch, Dinoriwg.

£10: Mrs Nellie Williams, 29 Rhydfadog, Deiniolen; Jill Parry, Athrawes Ysgol Feithrin Deiniolen; Er cof am Mrs Gwen Rowlands, Gwynllys, Deiniol Road, Deiniolen gan y teulu; Glyn Williams, 18 Maes Padarn, Llanberis Mrs Megan Williams, Bron Eryri, Llanrug; Mrs O. R. Williams, 29 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Beryl Griffiths,

5 Maes Gwylfa, Deiniolen; Annie Jones, Eilonwy, Llanrug;

£5: Ciss a Jennie, Gorlan, Deiniolen; Janet ac Allan, Goleufryn, Rhes Rhythallt, Llanrug; Miss Katie Roberts, Stad Tref Eilian, Waunfawr; Mrs Laura Williams, Tan y Fron, Dinorwig; Mrs Betty A. Jones, Tan y Buarth Uchaf, Dinorwig; Dafydd a Rhiannydd, Caerdydd; Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Margaræt a Tony Ellis, Nant Peris.

Nadolig Llawn
a diolch am eich
cefnogaeth

oddi wrth

Alwyn a Sarah Penisarwaun Ffôn 870605

- Rithoedd Celyn, Coed Nadolig a 'Crem Pots' a Rithoedd Drws
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 118 247
- Hefyd, *Bouquets* Nadoligaidd



RHODD O'R GALON YW BLODAU



**Nadolig Trydanol yn
Mynydd Gwefru**

LLANBERIS

(01286) 870636



MYNYDD GWEFRU

Anrhegion a Nwyddau i'r teulu i gyd
Bwyd cartref ar gael trwy'r dydd
Oriol a Llundain Cain ar werth

ORIAU AGOR

Tachwedd a Rhagfyr – 10.30am i 4.30pm,
Dydd Mercher i Ddydd Sul

Ionawr – ar gau trwy'r mis

Chwefror i Hydref – yn agored pob diwrnod,
amser amrywiol – cysylltwch â ni.

GWEITHGAREDDAU PENWYTHNOS

Rhagfyr 2 a 3 – Peintio Seramig a
Pypedau Nadolig

Rhagfyr 9 a 10 – Peintio Seramig a Nwyddau
Nadolig wedi eu gwneud gyda llaw

Rhagfyr 16 a 17 – Gwneud Cardiau Nadolig
ac Anrhegion

Pleser o'r mwyaf yw i ni ddatgan ein
diolch i bobl Llanberis a'r cylch am eu
cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a fu.
Hoffem ddiolch i'r mudiadau sydd yn
cwrdd yma yn rheolaidd ac edrychwn
ymlaen at eich gwasanaethu eto y
flwyddyn nesaf.



**Mae staff Mynydd
Gwefru yn dymuno
Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd
'Gwefreiddiol' i
holl ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa.**



CHWARAEON

MWY NA TARO'R POST



Daniel Bell, y capten, a Paul Jones, y rheolwr, yn derbyn y cit gan Cledwyn Jones, Post Bethel.



Tim dan 13 Bethel yn eu cit newydd.

Mae tîm dan 13 Bethel yn edrych yn smart iawn yn eu cit newydd y tymor hwn. Noddwyd y cit gan Cledwyn a Susan, rheolwyr newydd Post Bethel. Mae Paul Williams, y rheolwr, ac aelodau'r tîm yn ddiolchgar iawn am eu haelioni. Mae'r tîm yn aelodau o Gynghrair Gwyrfa'i ac yn cael hwyl fawr hyd

yn hyn. Yn wir, mae tipyn o stamp ar eu chwarae.

Roeddent wedi ennill eu lle yn nhrwyddedd rownd Cwpan yr Arfordir wedi buddugoliaethau yn erbyn y Waunfawr a Bae Penrhyn Coch. Yn anffodus daeth y rhediad i ben pan gollwyd y gêm yn erbyn Hearts Madrid o ardal y Rhyl o 5-3.

NOSON O SIOM

Y mis diwethaf roeddwn yn edrych ymlaen i noson gyda John Toshack, ac yn gobeithio datgelu rhywfaint o'i weledigaeth ynglŷn â dyfodol ein tîm pêl-droed cenedlaethol. Denwyd rhyw 300 i neuadd Pritchard Jones, i noson wedi ei threfnu gan Gymdeithas Cefnogwyr Dinas Bangor.

O'r dechrau roeddwn yn synhwyro mai 'noson ffwtbol' go iawn oedd hon. Roedd awyrgylch braf yno, a thipyn o edrych ymlaen i araith y gŵr gwadd. Llofnododd sawl darn o bapur a chael tynnu ei lun â nifer o'r cefnogwyr. Ond siomedig iawn fu'r araith.

Roedd bwriad i gael sesiwn o 'holi ac ateb' ond amharod oedd Toshack i wneud hynny. Efallai, yn ddiagon teg, ei fod ofn cael ei gam-ddifynnu, neu y buasai rhai o'r cwestiynau yn mynd i gyfeiriadau rhy 'savage'!

Gyda'r canoli parhaol o'r gemau 'mawr' draw yng Nghaerdydd, roedd cyfle yma iddo roddi adroddiad i gefnogwyr selog y gogledd, yn un o gadarnleoedd y gêm ar lefel gwreiddiau'r gêm. Wedi'r cwbl roedd Cymru yn chwarae ar y Cae Ras y nos Fawrth canlynol yn erbyn Lichtenstein. Beth oedd

datblygiad Owain Tudur oedd yn cyfiawnhau ei le yn y garfan genedlaethol? Sut roedd y llu oedd yn y cinio sy'n gweithio gyda timau ieuencid ein bro yn medru cyfrannu yn y strwythr cenedlaethol?

Yn anffodus, dim o hyn. Mewn rhyw awr cawsom ei hanes yn Lerpwl gyda phwyslais ar Shankly, Keegan a Paisley. Iawn, ond fawr o sôn am gyfnod Abertawe, neu dechrau da Caerdydd i'r tymor. Neu, yn fwy perthnasol, rhan y Gynghrair Bêl-Droed Genedlaethol yn strategaeth a datblygiad y gêm yng Nghymru.

Ni soniwyd am dim Cymru o gwbwl yn ystod yr araith. Yn wir, dechreuodd rhai o'r gynulleidfa ofyn pam na soniodd am ei waith bob dydd - ei brif waith i gefnogwyr pybyr sy'n dilyn Cymru i bobman. Ni allaf feddwl am Gareth Jenkins yn annerch cinio yn y gogledd heb sôn o gwbwl am rygbi Cymru. Dod i gyfiawnhau a chenhadu y buasai, rwy'n siŵr. Yn sicr, buasai wedi gwneud ei waith cartref.

Do, fe ddenodd dorf dda, a gwnaed elw i'r Gymdeithas ar y noson, ond y teimlad cyffredinol oedd fod cyfle wedi ei golli. Trueni.

A GODIR Y CWMWL?

Rwy'n ysgrifennu'r llith yma ychydig ddyddiau cyn i Gymru herio doniau'r Teirw Duon o Seland Newydd. Aros yn feiddgar mae pob un ohonom i weld a allwn eu trechu am y tro cyntaf ers 1953.

Fel pob tro mae llygedyn o obaith, gyda Chymru â thipyn o ddyfnder yn ei charfan erbyn hyn. Y mae Gareth Jenkins wedi cyflwyno'r gêm gynhenid yn ôl, gyda'r chwarae cyflym, symudol. Hefyd y mae pac cystadleuol yn datblygu. Mae pob chwaraewr ond cystal â'i gêm olaf erbyn hyn. Sefyllfa iach.

Y mae hi'n flwyddyn Cwpan y Byd, ac uchelgais pob chwaraewr fydd cyrraedd y llwyfan mawr. Agwedd bositif arall yw fod hyfforddwyr y timau rhanbarthol hefyd yn ceisio datblygu yr un dull o chwarae â'r tîm cenedlaethol. Gyda Iwerddon a Chymru yn amlwg yn datblygu, teimla llawer mae'r ddwy wlad Geltaidd fydd yn arwain her Hemisffer y gogledd draw yn Ffrainc. Yr her i bob hyfforddwr rhyngwladol yw gwneud yn siŵr fod y tîm ar ei orau ar yr adeg iawn - nid disgleirio'n rhy fuan.

Mae perfformiadau diweddar y Teirw Duon wedi amlygu cryfder eu hamddiffyn, a'r ddawn anhygoel i droi amddiffyn yn ymosod ar amrantiad. Y cadfridog yw Dan Carter, y maswr amryddawn. Bydd canlyniad y gêm yn dangos ble mae Cymru ar restr y gwledydd erbyn hyn - nawfed yn ôl y tabl swyddogol!

Yn ddiweddar cefais brofi awyrgylch wych Stadiwm Liberty yn Abertawe a gwyllo'r Gweilch - heb aelodau carfan Cymru - yn trechu Awstralia. Gwefr oedd gweld Cai Griffiths, y prop ifanc o Gaernarfon, yng nghanol y brew. Mae'n stadiwm braf, ac yn creu awyrgylch arbennig. Mynna'r stadiwm ddenu llwyddiant, a gobeithio bydd hyn eleni yn symblu yr Elyrch a'r Gweilch i hedfan yn uchel.

BUDDUGOLIAETH BWYSIG

Dyna ddaeth i ran tîm dynion Rhedwyr Eryri yn ddiweddar. Mae'r tîm yn cystadlu yng Nghynghrair y Gororau, ac yn y pumed safle yn y gynghrair. Cafwyd pwyntiau derbynol ar eu 'tir' eu hunain pan orffennodd y tîm ar y blaen yn ras 10km Caernarfon. Yn arwain ar ddiwedd y ras roedd un o sêr Bro'r Eco sef Alun Vaughan, mewn amser o 32 munud a 59 eiliad.

Tra'n cyfeirio at y rhedeg ffyrdd, llongyfarchiadau i'r llu o redwyr lleol a gymerodd ran yn her arbennig Marathon Eryri. Llongyfarchiadau hefyd i'r cwmni teledu a greodd naws y ras heriol hon i ni. Yr oedd mawredd Eryri yn gefndir gwych i'r ymdrech. Braf gweld y gamp yma yn cael y sylw dyladwy.

TYMOR ADDAWOL

Diolch i Llinos Mair Williams am ymateb i'm cais am wybodaeth ynglŷn â chlwb hoci Caernarfon. Mae'r clwb yn cynnwys nifer o chwaraewyr o ardal yr Eco, ac yn chwarae eu gemau cartref ar faes pob tywydd Ysgol Brynrefail.

Mae tîm cyntaf y clwb yn cystadlu yn adran gyntaf Cynghrair Hoci Gogledd Cymru. Y capten eleni yw Catrin Jones o Lanrug. Hefyd yn y tîm mae Cerys Parry, Meinir Llwyd a Wendy Marchant o Lanrug, Llinos Mair o Fethel a Manon 'Jiws' Williams a Diana Roberts o Lanberis.

Y tymor diwethaf gorffennodd y tîm yn y pedwerydd safle ac maent am geisio gwella ar hyn eleni. Mae'r argoelion yn dda hyd yn hyn, gan eu bod wedi cael canlyniadau boddhaol yn erbyn timau cryfaf yr adran. Yn y cwpan, trechwyd Pwllheli 7-1, ac felly maent drwodd i'r rownd gyn-derfynol.

Tîm ifanc yw'r ail dîm, yn cynnwys nifer dan 16 oed. Ceir cynrychiolaeth o ysgolion Brynrefail, Syr Hugh Owen a Dyffryn Nantlle. Ymysg yr aelodau mae Marged Rhys, Sarah a Lisa Williams o Fethel a Heledd Thomas o Lanberis.

Nos Fercher yw noson ymarfer arferol y clwb yn Ysgol Brynrefail. Bydd yr Aran Iau (bl.7, 8 a 9) yn cyfarfod rhwng 6.30-7.30 a'r adran hŷn (bl.10+) o 7.30-8.30. Ar hyn o bryd mae'r ymarfer iau wedi ei ohirio gan fod diffyg ar y llifoleuadau ym Mrynrefail. Mae'r oedran hŷn yn cyfarfod ar nos Fawrth rhwng 7.30-8.30 draw ym Mhlas Silyn, Penygroes. Y tebygrwydd yw y bydd pawb yn ôl ym Mrynrefail yn y flwyddyn newydd. Yn naturiol, mae croeso i unrhyw chwaraewyr newydd ymuno. Chwaraeir y gemau cartref ym Mrynrefail ar foreau Sadwrn am 11.00. Unwaith eto, croeso i unrhyw gefnogwyr.

Hoffai'r clwb ddiolch i Dafarn Penbont am eu cydweithrediad parod gyda bwyd ar ôl y gemau.

Rhaid llongyfarch yr ail dîm hefyd. Er yn gymharol ieuanc, cawsant ddyrchafiad y llynedd - eu tymor cyntaf - o'r drydedd i'r ail adran yng Nghynghrair y Gogledd. Yn amlwg dyma glwb wedi ei drefnu'n dda, a chyda pholisi pendant o ddatblygu chwaraewyr ieuanc lleol. Yn amlwg, mae yna awyrgylch cartrefol yn bodoli yn y clwb. Dymunwn yn dda iddynt a gobeithio y bydd angen tipyn o Frasso ar ddiwedd y tymor.

Cefnogwch ein Hysbysebwy